Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Polisïau, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2019

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Fersiwn 4

Hoffem ddiolch i is-grwpiau Sgrinio Cyn Geni Cymru ac i'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol am eu cymorth a'u cyngor gyda'r gwaith o baratoi'r ddogfen.

Gwnaethpwyd asesiad o'r effaith o ran cydraddoldeb ar gyfer y ddogfen hon ac mae'r asesiad ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

© Hawlfraint 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cedwir pob hawl. Ni roddir hawl i atgynhyrchu'r ddogfen gyfan nac unrhyw ran ohoni, heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint.

I'w hadolygu yn 2022

Crynodeb o'r newid			
Dyddiad	**Adran**	**Tudalen**	**Sylwadau**
Awst 2019	Clawr blaen	1	Blwyddyn/rhifyn wedi newid
Awst 2019	Cyflwyniad	11-12	Diweddariadau i ganllawiau/dogfennau a ddefnyddir yn y fersiwn hon
Trefniadau Rheoli			
Awst 2019	Cydlynu'r rhaglen	15-19	Ychwanegu a diweddaru rolau gweithwyr iechyd proffesiynol
Rhagfyr 2020	Cydlynu'r rhaglen	16	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol (M4 protocol1)
Mehefin 2022	Cydlynu'r rhaglen	16	Diweddariad – cyfeirio at wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen
Sgrinio Cyn Geni am HIV, Hepatitis B a Siffilis			
Safonau a Phrotocolau Cyffredinol ar gyfer Sgrinio am HIV, Hepatitis B a Syffilis			
Awst 2019	Trefn y Prawf	25-26	Cadarnhau sut y caiff sampl ei drin fesul beichiogrwydd
	Trin y Canlyniadau	28	Trin canlyniadau ar gyfer menywod sydd wedi cam-esgor
Rhagfyr 2020	Gwybodaeth cyn cael prawf	23	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol Ychwanegwyd fformatau gwybodaeth
Mehefin 2022	Gwybodaeth cyn cael prawf	23	Diweddariad – cyfeirio at wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg wedi'i ddileu o safonau cyffredinol y rhaglen.
Mehefin 2022	Cais am Brawf	25	Troednodyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ddigidol a fformatau eraill.
Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn Geni am HIV			
Ionawr 2020	Rheoli Canlyniadau HIV Adweithiol a Chadarnhaol	31	Amseriad y prawf cadarnhau
Awst 2019	Rheoli Canlyniadau HIV Adweithiol a Chadarnhaol	30	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig

	Cynllun Gofal	32	Atal cyfnod llaetha
	Cynllun Gofal Ôl-enedigol	32	Adolygiad ôl-enedigol meddygol a chymdeithasol
Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn Geni am Hepatitis B			
Ionawr 2020	Rheoli Canlyniadau Hepatitis B Adweithiol a Chadarnhaol	35	Amseriad y prawf cadarnhau
Awst 2019	Rheoli Canlyniadau Hepatitis B Adweithiol a Chadarnhaol	34	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig
	Gofal Ôl-enedigol	37	Amserlen frechu yn unol â Llyfr Gwyrdd 2017
Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn Geni am Siffilis			
Ionawr 2020	Rheoli canlyniadau Siffilis Adweithiol a Chadarnhaol	39	Amseriad y prawf cadarnhau
Awst 2019	Rheoli canlyniadau Siffilis Adweithiol a Chadarnhaol	38	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig
Awst 2019	Cynllun gofal	41	Cynllun geni a argymhellir fesul BASHH
Sgrinio Cyn Geni am Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff			
Awst 2019	Cyflwyniad	42	Newidiwyd y derminoleg.
Awst 2019	Cynnig Prawf Sgrinio	43-44	Cadarnhau cyfnod y beichiogrwydd. Canllawiau BSH 2016.
Awst 2019	Trefn y Prawf	45	Cadarnhau cyfnod y beichiogrwydd.
			Newidiwyd y targed.
			Protocolau wedi'u hychwanegu.
Awst 2019	Gwasanaethau Labordai	46	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig.
Awst 2019	Trin y Canlyniadau	46-47	Awdurdodi canlyniadau.
			Rhoi gwybod i fenywod am y canlyniadau.
Awst 2019	Canlyniadau Negatif ar gyfer Rhesws D a Gwrthgyrff	48-49	Protocolau.
			Cadarnhau cyfnod y beichiogrwydd.
Awst 2019	Canlyniadau Positif ar gyfer Gwrthgyrff	49	Prawf i'r tad biolegol,
Awst 2019	Cynllun Gofal	50	Protocol yn unol â chanllawiau BSH 2016
Awst 2019	Gofal Ôl-enedigol	50-51	Protocol yn unol â chanllawiau BSH 2016
Rhagfyr 2020	Gwybodaeth cyn cael prawf	43	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol Ychwanegwyd fformatau gwybodaeth

Mehefin 2022	Canlyniadau Negatif ar gyfer Rhesws D a Gwrthgyrff	48	Ôl-nodiadau 4 a 5 wedi'u dileu
Mehefin 2022	Gwybodaeth cyn cael prawf	43	Diweddariad – cyfeirio at wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg wedi'i ddileu o safonau cyffredinol y rhaglen.
Mehefin 2022	Cais am Brawf	44	Troednodyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ddigidol a fformatau eraill.
Mehefin 2022	Canlyniadau Negatif ar gyfer Rhesws D a Gwrthgyrff	48	Diweddariad - gwybodaeth ddigidol wedi'i chynnwys
Sgrinio Cyn Geni am Anhwylder y Crymangelloedd a Thalasaemia			
Rhagfyr 2019	Pob rhan	51-64	Newidiwyd Gwasanaeth Geneteg Feddygol Cymru Gyfan i Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan
Awst 2019	Cwestiwn Sgrinio	54	Cadarnhau cyfnod y beichiogrwydd.
			Egluro'r prawf yn dilyn ymateb i FOQ.
Awst 2019	Rhoi caniatâd	56	Hanes Teuluol
			Profion pellach
			Mam faeth
			Trawsblaniad mêr esgyrn
Awst 2019	Cais am Brawf	56-57	Mam faeth
			Wyau neu sberm gan roddwr
			Trawsblaniad mêr esgyrn
Awst 2019	Trefn y Prawf	58	Newid y targed
			Cadarnhau cyfnod y beichiogrwydd.
			Sgrinio ar ôl bwcio'n hwyr
Awst 2019	Gwasanaethau Labordai	58-59	Canllawiau y GIG wedi'u diweddaru yn 2017 ar y Rhaglen Sgrinio am Anhwylder y Crymangelloedd a Thalasaemia
			Sticeri ar gyfer cardiau cais anghyflawn
			Casglu gwybodaeth drwy flwch e-bost generig
Awst 2019	Trin y Canlyniadau	59-60	Cwblhau sticer cerdyn os derbynnir ail gynnig am brawf sgrinio anhwylder y

			crymangelloedd a thalasaemia
Awst 2019	Canlyniad Positif i Brawf Sgrinio'r Fam am Anhwylder y Crymangelloedd neu Thalasaemia	61	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig
Awst 2019	Gofal Ôl-enedigol	64	Meini prawf adolygu pediatrig ar gyfer babi â siawns uchel
Rhagfyr 2020	Gwybodaeth Cyn Cael Prawf	53	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol Ychwanegwyd fformatau gwybodaeth
Rhagfyr 2020	Pob rhan	55-59, 61-62	Ychwanegwyd troednodiadau i gynnwys cais am brawf electronig
Mehefin 2022	Gwybodaeth Cyn Cael Prawf	53	Diweddariad – cyfeirio at wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg wedi'i ddileu o safonau cyffredinol y rhaglen.
Mehefin 2022	Cais am Brawf	56-57	Troednodyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ddigidol a fformatau eraill.
Sgrinio Cyn geni am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau			
Rhagfyr 2019	Pob rhan	65-83	Newidiwyd Gwasanaeth Geneteg Feddygol Cymru Gyfan i Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan
Awst 2019	Cyflwyniad	65-83	Newidiadau i derminoleg syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau
Awst 2019	Gwybodaeth Cyn Cael Prawf	67-68	Argymhelliad i weld y clip ffilm
Awst 2019	Cynnig Prawf Sgrinio	69	Gwybodaeth am efeillio sy'n diflannu/wedi diflannu
Rhagfyr 2019	Rhoi caniatâd	71	Angen rhagor o wybodaeth neu newid meddwl o ran sgrinio
Awst 2019	Trefn y prawf gwaed	73	Cyngor ar samplu 15^{+0}-15^{+2} & 17^{+5}-18^{+0}
Awst 2019	Gwasanaethau Labordai	74	Diweddaru cyfraddau canfod a chyfraddau positif ffug
Awst 2019	Trin y Canlyniadau	75	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig

		77	Cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol
Awst 2019	Canlyniadau siawns uwch	77	Pan na ellir cynnig NIPT
Rhagfyr 2019	Drwy gydol adrannau NIPT		Newidiwyd Gwasanaeth Geneteg Feddygol Cymru Gyfan i Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan
Awst 2019	Trin samplau NIPT	79	Rheoli samplau
Awst 2019	Trin Canlyniadau NIPT	80	Rheoli canlyniadau drwy flwch e-bost generig
Awst 2019	Canlyniadau Siawns Uchel o NIPT neu Ddim Canlyniad	81	Llwybr bwrdd iechyd ar gyfer Dim canlyniad NIPT
		81	Cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol
		82	Dewisiadau beichiogrwydd a chefnogaeth
Rhagfyr 2020	Gwybodaeth Cyn Cael Prawf	67	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol Ychwanegwyd fformatau gwybodaeth
Rhagfyr 2020	Siawns Uwch o syndrom Down, neu syndrom Edwards/syndrom Patau (siawns rhwng 1 mewn 2 ac 1 mewn 150)	76	Newidiwyd canlyniadau siawns uchaf bellach 1 mewn 2 (y siawns uchaf blaenorol a nodwyd oedd 1 mewn 5)
Mehefin 2021	Yr Opsiynau o ran Prawf Sgrinio	65-66	Ychwanegu'r cynnig NIPT mewn gefeilliaid sy'n cael canlyniad siawns uwch o'r prawf cyfun
	Cynnig Prawf Sgrinio	72-73	
	Siawns uwch o syndrom Down, neu syndrom Edwards/syndrom Patau (siawns o 1 mewn 2 i 1 mewn 150)	76-77	
	Canlyniadau Siawns Uchel NIPT neu Ddim Canlyniad	81-83	
Rhagfyr 2021	Gwybodaeth cyn cael prawf	68	Cynnig atgyfeirio i Wasanaethau Genomeg Cymru Gyfan
	Cynnig Prawf Sgrinio	69-70	
	Trin y Canlyniadau	75-76	NIPT wedi'i gynnal y tu allan i lwybr y GIG
Rhagfyr 2021	Gwasanaethau Labordai	80	Newid adroddiadau labordy o ddiwrnodau gwaith i ddiwrnodau calendr
Mehefin	Gwybodaeth cyn cael	67	Diweddariad – cyfeirio at

2022	prawf		wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg wedi'i ddileu o safonau cyffredinol y rhaglen.
Mehefin 2022	Cais am Brawf	72	Troednodyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ddigidol a fformatau eraill.
Mehefin 2022	Trefn y Prawf Gwaed NIPT	79	Gwiriad e-bost bod y sampl wedi'i hanfon o'r bwrdd iechyd (roedd hyn dros y ffôn yn flaenorol)
Sgrinio Uwchsain yn ystod Beichiogrwydd			
Awst 2019	Cyflwyniad	84	Newidiadau i derminoleg syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau
Awst 2019	Gwasanaethau Uwchsain	88-89	Argymhelliad ar gofrestru i gynnal sgan uwchsain
Rhagfyr 2019	Rhoi caniatâd	86	Angen rhagor o wybodaeth neu newid meddwl o ran sgrinio.
Awst 2019	Trefn y Prawf	91	Cynnig sgan ailadroddus os yw CRL <45.0 mm
		92-93	Amseriad yr ail archwiliad i'w gwblhau
Awst 2019	Sganiau Cynnar Annormal yn ystod Beichiogrwydd	92-93	Canllawiau ar hygroma systig ac NT estynedig
Awst 2019	Sganiau Uwchsain Anomaledd y Ffetws	94	Canllawiau ar lwybrau arsylwi uwchsain
Rhagfyr 2020	Gwybodaeth cyn cael prawf	85	Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg. Ychwanegwyd y safon a'r protocol Ychwanegwyd fformatau gwybodaeth
Rhagfyr 2020	Cytunodd Sgrinio Cyn Geni Cymru ar restr wirio safonol sgan sgrinio anomaledd y ffetws Cymru gyfan	94	Diweddarwyd hyd at fis Ebrill 2020
Rhagfyr 2021	Gwasanaethau Uwchsain	88	Newidiadau i ofynion eDdysgu ar gyfer sonograffwyr
Mehefin 2022	Gwybodaeth cyn cael prawf	85	Diweddariad - cyfeirio at wybodaeth ddigidol - cynnig gwybodaeth ddigidol, sicrhau hygyrchedd a fformatau

			gwybodaeth amgen sicrhau hygyrchedd a fformatau gwybodaeth amgen Y cynnig gweithredol o wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg wedi'i ddileu o safonau cyffredinol y rhaglen.
Mehefin 2022	Cais am Brawf	87	Troednodyn wedi'i ddiweddaru i gynnwys gwybodaeth ddigidol a fformatau eraill.

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad..... 11

2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen..... 14

3.0 Trefniadau Rheoli..... 15

4.0 Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis Ba Siffilis..... 21

5.0 Sgrinio Cyn geni am Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff..... 42

6.0 Sgrinio Cyn geni am Anhwylder y Crymangelloedd a Thalasaemia..... 52

7.0 Sgrinio Cyn geni am Syndrom Down, Syndrom Edwards a Syndrom Patau..... 65

8.0 Sgrinio Uwchsain yn ystod Beichiogrwydd..... 84

Cyfeirnodau..... 97

Ôl-nodiadau.....103

1.0 Cyflwyniad

Mae gwasanaethau mamolaeth y byrddau iechyd yng Nghymru'n darparu profion sgrinio cyn geni i fenywod beichiog fel rhan o'u gofal cyn y geni. Mae amryw o wahanol resymau dros gynnig profion sgrinio cyn geni ac mae'r rhain yn gwneud y rhaglen sgrinio cyn geni'n un gymhleth sydd â nifer o wahanol bwrpasau, ac ystyriaethau a goblygiadau moesegol sy'n unigryw.

Y pwrpas a gytunwyd ar gyfer y Rhaglen Sgrinio Cyn Geni yng Nghymru yw:

> • *canfod cyflyrau penodol sy'n bresennol naill ai yn y fam neu yn y babi ac sy'n debygol o effeithio ar iechyd y naill neu'r llall, a bod dull effeithiol o ymyrryd ar gael ar eu cyfer ac mae cyfiawnhad dros ei ddefnyddio*

Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaeth ar gael yn ystod y cyfnod cyn geni neu ar ôl y geni a fydd yn atal y cyflwr ac yn gwella iechyd y babi.

Yn achos cyflyrau eraill, mae'n bosibl adnabod y cyflwr yn ystod y cyfnod cyn geni ond nid oes triniaeth ar gael i'w atal. Drwy gynnig cyngor o ansawdd uchel i'r fenyw, bydd hi'n gallu gwneud dewis personol ar sail gwybodaeth a yw hi'n dymuno gweld y beichiogrwydd yn mynd yn ei flaen. Dylid trefnu cymorth priodol i fenywod pa bynnag benderfyniad y byddant yn ei wneud.

Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru i sefydlu polisïau, safonau a fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad y gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru sy'n rhoi profion sgrinio cyn geni ar waith. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd wedi casglu llawer o brofiad yn y gwaith o reoli a darparu rhaglenni sgrinio ar gyfer rhannau penodol o'r boblogaeth. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n rhan o'r adran Sgrinio Mamau a Phlant. Y cyrff sy'n llywodraethu'r gwaith yw'r Grŵp Ansawdd a Rheoli Clinigol a grwpiau cynghori sy'n benodol i raglenni. Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru'n darparu unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni, nac yn eu rheoli'n uniongyrchol chwaith.

Cyhoeddodd Sgrinio Cyn Geni Cymru'r safonau a'r protocolau cychwynnol yn 2005, gan eu hadolygu yn 2010. Cafodd y protocolau eu hadolygu eto yn 2015, yn unol â gweithredu'r prawf sgrinio cyfunol ar gyfer syndrom Down. Mae pob un o'r byrddau iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu'r polisïau, y safonau a'r protocolau hyn ar gyfer gwaith sgrinio cyn geni. Mae hyn yn golygu bod menywod o bob rhan o Gymru'n cael gwasanaethau sy'n cadw at yr arferion gwaith gorau. Mae'r Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni, Arweinwyr Llywodraethu Sgrinio Mamau Phlant (MAC), Sonograffwyr Arweiniol, Arweinwyr Uwchsain Tryloywder y Gwegil ac Arweinwyr Uwchsain Calon y Ffetws yn gweithio'n agos gyda Sgrinio Cyn Geni Cymru i gynnal y safonau ym mhob un o'r byrddau iechyd ac i roi'r safonau ar waith.

Ar y cyd â'r byrddau iechyd, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru'n mynd ati ddwywaith y flwyddyn i asesu a monitro perfformiad ar ffurf dangosyddion perfformiad. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i Fyrddau Iechyd am eu perfformiad a sut y maent yn cydymffurfio â safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Os nad yw safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cael eu cyrraedd, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol allweddol ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Mae'r adolygiad o'r polisïau, y safonau a'r protocolau a wnaed yn 2018 yn cyfeirio at amryw o ddogfennau cenedlaethol pwysig sy'n ategu gwaith sgrinio cyn geni.

Wrth wneud yr adolygiad, rhoddwyd sylw i argymhellion: Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UK NSC), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), Cymdeithas Haemateoleg Prydain (BSH), Cymdeithas HIV Prydain (BHIVA), Cymdeithas

Prydain ar gyfer Iechyd Rhywiol a HIV (BASHH), Llawlyfr ar gyfer labordai sgrinio cyn geni Rhaglen Sgrinio ar gyfer Anhwylder y Crymangelloedd a Thalasaemia GIG Lloegr, Gwasanaeth Cymorth Sicrwydd Ansawdd Sgrinio ar gyfer Syndrom Down (DQASS); Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr (RCOG) a; Chymdeithas Sganiau Uwchsain Meddygol Prydain (BMUS) a modelau arfer da.

Dylid rhoi sylw i'r safonau a'r protocolau hyn gan roi sylw teg hefyd i'r argymhellion sydd yn y cyhoeddiadau ategol, e.e., canllawiau'r cyrff proffesiynol a'r Colegau Brenhinol.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru hefyd wedi darparu canllawiau pellach ar gyfer Gweithwyr iechyd proffesiynol ar ffurf y cyhoeddiadau a ganlyn: Infections and Rashes in Pregnancy: A Guide for Health Professionals, Midwives Handbook, and Obstetric Ultrasound Handbook for Sonographers.

Caiff y ddogfen hon ei diweddar ar-lein rhwng cyhoeddiadau. Bydd yr holl ddiweddariadau'n cael eu hamlinellu ar ddechrau'r ddogfen. Er mwyn sicrhau y defnyddir y fersiwn fwyaf cyfoes argymhellir bod defnyddwyr yn edrych ar ŷd dogfen hon ar-lein yn hytrach na'i hargraffu.

1.1 Dyluniad y ddogfen

Yn y ddogfen, mae'r safonau ar gyfer sgrinio cyn geni yng Nghymru wedi'u lliwio'n borffor. Yn dilyn y safonau mae'r protocolau ategol sy'n cael eu hargymell, fel sydd yn yr

Safon C 28	**Datganiad y Safon Wedi'i Rifo**
Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) am ganlyniad HIV-adweithiol i'r prawf. Targed 100%	⇐
(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy ebost i flwch ebost generic perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgirnio neu'r dirprwy. (2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol Sgrinio Cyn Geni Cymru. (3) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael oddi wrth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'w defnyddio fel sail i drafodaeth gyda'r fenyw. [a]	**Rhestr o brotoclau i gefnogi gweithredu'r safon yn llawn drwy:** • **roi gwybodaeth ychwanegol i'r proffeswin iechyd am sut i gyflawni'r safon** • **cynnwuys gofyniad am gamau ychwanegol** • **pethau i'w heithrio** • **pethau i'w cynnwys** • **gofynion o ran dogfennaeth** • **gofynion rheoli a rheoli risg** • **gofynion atygfeirio** ⇐

Mae'r llythyren mewn uwchysgrif ar ddiwedd brawddeg ([a]) yn cyfeirio at droednodyn sydd i'w weld ar waelod y dudalen. Mae'r rhif mewn uwchysgrif ar ddiwedd brawddeg ([1]) yn cyfeirio at ôl-nodyn, ac mae'r rhain i'w gweld ar dudalen 82 o'r ddogfen. Drwy ddal y cyrchwr dros y llythrennau a'r rhifau bach hyn, bydd y nodiadau eu hunain yn ymddangos mewn bocs ar y sgrin wrth ymyl y llythyren neu'r rhif cyfatebol. Mae enghraifft o hyn isod ar ôl protocol 3.

Gallwch glicio ar y rhifau mewn ysgrifen sy'n cyfeirio at ôl-nodiadau i symud i dudalen yr ôl-nodiadau. Os byddwch wedyn yn clicio ar y rhif ar ddechrau'r ôl-nodyn, byddwch yn symud yn ôl at y dudalen berthnasol yn y ddogfen.

Bydd hyperddolenni at ddogfennau allweddol drwy'r holl safonau a pholisïau hyn. Er mwyn cael mynediad i'r rhain, cliciwch ar yr hyperddolen (sydd wedi'i uwcholeuo ym mhorotocl tri yn y tabl isod) a bydd y ddogfen yn agor mewn tudalen we ar wahân.

[a] Dyma enghraifft o sut mae troednodiadau'n gweithio

2.0 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen

2.1 Llywodraethu'r Gwasanaeth

Y bwrdd iechyd sy'n darparu gofal sydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu profion sgrinio cyn geni. Yn yr un ffordd y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu profion sgrinio cyn geni'n unol â'r safonau sydd wedi'u hargymell.

Fel rhan o fframwaith llywodraethu'r bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio cyn geni, argymhellir:

- Yn achos unrhyw ddigwyddiadau clinigol, dylid defnyddio system gofnodi'r bwrdd iechyd ei hun i roi gwybod am bob un, gan gynnwys y rhai ar restr drothwy Sgrinio Cyn Geni Cymru.

- Os bydd digwyddiad clinigol wedi dod i'r amlwg ac mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud archwiliadau cychwynnol sy'n awgrymu mai methiant yn y system sydd wedi achosi'r digwyddiad ac y gallai'r un methiant amharu o bosib ar wasanaeth y darparwyr eraill yng Nghymru, dylai'r Cydlynydd Sgrinio Cyn Geni, yr Arweinydd Llywodraethu neu Reolwr Risg y Bwrdd Iechyd gysylltu cyn gynted â phosibl â Sgrinio Cyn Geni Cymru i roi gwybod am y methiant. Bydd hyn yn caniatáu Sgrinio Cyn Geni Cymru i ystyried a oes angen gweithredu neu gynnig canllawiau ychwanegol er mwyn lleihau'r posibilrwydd o weld yr un risg yn amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth arall.

2.2 Llwybrau Sgrinio

Dylai llwybrau gofal fod wedi cael eu creu'n lleol i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth sgrinio cyn geni, a dylai'r llwybrau fod yn disgrifio trefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer:

- Rhoi gwybodaeth i'r fenyw cyn y prawf, a'r cynnig o brawf.
- Gwneud cais am brawf a'i ddarparu.
- Y broses o drin canlyniadau pob prawf.
- Cynnig gwasanaethau cymorth i fenywod yn achos canlyniadau positif i brawf sgrinio.
- Gweithredu yn unol â'r amserlen a gytunwyd a bodloni'r trefniadau monitro.
- Rheoli'r achos yn ôl yr angen cyn y geni ac yn syth ar ôl y geni.
- Cyfeirio'r fenyw at asiantaethau eraill os oes angen.

3.0 Trefniadau Rheoli

Mae'n hanfodol bod y rhaglen sgrinio cyn geni'n cael ei rheoli'n effeithiol. Dylai'r trefniadau rheoli sy'n dilyn fod yn ategu gwaith rhaglen sgrinio cyn geni'r bwrdd iechyd.

3.1 Cydlynu'r rhaglen

Safon M 1

Dylai Byrddau Iechyd fod wedi penodi arweinydd sonograffeg, arweinydd labordy ac arweinydd bydwreigiaeth i fod yn gyfrifol am y gwahanol agweddau ar y rhaglen.

Targed 100%

Safon M 2

Dylai Byrddau Iechyd sefydlu fforwm ym maes sgrinio cyn geni neu dylent fod wedi trefnu bod sgrinio cyn geni'n ymddangos fel eitem ar agenda pob un o gyfarfodydd fforwm sefydledig amlbroffesiwn.

Targed 100%

Safon M 3

Dylai Byrddau Iechyd fod wedi enwi Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r rhaglen gyfan.

Targed 100%

Bydd y cydlynydd sgrinio cyn geni sydd wedi'i enwi'n gyfrifol am:

(1) Cydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sgrinio cyn geni er mwyn hwyluso gwasanaeth effeithiol, amserol a phriodol.

(2) Rhoi ar waith polisïau, safonau, protocolau a llwybrau gofal Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(3) Arwain y gwaith o archwilio gwasanaethau sgrinio cyn geni a chyflwyno adroddiadau ar y gwaith o reoli perfformiad i Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(4) Rheoli'r broses o greu adroddiadau ar ganlyniadau gan gynnwys cyflwyno prosesau lleihau risg.

(5) Datblygu gwasanaeth perthnasol yr adrannau mamolaeth i drafod canlyniadau gyda menywod sydd â phroblemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod profion sgrinio cyn geni.

(6) Cynllunio a darparu rhaglen addysg mewn swydd i weithwyr y gwahanol broffesiynau iechyd sy'n cyfrannu at waith sgrinio cyn geni.

(7) Datblygu cynllun yn y bwrdd iechyd i sicrhau bod pob bydwraig sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau pecynnau e ddysgu Sgrinio Cyn Geni Cymru yn llwyddiannus o fewn yr amlder gofynnol.

(8) Cydlynu'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth am fenywod i'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanyn nhw.

(9) Datblygu ac archwilio llwybr pwrpasol er mwyn cynnig ail brawf sgrinio cyn geni am siffilis, HIV a hepatitis B i fenywod sy'n gwrthod y prawf cyntaf.

(10) Creu a chynnal rhestr o enwau a rhifau ffôn cyswllt ar gyfer y labordai er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo canlyniadau brys yn effeithiol ac yn brydlon o'r labordy i'r gwasanaeth mamolaeth.

(11) Codi ymwybyddiaeth am safonau, protocolau neu ganllawiau newydd, er enghraifft, ail gynnig o brawf am glefydau trosglwyddadwy.

(12) Cynnig cymorth, gwybodaeth ac adnoddau perthnasol ym maes sgrinio cyn geni weithwyr proffesiynau iechyd eraill.

(13) Cydlynu fforwm y bwrdd iechyd ar sgrinio cyn geni.

Safon M 4

Rhaid bod gan fyrddau iechyd broses ar waith i sicrhau bod pob menyw yn cael cynnig llenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn Gymraeg neu Saesneg ac yn gallu cael gafael ar y llenyddiaeth hon a gwneud cofnod o'r cynnig a wnaed.

Targed 100%

(1) Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Safonau'r iaith Gymraeg.

(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.

(3) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.

(4) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. ar ffurf copi caled, print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.

Safon M 5

Rhaid bod proses ar waith i ddelio â gwallau a ddaeth i'r amlwg yn y cardiau gwneud cais.

Targed 100%

(1) Ni ddylai'r gwallau ar y cardiau gwneud cais ym maes syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia fod yn fwy na 2%. Dylai'r gwallau ar y cardiau grŵp gwaed a gwrthgyrff fod cyn lleied â 0%.

(2) Yn achos gwallau ym maes syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia rhaid bod llwybr yn bod ar gyfer anfon gwybodaeth gywir yn ôl i'r labordy o fewn un diwrnod gwaith o gael gwybod am y camgymeriad.

(3) Rhaid bod llwybr rheoli risgiau ar waith er mwyn lleihau nifer y gwallau.

Safon M 6

Dylai byrddau iechyd fod wedi enwi arweinydd llywodraethu ym maes Sgrinio Mamau a Phlant, a dylai'r unigolyn hwnnw fod yn rheoli rôl llywodraethu strategol y rhaglenni.

Targed 100%

Yn y rhaglen sgrinio cyn geni, bydd yr Arweinydd Llywodraethu sydd wedi'i enwi'n gyfrifol am:

(1) Weithredu fel arweinydd llywodraethu'r bwrdd iechyd ar faterion sy'n ymwneud â'r rhaglenni sgrinio cyn geni, sgrinio clyw babanod newydd-anedig a sgrinio smotyn gwaed babanod newydd-anedig.

(2) Disgwylir i'r Arweinydd Llywodraethu weithio am un diwrnod yr wythnos ar gyfer y gwasanaeth Sgrinio Mamau a Phlant. Pan na fydd yr Arweinydd Llywodraethu Sgrinio amau a Phlant yn y gwaith am fwy nag wythnos, dylai'r Bwrdd Iechyd roi gwybod i Sgrinio Cyn Geni Cymru pwy yw'r dirprwy ar gyfer y rôl.

(3) Gweithredu fel cyswllt rhwng y bwrdd iechyd a'r rhaglenni Sgrinio i Famau a Phlant.

(4) Arwain y gwaith yn y bwrdd iechyd o roi ar waith safonau, protocolau a llwybrau gofal y maes cyn geni.

(5) Arwain y bwrdd iechyd yn y gwaith o hwyluso gwybodaeth archwilio ac adborth fel bod y rhaglenni'n gallu sicrhau ansawdd.

(6) Gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr yn y meysydd obstetreg, sonograffeg, gwasanaethau labordai a bydwreigiaeth.

(7) Sicrhau bod cynlluniau gweithredu ar waith er mwyn llunio adroddiadau ar ddangosyddion perfformiad a DQASS (y gwasanaeth cymorth ar sicrhau ansawdd wrth sgrinio am syndrom Down) yn ôl y galw, a bod camau prydlon yn cael eu cymryd ar sail yr adroddiadau.

(8) Rheoli unrhyw ddigwyddiadau a gofnodir yn y Rhaglenni Sgrinio Cyn Geni a rhoi gwybod i Sgrinio Cyn Geni Cymru amdanynt.

Safon M 7

Rhaid i fyrddau iechyd benodi arweinydd obstetreg uwchsain ar gyfer profion sgrinio cyn geni sy'n rheoli'r rhaglen profion uwchsain cyn geni.

Targed 100%

Bydd gan yr Arweinydd Obstetreg Uwchsain gyfrifoldeb dros:

(1) Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Iechyd a Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(2) Gweithredu polisïau, safonau a llwybrau Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn perthynas â'r sgan uwchsain yn ystod beichiogrwydd cynnar, y sgan annomaledd a rhai agweddau ar raglen sgrinio syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

(3) Rheoli perfformiad rhaglenni sgrinio uwchsain cyn geni ac ymdrin âmaterion risg uchel sy'n gysylltiedig â'r rhaglen.

(4) Gweithio ochr yn ochr â'r Arweinydd Tryloywder y Gwegil a'r Arweinydd Calon y Ffetws i roi strategaethau ar waith ar gyfer unrhyw newidiadua sydd eu hangen i'r gwasanaeth.

(5) Arwain y Bwrdd Iechyd, gan weithio ochr yn ochr â'r arweinydd Tryloywder y Gwegil ac Arweinydd Calon y Ffetws is icrhau bod pob archwiliad o Sgrinio Cyn Geni Cymru, fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad, yn cael eu cwblhau a'u hanfon at Sgrinio Cyn Geni Cymru yn amserol.

(6) Arwain ar gydlynu'r broses o ddarparu gwybodaeth am fenywod i sonograffwyr sy'n darparu gofal iddynt.

(7) Arwain ar ddatblygu gweithgaerddu addysg ac adnoddau addysgol i weithwyr iechyd proffesiynol.

(8) Datblygu cynllun yn y bwrdd iechyd i sicrhau bod pob sonograffydd sy'n cyflwyno'r rhaglenni sgrinio cyn geni wedi cwblhau pecynnau e ddysgu Sgrinio Cyn Geni Cymru yn llwyddiannus o fewn yr amlder gofynnol.

(9) Gweithio mewn partneriaeth â'r Arweinydd Llywodraethu Sgrinio Mamau a Phlant i sicrhau bod cynlluniau gweithredu ar gyfer y dangosyddion perfformiad, calyniadau archwiliadau a chanlyniadau Gwasanaeth Cymorth Sicrwydd Ansawdd Synrom Down yn cael eu datblygu lle y bo angen a'u rho ar waith yn brydlon.

Safon M 8

Dylai byrddau iechyd nodi arweinydd tryleuder y gwegil ar gyfer profion sgrinio cyn geni sy'n arwain yr agweddau sgrinio cyfunol ar y rhaglen profion sgrinio uwchsain cyn geni.

Targed 100%

Bydd gan yr Arweinydd Tryloywder Gwegil gyfrifoldeb dros:

(1) Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Iechyd a Sgrinio Cyn Geni Cymru

(2) Sicrwydd ansawdd elfen uwchsain y rhaglen sgrinio gyfunol ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau o fewn y Bwrdd Iechyd yn unol â safonau a phrotocol Sgrinio Cyn Geni Cymru

Bydd disgwyl i Arweinydd Tryleuder y gwegil:

(1) Asesu tri phâr o ddelweddau a ddewiswyd ar hap fesul sonograffydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a rhoi adborth i'r sonograffydd.

(2) Cydymffurfio â safonau gofynnol Sgrinio Cyn Geni Cymru drwy gyflwyno tri phâr o'r delweddau a ddewiswyd ar hap i Gydlynydd Profion Uwchsain Obstetreg Sgrinio Cyn Geni Cymru ddwywaith y flwyddyn.

(3) Monitro'n rheolaidd blotiau digonostig Tryleuder y Gwegil i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Gwasanaeth Cymorth Sicrwydd Ansawdd Syndrom Down (DQASS).

(4) Cyd-drafod gyda'r Cydlynydd Uwchsain Obstetreg ynghylch y plotiau DQASS a dderbynnir ddwywaith y flwyddyn.

(5) Cyfathrebu â sonograffwyr, Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni, Arweinwyr Llywodraethu Sgrinio Mamau a Phlant, Rheolwr Gwasanaeth Radioleg a Chydlynwyr Uwchsain Obstetreg Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn perthynas â'r safonau a gyrhaeddir a monitro'r rhaglen.

(6) Goruchwylio a chadw cofnod o hyfforddiant cychwynnol, dysgu parhaus a sicrhau bod ffeiliau'r sonograffydd yn cael eu cynnal.

(7) Cynhyrchu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith yn dilyn adroddiad DQASS yn ôl yr angen.

(8) Darparu hyfforddiant a chymorth ymarferol mewn perthynas a chynhyrchu dwelweddau.

(9) Cyd-drafod â'r arbenigwyr cymwysiadau uwchsain i sicrhau'r gosodiadau/ paramedrau delweddau gorau bosibl.

Safon M 9

Dylai byrddau iechyd nodi arweinydd uwchsain cardiaidd y ffetws ar gyfer sgrinio cyn geni sy'n arwain ar agwedd calon y ffetws y rhaglen sgrinio cyn geni.

Targed 100%

Bydd gan yr Arweinydd Uwchsain Cardiaidd y Ffetws gyfrifoldeb dros:

(1) Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Iechyd a Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(2) Mynychu cyfarfodydd Arweinwyr Cardiaidd Sgrinio Cyn Geni Cymru

(3) Mynychu cyfarfod Rhwydwaith Cardiofasgwlaidd y Ffetws Cymru a rhaeadru unrhyw wybodaeth newydd i gydweithwyr.

(4) Cynnal archwiliad ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru a rhoi adborth ar y canlyniadau i'r Byrddau Iechyd.

(5) Darparu addysg, hyfforddiant a chymorth mewn cardioleg y ffetws i gydweithwyr.

(6) Hyfforddi sonograffwyr dan hyfforddiant i edrych ar ddelweddau o'r galon ac unrhyw sonograffwyr sy'n newydd i'r Bwrdd Iechyd nes eu bod yn cyrraedd lefel y cymhwysedd sydd ei angen.

(7) Mynychu clinigau cardiaidd ar gyfer meddyginiaeth y ffetws unwaith/dwywaith y flwyddyn i gynyddu eu gwybodaeth.

3.2 Cadw cofnodion

Safon M 10

Rhaid i wasanaethau mamolaeth ddefnyddio'r Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan sy'n rhoi fframwaith pwrpasol ar gyfer cofnodi profion sgrinio cyn geni sy'n hwyluso'r gwaith o gasglu'r holl wybodaeth bwysig.

Targed 100%

(1) Rhaid mynd ati ar y pryd i ysgrifennu, llofnodi a dyddio cofnod. Rhaid i'r wybodaeth gynnwys:

- Enw'r gweithiwr proffesiynol a roddodd wybodaeth i'r fenyw am y prawf sgrinio.
- Y dyddiad y cafodd y prawf sgrinio ei gynnig iddi.
- Penderfyniad y fenyw i dderbyn neu wrthod y prawf sgrinio.
- Dyddiad gwneud y prawf gwaed neu'r sgan uwchsain.
- Canlyniad y prawf.
- Dyddiad trafod y canlyniad gyda'r fenyw.
- Unrhyw ofal dilynol sydd wedi cael ei gynllunio.

4.0 Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis B a Siffilis

Datganiad polisi

Dylid cynnig i bob menyw sy'n byw yng Nghymru ac ym mhob beichiogrwydd, prawf sgrinio cyn geni am:

- HIV (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000; NICE 2021)
- Hepatitis B (WHC 1998 (36), NICE 2021)
- Siffilis (NICE 2021)

HIV (y Feirws Imiwnoddiffygiant Dynol)

Mae HIV yn retrofeirws sy'n ymosod ar lymffocytau T y corff, gan eu dinistrio. Mae hynny'n atal system imiwnedd y corff ac yn arwain yn y pen draw at y Syndrom Diffyg Imiwnedd Caffaeledig (neu AIDS). Mae'r fam yn gallu trosglwyddo'r feirws i'w ffetws neu fabi yn ystod y beichiogrwydd, yn ystod y geni neu ar ôl y geni wrth fwydo o'r fron.

Rhesymeg y prawf sgrinio cyn geni am HIV

Adnabod y menywod sydd eisoes wedi'u heintio â HIV er mwyn cynnig triniaeth a gofal a lleihau'r risg o weld y feirws yn trosglwyddo'n fergiol o tua 25% i tua 0.3% (NSHPC 2018). Mae adnabod a thrin haint HIV yn golygu manteision sylweddol o ran iechyd y fenyw hefyd. Mae gofyn i bob uned neu adran sefydlu llwybrau cyfeirio clir er mwyn i fenywod beichiog sy'n cael diagnosis o haint HIV gael eu rheoli a'u trin gan y timau arbenigol priodol (NICE 2008).

Cyfyngiadau'r Rhaglen

Ni fydd y rhaglen sgrinio'n adnabod heintiau diweddar nac achosion lle cafodd y fenyw ei heintio ar ôl i sampl y prawf sgrinio cyn geni gael ei gymryd. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywod sydd dan fwy o risg o gael haint HIV, hepatitis B, siffilis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, o safbwynt doethineb gwneud profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a gorau oll os bydd y rhain ar gael drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Y Canlyniad a Ragwelir

Drwy reoli'r beichiogrwydd, yr enedigaeth a'r cyfnod ar ôl y geni'n briodol, mae'n bosibl lleihau'n sylweddol y posibilrwydd o weld haint HIV yn trosglwyddo'n fertigol.

Hepatitis B

Clefyd heintus o'r afu yw Hepatitis B, a'r feirws hepatitis B (HBV) sy'n achosi'r clefyd. Mae'n arwain at haint acíwt a chronig sy'n cael ei lledaenu drwy gysylltiad uniongyrchol â gwaed y person sydd wedi'i heintio. Mae mam sydd wedi'i heintio'n gallu trosglwyddo'r haint i'w babi ar adeg y geni. Mae'n bosibl adnabod y feirws yn hylifau eraill y corff, fel semen a phoer. Mae'r mwyafrif o'r oedolion sy'n cael haint hepatitis B yn gwella'n llwyr ohoni ond mae ffurf fwy cronig o'r clefyd yn gallu datblygu ar rai oedolion.

Mae haint sy'n trosglwyddo o'r fam i'r babi ar adeg y geni yn un o'r prif achosion dros weld yr haint yn para'n gyffredin mewn nifer o wledydd y byd. Mae cyfran uchel iawn (tua 90%) o'r babanod newydd-anedig sy'n cael eu heintio yn y ffordd hon yn mynd ymlaen i gael yr haint ac i fod yn gludwyr cronig o'r feirws hepatitis B.

Ers mis Medi/Hydref 2017 mae pob babi yng Nghymru yn cael cynnig o imiwneiddiad Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) ar ôl cyrraedd 8, 12 ac 16 wythnos oed, fel rhan o'r drefn imiwneiddio arferol i blant. Nid yw hyn yn diddymu'r angen am y rhaglenni sgrinio presennol am hepatitis B yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru nac am roi dos o frechlyn hepatitis B (gydag imiwnoglobwlin os oes angen). Bydd y drefn yn newid wedi hynny er mwyn brechu ar ôl y dos cyntaf adeg y geni (WHC (022) 2017).

Rhesymeg y Prawf Sgrinio am Hepatitis B
Hwyluso'r gwaith o adnabod mamau sydd wedi'u heintio â hepatitis B ac sy'n feichiog gan y bydd eu babanod dan risg sylweddol o gael eu heintio â hepatitis B yn ystod y geni neu'r cyfnod ar ôl y geni. Bydd hyn yn hwyluso hefyd y gwaith o gynnig triniaeth i'r babi ar ôl y geni er mwyn rhwystro'r clefyd rhag datblygu.

Cyfyngiadau'r Rhaglen
Nod y rhaglen sgrinio yw dod o hyd i'r menywod sydd eisoes wedi'u heintio â hepatitis B, nid y rheini a gafodd eu heintio yn ystod yr wythnosau cyn i'r prawf sgrinio gael ei wneud neu'r rheini a gafodd eu heintio ar ôl y prawf sgrinio. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywed sydd o achos eu ffordd o fyw dan fwy o risg o gael haint HIV, hepatitis B, siffilis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, o safbwynt doethineb gwneud profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a gorau oll os bydd y rhain ar gael drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Y Canlyniadau a Ragwelir
Drwy adnabod y babanod sydd mewn perygl a darparu rhaglen frechu briodol, bydd lleihad sylweddol yn y cyfraddau o weld heintiau hepatitis B yn trosglwyddo o'r fam i'r babi.

Siffilis

Y bacteriwm spirochete, treponema palidwm sy'n achosi'r haint siffilis. Dim ond mewn pobl y mae'r bacteriwm hwn yn byw, ac mae'n bosibl ei drosglwyddo drwy gyswllt rhywiol (siffilis mewn oedolion) neu gall mam sydd wedi'i heintio ei drosglwyddo i'r babi drwy'r brych yn ystod beichiogrwydd (siffilis cynhenid).

Rhesymeg y Prawf Sgrinio am Siffilis
Adnabod yn gynnar yn eu beichiogrwydd y menywod sydd â haint siffilis a chynnig triniaeth briodol i leihau'n sylweddol y risg o weld y ffetws yn cael siffilis cynhenid. Mae adnabod a thrin achos o'r clefyd trosglwyddadwy hwn yn golygu manteision sylweddol posibl o ran iechyd y fenyw hefyd.

Cyfyngiadau'r Rhaglen
Ni fydd y rhaglen sgrinio'n adnabod heintiau diweddar nac achosion lle cafodd y fenyw ei heintio ar ôl i sampl y prawf sgrinio cyn geni gael ei gymryd. Bydd angen cyngor unigol penodol ar fenywod sydd dan fwy o risg o gael haint HIV, hepatitis B, siffilis neu fath arall o haint a drosglwyddir yn rhywiol, o safbwynt doethineb gwneud profion ychwanegol yn ystod y beichiogrwydd, a gorau oll os bydd y rhain ar gael drwy'r gwasanaethau iechyd rhywiol.

Os bydd canlyniad prawf sgrinio'n codi amheuon fod haint ar y fam, neu fod haint wedi bod arni, rhaid i'r canlyniad gael ei ystyried ochr yn ochr â'i hanes clinigol a chymdeithasol cyn i'r diagnosis gael ei wneud. Dylai'r asesiad gael ei wneud gan feddyg sydd â phrofiad yn y broses o wneud diagnosis mewn labordy ac o reoli'r haint

Y Canlyniadau a Ragwelir
Drwy wneud diagnosis o'r haint yn gynnar a chynnig triniaeth i'r fam os oes angen, bydd yn bosibl lleihau'n sylweddol y risg o weld y ffetws yn cael siffilis cynhenid.

4.1 Safonau a Phrotocolau Cyffredinol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am HIV, Hepatitis B a Siffilis

4.1.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon C 1

Rhaid cyfeirio'r fenyw at lenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni
(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.
(3) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. mewn print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.
(4) Dylai'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon C 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am yr heintiau yn ystod beichiogrwydd cyn cydsynio ar gyfer y prawf a rhaid gwneud cofnod o'r drafodaeth yng Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Pan fo gan y fenyw angen iaith neu gyfathrebu wwahanol, dylai'r fydwraig sicrhau bod y gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, e.e. copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, neu wasanaeth dehonglwyr cymeradwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

(2) Rhaid i ddiben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn gael eu hesbonio i'r fenyw gan y fydwraig. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

(3) Ar gyfer menywod sydd yn angen mwy o wybodaeth, cwnsela neu gymorth, mae'r gwasanaeth hwn ar gael gan Iechyd Rhywiol Integredig.

4.1.2 Cynnig prawf sgrinio

Safon C 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B a siffilis i bob menyw cyn diwedd wythnos 10^{+6} o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Dylid manteisio ar y cyfle cyntaf sydd ar gael i gynnig prawf sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B a siffilis i bob menyw sy'n dod i glinig gofal cyn geni ar ôl diwedd wythnos 10 o'r beichiogrwydd.

(2) Dylid gwneud ail gynnig o'r profion sgrinio hyn i fenywod sydd wedi gwrthod y cynnig cyntaf, a gorau oll os bydd yr ail gynnig yn cael ei wneud yn ystod yr apwyntiad yn wythnos 28.

Safon C 4

Dylai menywod sy'n cyrraedd yr ysbyty yn ystod y cyfnod esgor, heb fod wedi bod o'r blaen i glinig cyn geni, gael cynnig o brawf sgrinio am HIV, hepatitis B a siffilis ar yr adeg fwyaf priodol a chyn pen pedair awr i'r geni. Dylai'r fydwraig neu'r meddyg gysylltu â'r microbiolegydd ymgynghorol i ofyn am asesiad o'r risg ac i bwysleisio bod angen gwneud prawf a rheoli'r achos ar frys, hyd nes bydd y canlyniadau ar gael.

Targed 100%

4.1.3 Rhoi caniatâd

Safon C 5

Mae'n ofynnol cael caniatâd llafar ar sail gwybodaeth gan y fenyw cyn gwneud y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os bydd y fenyw'n gwrthod y prawf sgrinio am HIV, hepatitis B neu siffilis, dylai'r fydwraig sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir i'w defnyddio fel sail i'w phenderfyniad.

Safon C 6

Dylai menywod sy'n gwrthod y prawf sgrinio am HIV, hepatitis B neu siffilis gael ail gyfle i roi eu caniatâd i'r profion sgrinio hyn gael eu gwneud yn ystod y beichiogrwydd, a'r adeg orau i wneud hynny yw yn ystod yr apwyntiad yn wythnos 28. Rhaid cofnodi'r penderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

4.1.4 Cais am brawf

Safon C 7

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn geni' ar ffurflen y cais i'r labordy, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu ei nodi fel achos sydd dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon C 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais i'r labordy.

Targed 100%

Safon C 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd sy'n gofyn am y prawf lenwi ffurflen y cais, gan ei llofnodi wedyn.[b]

Targed 100%

(1) Rhaid i gais electronig fod yn dangos llwybr archwilio clir sy'n enwi'r sawl a wnaeth y cais.

(2) Os bydd y gweithiwr yn defnyddio un cerdyn cais i ofyn am amryw o brofion sgrinio, rhaid dangos yn glir i ba brofion sgrinio mae'r fenyw wedi rhoi ei chaniatâd, a pha brofion mae hi wedi'u gwrthod.

4.1.5 Trefn y prawf

Safon C 10

Rhaid i'r sampl gael ei gymryd cyn wythnos 12^{+6} o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno.

Targed 100%

(1) Dylai menywod sy'n mynychu apwyntiad gofal cyn geni ar ôl 13+0 wythnos o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.

(2) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid cynnal y drafodaeth a gwneud y prawf gwaed mewn man lle y gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.

(3) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw am ei henw, dyddiad geni a chyfeiraid a rhaid i'r rhain fod yn union yr un fath â''r wybodaeth sydd ar y ffurflen gais a'r sampl.

[b] Drwy lofnodi ffurflen y cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth ar lafar ac yn ddigidol (neu fformat priodol arall) am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf fynd yn ei flaen.

Safon C 11

Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i wythnos 23^{+6} o'r beichiogrwydd pan gaiff y sampl ei gymryd rhaid cysylltu â'r labrody i roi gwybod iddo am y sampl.

Targed 100%

(1) Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i wytynos 23^{+6} o'r beichiogrwydd pan fydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r sampl gael ei farcio fel un y mae angen canlyniad cyflym.

(2) Os bydd y fenyw wedi mynd y tu hwnt i wythnos 36 o'r beichiogrwydd ar yr adeg y bydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r sampl gael ei farcio fel un lle mae angen rhoi sylw iddo ar frys.

(3) Os bydd y cyfnod esgor wedi dechrau neu wedi dod i ben ar yr adeg pan fydd y sampl yn cael ei gymryd, dylai'r gweithiwr iechyd gysylltu â'r microbiolegydd/firolegydd ymgynghorol i ofyn am asesiad o'r risg ac i bwysleisio bod angen gwneud prawf a rheoli'r achos ar frys, hyd nes bydd y canlyniadau ar gael.

Safon C 12

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl gofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

4.1.6 Gwasanaethau Labordai

Safon C 13

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol yn unol â dulliau Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, a chydymffurfio â Safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B a siffilis.

Targed 100%

Safon C 14

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 95%

Safon C 15

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid iddi gyrraedd y labordy hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 100%

Safon C 16

Yn achos samplau nad ydyn nhw i gael sylw brys, rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

Safon C 17

Yn achos samplau sydd wedi'u nodi i gael sylw 'brys', rhaid i'r labordy eu prosesu a rhaid iddo gyhoeddi'r canlyniadau o fewn un diwrnod gwaith.

Targed 95%

(1) Yn achos menyw sydd wedi trefnu apwyntiad i gael gofal mamolaeth ar ôl diwedd wythnos 36^{+6} o'i beichiogrwydd, dylid nodi bod ei samplau i gael sylw brys.

Safon C 18

Rhaid i adroddiadau'r labordy gynnwys sylw clinigol er mwyn hwyluso'r broses o ddehongli'r canlyniadau.

Targed 100%

4.1.7 Trin y Canlyniadau

Safon C 19

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad terfynol ei awdurdodi gan y labordy a wnaeth y profion.

Targed 95%

Safon C 20

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad ei ryddhau gan y labordy lleol neu i'r labordy lleol.

Targed 95%

(1) Dylai'r canlyniadau gael eu hanfon i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithiwr proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd glir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon C 21

Dim ond ar ôl cadarnhau canlyniad y prawf sgrinio cyntaf drwy ddefnyddio dull gwahanol i'r prawf gwreiddiol y mae gweithiwr yn rhydd i roi gwybod am ganlyniad positif am HIV, hepatitis B a siffilis.

Targed 100%

Safon C 22

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth drefn ysgrifenedig ddiogel ddi-feth wedi cael ei chytuno a'i rhoi ar waith i adnabod a mynd ar ôl canlyniadau sydd heb gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon C 23

Rhaid bod trefn ysgrifenedig wedi cael ei chytuno a'i rhoi ar waith i adnabod a mynd ar ôl achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu fwy o wybodaeth.

Targed 100%

Safon C 24

Rhaid i fenywod gael eu hysbysu am y canlyniadau gan y gwasanaeth mamolaeth yn ystod yr ymweliad cyn geni yn ystod wythnos 16. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os nad oes unrhyw un o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr gofal lleol sy'n cael ei ddisgrifio dan Safon C 23.

(2) Os bydd y fenyw wedi camesgor rhwng casglu'r sampl a chael y cyanlyniadau, dylid rhoi'r canlyniadau i'r fenyw drwy lwybr y bwrdd iechyd lleol.

(3) Rhaid creu cofnod wedi'i lofnodi gyda'r dyddiad arno yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan i nodi bod y canlyniadau wedi cael eu trafod gyda'r fenyw.

(4) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r canlyniad hefyd.

Safon C 25

Os bydd y sampl wedi'i gymryd yn ddiweddarach yn ystod y beichiogrwydd dylid rhoi'r canlyniadau o fewn tair wythnos ar ôl i'r sampl gael ei gymryd. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwneud adolygiad o'r fenyw.

Targed 100%

(1) Rhaid i'r person sy'n trafod y canlyniadau gyda'r fenyw gofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

(2) Dylid cofnodi hefyd unrhyw gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r canlyniadau.

(3) Os na fydd unrhyw un o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr lleol fel y nodir yn Safon C 22.

4.2 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am HIV

4.2.1 Haint blaenorol

Safon C 26

Os bydd y fenyw'n dweud ei bod eisoes wedi cael diagnosis o HIV, rhaid cynnig ail brawf sgrinio iddi er mwyn cadarnhau'r diagnosis. Dylid cofnodi'r wybodaeth berthnasol ar gerdyn cais y prawf, ar ôl gofyn am ganiatâd y fenyw.

Targed 100%

Safon C 27

Rhaid mynd ati o fewn dau ddiwrnod gwaith i gynnig atgyfeiriad at wasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig i bob menyw sydd eisoes yn gwybod ei bod yn HIV positif, er mwyn hwyluso'r gwaith o greu cynllun gofal ar y cyd.

Targed 100%

4.2.2 Canlyniadau HIV Adweithiol

Safon C 28

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) am ganlyniad HIV-adweithiol i'r prawf.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy ebost i flwch ebost generic perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgirnio neu'r dirprwy.

(2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(3) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael oddi wrth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'w defnyddio fel sail i drafodaeth gyda'r fenyw.

Safon C 29

Fel ymateb i ganlyniad HIV-adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Dylid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a rhaid bod polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.

4.2.3 Canlyniadau HIV Positif

Safon C 30

Rhaid i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) gael ei hysbysu am gadarnhad o ganlyniad HIV positif i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith i'r laboordy awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy e-bost i flwch ebost generic perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgrinio neu'r dirprwy.

Safon C 31

Rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y daeth y canlyniad ar gael os yw'r fenyw heb gyrraedd 36^{+0} wythnos o'r beichiogrwydd.

Targed 95%

(1) Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl ac ar adeg pan mae'r gweithwyr gofal iechyd angenrheidiol ar gael i drefnu i'r fenyw feichiog i ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'r prawf HIV iddi.

(2) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(3) Mae HIV yn haint cymharol brin yng Nghymru; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arnyn nhw, a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o'r tîm o arbenigwyr ym maes HIV.

(4) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif i brofion am glefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi i'r fenyw mewn clinig (yn hytrach nag yn ei chartref) gan fydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yn well mewn clinig.

(5) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.

(6) Oni bai fod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd y fenyw.

(7) Dylid rhoi copi i'r fenyw o daflen wybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru.[c]

[c] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ar gael gan ASW ar ffurf copïau caled ac mewn fformat digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

Safon C 32

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.

Targed 100%

(1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dod yn ôl i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad HIV positif.

4.2.4 Cadw Cofnodion

Safon C 33

Fel ymateb i ganlyniad HIV positif, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Ni ddylid ysgrifennu cofnod o ganlyniad positif i brawf HIV yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw, heb ofyn yn gyntaf am ei chaniatâd.

(2) Pan fydd prawf HIV positif wedi cael ei gadarnhau, dylid cofnodi hynny yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth, ar ôl gofyn am ganiatâd deallus y fenyw.

(3) Pan fydd prawf HIV positif wedi cael ei gadarnhau, dylid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd fod yn gwarantu cyfrinachedd y wybodaeth.

4.2.5 Cynllun Gofal

Safon C 34

Mae gofyn trefnu apwyntiad brys o fewn 10 diwrnod gwaith gyda gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig er mwyn dechrau triniaeth addas yn brydlon.

Targed 95%

(1) Mae gofyn i wasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig gynnig prawf sgrinio am HIV i bob cyswllt rhywiol.

Safon C 35

Rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth gydweithio â gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig i greu cynllun gofal integredig priodol, a rhaid cofnodi hynny yn nodiadau'r ysbyty.

Targed 100%

(1) Dylai'r cynllun gofal gael ei greu gan gyfeirio at ganllawiau BHIVA 2018, a rhaid trafod y broses o greu'r cynllun gyda'r fenyw ac ar sail cyngor tîm amlddisgyblaethol. Fe allai'r broses gyfan olygu amryw o ymweliadau a sgyrsiau. Bydd gofyn caniatáu digon o amser i'r fenyw bwyso a mesur ei diagnosis cyn dechrau ar y broses o gynllunio'i gofal. Bydd y math o ofal sy'n ofynnol yn

dibynnu ar lwyth y feirws yng ngwaed y fenyw ac ar ffactorau eraill, a rhaid i dîm HIV arbenigol reoli ei gofal.

(2) Dylai'r gwasanaeth mamolaeth gyfeirio'r achos ar y tîm pediatrig o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y fenyw ei chanlyniad, gan y bydd gofyn i'r babi gael triniaeth ddilynol benodol a fydd fel arfer yn cynnwys triniaeth gyda chyffuriau ôl-wrthfeirysol.

(3) Bydd y fenyw angen cymorth dilynol oddi wrth fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlylnydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.

(4) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu ym mhob apwyntiad yn y clinig cyn geni.

(5) Ni ddylai staff y gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i bartner y fenyw neu i'w pherthnasau, heb ofyn yn gyntaf am ei chaniatâd. Ni ddylid rhoi'r canlyniad i'r meddyg teulu neu'r ymwelydd iechyd heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd y fenyw. Dylai'r broses o drafod y materion hyn fod yn rhan o'r cynllun gofal cynhwysfawr bydd y tîm HIV arbenigol yn ei greu.

(6) Dylid argymell bwydo â llaeth fformiwla gan ei bod yn bosibl trosglwyddo'r feirws HIV yn llaeth y fron (argymhellir darparu llaeth fformiwla am ddim i fenywod sy'n HIV positif yng Nghymru). Dylid cynnig cabergoline i atal y cyfnod llaethu (BHIVA 2018).

4.2.6 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 36

Rhaid i'r babi gael ei gyfeirio at bediatregydd cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac o fewn pedair awr o'r enedigaeth.

Targed 100%

(1) Bydd y babi angen triniaeth ddilynol benodol sydd fel arfer yn cynnwys triniaeth gyda chyffuriau ôl-wrthfeirysol y bydd pediatregydd yn ei chydlynu.

Safon C 37

Rhaid i'r fenyw gael ei chyfeirio at aelod penodedig o'r Tîm Iechyd Rhywiol Integredig ar ôl geni (BHIVA 2018).

Targed 100%

(1) Dylid adolygu pob menyw n ystod y cyfnod ôl-enedigol gan aelod o'r tîm amlddisgyblaethol o fewn 4-6 wythnos i drafod materion meddygol a chymdeithasol.

4.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn geni am Hepatitis B

4.3.1 Haint Blaenorol

Safon C 38

Os bydd y fenyw'n rhoi gwybod ei bod eisoes wedi cael diagnosis o haint hepatitis B, neu os oes haint hepatitis B arni ar y pryd, fe ddylai gael ail brawf sgrinio i gadarnhau'r diagnosis a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y cerdyn cais ar ôl gofyn am ganiatâd y fenyw.

Targed 100%

(1) Mewn achosion lle mae'r diagnosis eisoes wedi'i wneud, dylid cymryd sampl ar gyfer DNA hepatitis B, ar ôl gofyn am ganiatâd llafar, yr un pryd â'r profion sgrinio cyn geni, a dylid anfon copi o'r canlyniad at gastroenterolegydd/hepatolegydd ymgynghorol y bwrdd iechyd y cyfeiriwyd y fenyw ato.

(2) Dylid dweud wrth y fenyw y bydd angen brechiad ar y babi os yw ei haint yn parhau, ac efallai bydd angen triniaeth imiwnoglobwlin arno.

(3) Dylai'r fenyw gael adolygiad gan dîm hepatoleg/gastroenteroleg arbenigol o fewn chwe wythnos i ddyddiad cadarnhau'r diagnosis er mwyn asesu'r llwyth feirysol ac ystyried triniaeth i leihau lefel y feirws yng ngwaed y fenyw.

4.3.2 Canlyniadau Hepatitis B Adweithiol

Safon C 39

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniad Hepatitis B-adweithiol i'r prawf.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy ebost i flwch ebost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgirnio neu'r dirprwy.

(2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(3) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael oddi wrth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'w defnyddio fel sail i drafodaeth gyda'r fenyw.

Safon C 40

Fel ymateb i ganlyniad Hepatitis B-adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Dylid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a rhaid bod polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.

4.3.3 Canlyniadau Positif ar gyfer Hepatitis B

Safon C 41

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydllynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) ar ôl cadarnhau canlyniad postif ar gyfer hepatitis B.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy ebost i flwch ebost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgirnio neu'r dirprwy.

Safon C 42

Rhaid trefnu i'r fenyw ddod yn ôl i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'r prawf hepatitis B iddi.

Targed 100%

(1) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(2) Mae hepatitis B yn haint cymharol brin yng Nghymru; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arnyn nhw, a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o'r tîm o arbenigwyr ym maes hepatoleg/gastroenteroleg.

(3) Oni bai fod staff yn gwybod bod y cyfnod esgor wedi dechrau neu fod wythnos 23^{+6} o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio, nid oes brys i roi'r canlyniad hwn ar unwaith. Dylid gwneud trefniadau addas i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni i gael y canlyniad, fel arfer o fewn wythnos.

(4) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif i brofion am glefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi i'r fenyw mewn clinig (yn hytrach nag yn ei chartref) gan fydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yn well mewn clinig.

(5) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.

(6) Oni bai fod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd y fenyw. Fe ddylai hyn osgoi sefyllfa lle mae'r

meddyg teulu'n mynd ati'n ddiarwybod i drefnu profion sgrinio ar gyfer aelodau eraill o'r teulu, cyn i'r fenyw gael gwybod am ei chanlyniad.

(7) Dylid rhoi copi o daflen wybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'r fenyw.[d]

Safon C 43

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.

Targed 100%

(1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dod yn ôl i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad Hepatitis B positif.

(2) Er mwyn hwyluso'r broses o reoli menywod sydd newydd gael diagnosis o hepatitis B, argymhellir cymryd sampl ar gyfer DNA hepatitis B, ar ôl gofyn am ganiatâd y fenyw, yr un pryd â'r sampl sy'n cadarnhau'r diagnosis. Anfonir copi o'r canlyniad i gastroenterolegydd/hepatolegydd ymgynghorol y bwrdd iechyd y cyfeiriwyd y fenyw ato.

(3) Ar ôl cadarnhau'r canlyniad positif, dylai'r labordy rhoi gwybod i'r Tîm Diogelu Iechyd er mwyn cychwyn ar y broses o gynllunio'r gofal.

Safon C 44

Fel ymateb i ganlyniad heptatitis B positif, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Ni ddylid ysgrifennu cofnod yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw o ganlyniad positif i brawf hepatitis B, heb ofyn yn gyntaf am ei chaniatâd.

(2) Pan fydd prawf hepatitis B positif wedi cael ei gadarnhau, dylid cofnodi hynny yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth, ar ôl gofyn am ganiatâd deallus y fenyw.

(3) Pan fydd prawf hepatitis B positif wedi cael ei gadarnhau, dylid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd fod yn gwarantu cyfrinachedd y wybodaeth.

[d] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ar gael gan ASW ar ffurf copïau caled ac mewn fformat digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

4.3.4 Cynllun Gofal

Safon C 45

Rhaid i bob menyw sy'n cael diagnosis o haint hepatitis B positif gael adolygiad gan dîm o arbenigwyr ar hepatoleg/gastroenteroleg o fewn chwe wythnos i ddyddiad y diagnosis.

Targed 100%

(1) Dylai'r fenyw gael adolygiad gan dîm o arbenigwyr ar hepatoleg/gastroenteroleg o fewn chwe wythnos i ddyddiad y diagnosis gyda'r nod o asesu llwyth y feirws yng ngwaed y fenyw ac i ystyried triniaeth i leihau'r lefel.

(2) Dylid ysgrifennu cynllun gofal ar y cyd ac efallai bydd angen trafod y cynllun gyda'r obstetregydd, y pediatregydd, yr hepatolegydd/gastroenterolegydd a'r feirolegydd.

(3) Dylai'r gwasanaethau mamolaeth gyfeirio'r babi at y pediatregydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y fenyw'n cael y canlyniad, gan fod rhaid gwneud trefniadau i fabanod sy'n hepatitis B positif i gael triniaeth addas yn fuan iawn ar ôl y geni.

(4) Bydd y fenyw angen cymorth dilynol oddi wrth fydwraig wedi'i henwi, a dylai'r cydlynydd sgrinio cyn geni fod yn cydlynu'r holl drefniadau'r gofal mamolaeth.

(5) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu ym mhob apwyntiad yn y clinig cyn geni.

(6) Ni ddylai staff y gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniad i bartner y fenyw neu i'w pherthnasau, heb ofyn yn gyntaf am ei chaniatâd. Ni ddylid rhoi'r canlyniad i'r meddyg teulu neu'r ymwelydd iechyd heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd y fenyw. Dylai'r broses o drafod y materion hyn fod yn rhan o'r cynllun gofal cynhwysfawr bydd y tîm hepatoleg/gastroenteroleg arbenigol yn ei greu.

Safon C 46

Rhaid gwneud trefniadau yn ystod y cyfnod cyn geni i fabanod menywod sy'n hepatitis B positif i gael triniaeth addas yn fuan iawn ar ôl y geni.[1]

Targed 100%

(1) Ar adeg briodol yn ystod y cyfnod cyn geni dylid gofyn i'r fam roi ei chaniatâd i'r babi gael ei imiwneiddio yn gynnar iawn yn ystod y cyfnod ar ôl y geni.

(2) Dylid cysylltu â'r tîm diogelu iechyd er mwyn archebu imiwnoglobwlin sy'n benodol i hepatitis B ar gyfer babanod sy'n cael eu geni i'r mamau mwyaf heintus. Bydd hwn yn rhoi imiwnedd goddefol neu'n diogelu'r babi yn y tymor byr, a rhaid enwi'r fam wrth archebu er mwyn sicrhau bod yr imiwnoglobwlin ar gael rhwng wythnos 32 ac wythnos 34 o'r beichiogrwydd.

(3) Rhaid i'r tîm diogelu iechyd drefnu i aelodau eraill y cartref sy'n dod i gysylltiad â'r fenyw i gael cyngor a chyfle i gael prawf sgrinio am hepatitis B (WHC 1998 (36)).

4.3.5 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 47

Rhaid bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r babi gael y brechiad cyntaf (yn ogystal â HBIG os y farn yw bod risg y babi o gael hepatitis B yn uchel), o fewn 24 awr i'r enedigaeth.[2]

Targed 100%

(1) Bydd angen imiwneiddio babanod sy'n cael eu geni i fenywod sy'n hepatitis B positif (ar ôl gofyn i'r fam roi ei chaniatâd), yn unol â'r canllawiau Immunisation Against Infectious Disease – Hepatitis B: 'The Green Book' (2017).

(2) Dylai babanod sy'n pwyso 1500gm ar adeg y geni gael HBIG yn ogystal â'r brechlyn, waeth beth yw statws antigen y fam.

(3) Dylid llenwi ffurflen frechiad sydd heb ei drefnu, gan anfon y ffurflen at yr adran iechyd plant ar ôl i'r brechiad gael ei roi.

(4) Dylai'r fydwraig gymunedol esbonio wrth y fam pa mor bwysig yw sicrhau bod y babi'n cael y cwrs llawn o imiwneiddiadau.[3]

(5) Gellir annog y fam i fwydo'r babi o'r fron os yw'r babi wedi cael ei imiwneiddio/frechu.

4.4 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sgrinio Cyn-geni am Siffilis

4.4.1 Haint Blaenorol

Safon C 48

Os bydd y fenyw'n rhoi gwybod ei bod eisoes wedi cael diagnosis o haint siffilis, neu os oes haint siffilis arni ar y pryd, rhaid iddi gael ail brawf sgrinio i gadarnhau'r diagnosis a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais ar ôl gofyn i'r fenyw roi ei chaniatâd.

Targed 100%

4.4.2 Canlyniadau Siffilis Adweithiol

Safon C 49

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy wedi'i enwi) am ganlyniad siffilis-adweithiol i'r prawf.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy ebost i flwch ebost generic perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgirnio neu'r dirprwy.

(2) Yn dibynnu ar ganlyniad y prawf, dylid dilyn llwybr perthnasol Sgrinio Cyn Geni Cymru.

(3) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael oddi wrth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'w defnyddio fel sail i drafodaeth gyda'r fenyw.

Safon C 50

Fel ymateb i ganlyniad siffilis-adweithiol, rhaid ysgrifennu cofnod yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Dylid cofnodi'r canlyniad adweithiol mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a rhaid bod polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd yn sicrhau cyfrinachedd y wybodaeth.

4.4.3 Canlyniadau Positif ar gyfer Siffilis

Safon C 51

Dylid rhoi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) am ganlyniad positif arwyddocaol i'r prawf ar gyfer siffilis o fewn un diwrnod gwaith i'r labordy awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 100%

(1) Fel arfer bydd y labordy yn anfon y canlyniad drwy e-bost i flwch ebost generic perthnasol yn y bwrdd iechyd oni fydd angen i'r labordy drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgrinio neu'r dirprwy.

(2) Nid yw'r prawf sgrinio am siffilis yn gallu gwahaniaethu rhwng siffilis a chlefydau trosglwyddadwy eraill, er enghraifft, yaws, pinta, bejel neu haint siffilis sydd eisoes wedi cael ei drin. Oherwydd hynny, mae gofyn i ficrobiolegydd/feirolegydd ymgynghorol i ddehongli canlyniad y labordy cyn rhoi'r canlyniad i'r fenyw.

Safon C 52

Rhaid gwneud trefniadau brys (o fewn tri diwrnod gwaith) i'r fenyw ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni i gael y canlyniad.

Targed 100%

(1) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(2) Mae siffilis yn gyflwr prin yn y Deyrnas Unedig; dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno arnyn nhw, a ddylai roi'r canlyniad i'r fenyw. Dylid gofyn am gymorth aelod o dîm arbenigol y gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig.

(3) Dylai canlyniadau sensitif, gan gynnwys canlyniadau positif i brofion am glefydau trosglwyddadwy, gael eu rhoi i'r fenyw mewn clinig (yn hytrach nag yn ei chartref) gan fydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn gallu rheoli cyfrinachedd yn well mewn clinig.

(4) Er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, dylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw ei hun, a hynny heb fod unrhyw berthnasau neu ffrindiau'n bresennol.

(5) Oni bai fod y meddyg teulu wedi gofyn am y prawf a'i fod yn bwriadu rhoi'r canlyniad i'r fenyw, ni ddylai'r meddyg teulu gael gwybod am y canlyniad heb ofyn yn gyntaf am ganiatâd y fenyw.

(6) Dylai'r fenyw gael gwybod bod posibilrwydd o risg arwyddocaol i iechyd ei babi, a bod angen triniaeth.

(7) Dylid rhoi copi o daflen wybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru i'r fenyw.[e]

Safon C 53

Er mwyn cadarnhau'n bendant i bwy mae'r canlyniad yn perthyn, bydd gofyn cymryd ail sampl.

Targed 100%

(1) Dylid trefnu i'r sampl cadarnhau gael ei chymryd pan fydd y fenyw yn dod yn ôl i'r clinig cyn geni i gael ei chanlyniad siffilis positif.

[e] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ar gael gan ASW ar ffurf copïau caled ac mewn fformat digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

4.4.4 Cynllun Gofal

Safon C 54

Ar ôl cadarnhau canlyniad positif i brawf am siffilis, dylai'r fenyw gael apwyntiad brys (o fewn dau ddiwrnod gwaith) gyda gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig er mwyn ei hasesu a'i chynghori ac efallai i gynnig triniaeth iddi.

Targed 100%

(1) Dylai'r clinig meddygaeth genhedlol-wrinol (GUM)/neu arbenigwr o wasanaeth Iechyd Rhywiol fynd ati'n brydlon i gychwyn triniaeth gyda chyffuriau gwrthfiotig (os oes angen) er mwyn lleihau'r risg o weld siffilis yn trosglwyddo'n fertigol ac yn niweidio'r ffetws.

(2) Mae gofyn i'r Gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig wneud trefniadau (os oes angen) i gynnig cyngor a phrawf sgrinio am siffilis i unrhyw gysylltiadau rhywiol.

(3) Dylai'r gofal dilynol a'r camau rheoli gael eu cynllunio ar y cyd â'r obstetregydd ymgynghorol a gwasanaeth Iechyd Rhywiol Integredig. Ar ôl gofyn am ganiatâd y fenyw, dylai'r cynllun gofal gael ei ysgrifennu yn ei Chofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(4) Ar ôl wythnos 26^{+0} o'r beichiogrwydd, argymhellir bod y fam yn cael ei chyfeirio at adran meddyginiaeth y ffetws er mwyn asesu a oes unrhyw effaith ar y babi, gan gynnwys hydrops an-imiwn neu hepatosplenomegali (BASHH 2008).

Safon C 55

Fel ymateb i ganlyniad positif ar gyfer siffilis, rhaid ysgrifennu cofnod yn y nodiadau mamolaeth o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Ni ddylid ysgrifennu cofnod yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw o ganlyniad positif i brawf siffilis, heb ofyn yn gyntaf am ei chaniatâd.

(2) Ar ôl cadarnhau prawf positif am siffilis, dylid cofnodi hynny yn system wybodaeth y gwasanaeth mamolaeth, ar ôl gofyn am ganiatâd deallus y fenyw.

(3) Ar ôl cadarnhau prawf positif am siffilis, dylid cofnodi hynny mewn ffordd briodol yn nodiadau mamolaeth yr ysbyty a dylai polisïau'r bwrdd iechyd ar gyfrinachedd fod yn gwarantu cyfrinachedd y wybodaeth.

Safon C 56

Ar ôl cadarnhau prawf positif am siffilis, dylai'r pediatregydd gael gwybod amdano o fewn 10 diwrnod i'r dyddiad y bydd y fenyw'n cael y canlyniad. Pwrpas gwneud hyn yw er mwyn hwyluso'r broses o greu cynllun gofal ar gyfer y babi newydd-anedig ar y cyd â'r fenyw a'r gwasanaethau mamolaeth, ac er mwyn cofnodi'r manylion yn y nodiadau mamolaeth.

Targed 100%

(1) Dylid defnyddio cynllun geni (BASHH 2018) i hwyluso trafodaeth gyda'r obstetrydd a'r pediatrydd ar gyfer rheoli'r babi.

4.4.5 Gofal Ôl-enedigol

Safon C 57

Rhaid bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r paediatregydd wneud adolygiad o'r babi cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac yn bendant o fewn pedair awr i'r enedigaeth.

Targed 100%

(1) Dylid cymryd sampl yn fuan ar ôl y geni a chyn dechrau ar driniaeth y babi o waed (wedi ceulo) y fam a'r babi er mwyn gwneud profion am siffilis. Dylid mynd ati cyn y geni i drafod yr union ofynion gyda'r firolegydd.

Safon C 58

Rhaid bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r babi newydd-anedig gael gofal dilynol gan y tîm pediatrig, gan gynnwys triniaeth addas a phrofion seroleg.

Targed 100%

5.0 Sgrinio Cyn Geni am Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff

Datganiad polisi
Dylid cynnig i bob menyw sy'n byw yng Nghymru ac ym mhob beichiogrwydd, prawf sgrinio cyn geni am grŵp gwaed a gwrthgyrff (NICE 2021).

Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff Celloedd Coch
Mae pedwar prif fath o grŵp gwaed: grŵp O, grŵp A, grŵp B a grŵp AB. Mae ffactor arall i'r gwaed sy'n cael ei grwpio dan yr enw grŵp Rhesws (Rh) D ac mae gan bobl grŵp gwaed a grŵp Rhesws, er enghraifft, grŵp O Rhesws D positif. Protein yw'r ffactor Rh sydd i'w gael yng nghelloedd coch gwaed tua 85% o bobl. Mae presenoldeb y protein yn dynodi bod unigolyn yn RhD positif. Os nad yw'r protein yn bresennol, mae'r unigolyn yn RhD negatif.

Mewn sefyllfa lle mae'r fam yn RhD negatif a'r babi'n RhD positif, mae posibilrwydd y gall gwrthgyrff o waed y fam drosglwyddo i waed y ffetws. Mae'n gallu achosi cyflwr prin o'r enw clefyd haemolytig y babi newydd-anedig (*haemolytic disease of the newborn* neu HDFN). Mae hyn yn fwyaf cyffredin pan fydd y fenyw yn RhD negatif a'r babi yn RhD positif, ond mae presenoldeb nifer o fathau eraill o brotein (fel Kell, c, Duffy a Kidd) yng nghelloedd coch y gwaed yn gallu achosi i waed y fam greu gwrthgyrff Ig, sy'n arwain at HDFN.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio
Fel rhan integredig o'i gofal cyn geni, dylai pob menyw feichiog gael cyfle i gael prawf sgrinio am grŵp gwaed a gwrthgyrff yn gynnar yn ei beichiogrwydd, waeth beth oedd canlyniad unrhyw brawf sgrinio blaenorol. Os oes unrhyw wrthgyrff yn dod i'r amlwg, yn enwedig gwrth-D, gwrth-Kell neu wrth-c, bydd yn bosibl monitro'r gwrthgyrff a chynghori'r fenyw o ran rheoli ei beichiogrwydd. Os oes risg i'r beichiogrwydd fod RhD y gwaed yn anghydnaws, er enghraifft, fod gwaed y fenyw'n RhD-negatif, ac y gallai hynny achosi HDN y ffetws neu'r babi newydd-anedig, bydd yn bosibl cynnig proffylacsis gwrth-D.

Y Canlyniadau a Ragwelir
Lleihau nifer yr achosion o HDN y babi newydd-anedig a lleihau nifer y problemau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd.

5.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon BG 1

Rhaid cyfeirio'r fenyw at lenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni

(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.

(3) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. mewn print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.

(4) Dylai'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon BG 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am grŵp gwaed a gwrthgyrff yn ystod beichiogrwydd cyn cydsynio ar gyfer y prawf a rhaid gwneud cofnod o'r drafodaeth yng Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Pan fo gan y fenyw angen iaith neu gyfathrebu gwahanol, dylai'r fydwraig sicrhau bod y gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, e.e. copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, neu wasanaeth dehonglwyr cymeradwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

(2) Rhaid i ddiben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y profion sgrinio hyn gael eu hesbonio i'r fenyw gan y fydwraig. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

5.2 Cynnig Prawf Sgrinio

Safon BG 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am grŵp gwaed a gwrthgyrff i bob menyw cyn diwedd wythnos 10^{+6} o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Dylid manteisio ar y cyfle cyntaf sydd ar gael i gynnig y prawf sgrinio i bob menyw sy'n dod i glinig gofal cyn geni ar ôl diwedd wythnos 11^{+0} o'r beichiogrwydd.

(2) Dylai unrhyw fenyw sydd eisoes wedi cael babi'r oedd HDFN wedi effeithio arno gael cynnig i gael ei chyfeirio erbyn wythnos 19^{+6} o'r beichiogrwydd at uned arbenigol i gael cyngor ac asesiad am haemolysis y ffetws, beth bynnag ydy lefel y gwrthgyrff yn y gwaed (BSH 2016).

5.3 Rhoi caniatâd

Safon BG 4

Mae caniatâd llafar deallus y fenyw'n ofynnol cyn gwneud y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os bydd menyw'n gwrthod prawf sgrinio am grŵp gwaed a gwrthgyrff, dylai'r fydwraig sicrhau bod y fenyw'n cael y wybodaeth gywir y gall hi seilio'i phenderfyniad arni.

5.4 Y cais am brawf

Safon BG 5

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn geni' ar ffurflen y cais i'r labordy a nodi a yw'n gais ar adeg bwcio neu'n sampl wythnos 28. Rhaid ysgrifennu hefyd enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon BG 6

Rhaid i'r cerdyn gais gael ei llenwi gan y gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf, a rhaid i'r gweithiwr lofnodi'r cais.[f]

Targed 100%

(1) Rhaid i gais electronig gofnodi llwybr archwilio clir sy'n nodi enw'r sawl sy'n gwneud y cais.

Safon BG 7

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gorfodol ar y ffurflen gais i'r labordy.

Targed 100%

(1) Os oes proffylacsis gwrth-D wedi cael ei roi i'r fenyw, yn unrhyw un o gamau'r beichiogrwydd, rhaid cynnwys y wybodaeth hynny ar y ffurflen gais i'r labordy, gan y gallai'r proffylacsis effeithio ar y broses o ddadansoddi'r canlyniad. Bydd angen dweud wrth y labordy beth oedd dyddiad y proffylacsis a beth oedd y dos o wrth-D.

[f] Drwy lofnodi ffurflen y cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth ar lafar ac yn ddigidol (neu fformat priodol arall) am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf fynd yn ei flaen.

5.5 Trefn y Prawf

Safon BG 8

Dylai'r sampl gael ei gymryd cyn wythnos 12^{+6} o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno.

Targed 100%

(1) Rhaid i fenywod sy'n mynychu apwyntiad gofal cyn geni ar ôl wythnos 13^{+0} o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.

(2) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid i'r drafodaeth a'r prawf gwaed gael eu gwneud yn y fath le fel bod modd gwarantu preifatrwydd y fenyw.

(3) Rhaid i'r sawl sy'n cymryd sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad ac mae'n rhaid i'r rhain fod yn union yr un fath â'r wybodaeth ar y ffurflen gais a'r sampl.

Safon BG 9

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl gofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

5.6 Gwasanaethau labordai

Safon BG 10

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol yn unol â dulliau Gwasanaeth Achredu'r DU a rhaid iddo fod yn gweithio i gyrraedd safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni am grŵp gwaed a gwrthgyrff.

Targed 100%

Safon BG 11

I wneud prawf sgrinio am wrthgyrff dylid defnyddio prawf gwrthglobwlin anuniongyrchol a phanel celloedd coch sy'n cydymffurfio â chanllawiau presennol y Deyrnas Unedig (NICE 2008).

Targed 100%

(1) Dylai'r labordy lleol allu cynnig cyngor ar y gofynion o ran cymryd sampl gan fydd gofynion y gwahanol labordai'n amrywio. Dylid gwneud profion ar y sampl ar gyfer grŵp gwaed ac alo-wrthgyrff celloedd coch nad ydyn nhw'n nodweddiadol.

Safon BG 12

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 95%

Safon BG 13

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid iddi gyrraedd y labordy hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 100%

Safon BG 14

Yn achos samplau nad ydyn nhw i gael sylw brys, rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

(1) Lle mae gwrthgyrch arwyddocaol yn cael eu canfod mae'n rhaid i'r labordy ebostio'r canlyniad at flwch ebost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

5.7 Trin y canlyniadau

Safon BG 15

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r labrody lleol o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y mae'r labrody a wnaeth profion yn awdurdodi'r adroddiad terfynol.

Targed 95%

Safon BG 16

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad ei ryddhau gan, neu i'r, labordy lleol.

Targed 95%

(1) Dylai'r canlyniadau gael eu hanfon i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithiwr proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd glir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon BG 17

Rhaid bod proses ysgrifenedig ddiogel ddi-feth wedi cael ei chytuno a'i rhoi ar waith i adnabod a mynd ar ôl canlyniadau sydd heb gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon BG 18

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth drefn ysgrifenedig wedi cael ei chytuno i adnabod a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu fwy o wybodaeth.

Targed 100%

Safon BG 19

Dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi gwybod am y canlyniadau i'r fenyw yn ystod yr ymweliad cyn geni yn wythnos 16 a rhaid cofnodi'r canlyniadau yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr lleol fel y nodir yn Safon BG 17.

(2) Awgrymir prawf sgrinio arall ar gyfer gwrthgyrch celloedd coch annodweddiadol yn wythnos 28 o'r beichiogrwydd.

(3) Os yw'r fenyw yn RhD positif dylid rhoi gwybod iddi na fydd angen proffylacsis gwrth-D arni.

(4) Rhaid creu cofnod wedi'i lofnodi sy'n nodi'r dyddiad y cafodd y canlyniadau eu trafod gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(5) Dylid cofnodi unrhyw gamau'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

Safon BG 20

Os bydd y sampl yn cael ei gymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd dylid darparu'r canlyniadau o fewn tair. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwneud adolygiad o'r fenyw.

Targed 100%

(1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr lleol fel y nodir yn Safon BG 17.

(2) Awgrymir prawf sgrinio arall ar gyfer gwrthgyrch celloedd coch annodweddiadol yn wythnos 28 o'r beichiogrwydd.

(3) Os yw'r fenyw yn RhD positif dylid rhoi gwybod iddi na fydd angen proffylacsis gwrth-D arni.

(4) Rhaid creu cofnod wedi'i lofnodi sy'n nodi'r dyddiad y cafodd y canlyniadau eu trafod gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(5) Dylid cofnodi hefyd unrhyw gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r canlyniadau.

5.8 Canlyniadau Negatif ar gyfer Rhesws D a Gwrthgyrff

Safon BG 21

Dylid hysbysu'r fenyw am oblygiadau canlyniad Rheswm D negatif

Targed 100%

(1) Dylai pob menyw sy'n RhD negatif gael gwybodaeth lafar a digidol am broffylacsis gwrth-D cyn geni ac ôl-enedigol a chael cyfle i drafod y drinaeth hon gyda bydwraig yn cynnar yn y cyfnod cyn geni.

(2) Darperir Darperir gwybodaeth i fenywod am fod yn RhD negatif yn llenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW ac mewn fformatau eraill os oes angen. Mae'n cynnwys gwybodaeth am hysbysu gweithiwr iechyd proffesiynol os bydd digwyddiad sensiteiddio posibl yn codi.

(3) Dylid cynnig proffylacis gwrth-D cyn geni (RAADP) i bob menyw feichiog nad ydynt wedi'u sensiteiddio sy'n RhD negyddol.

(4) Rhaid casglu'r sampl grŵp gwaed a gwrthgyrff 28 wythnos cyn gweinyddu'r proffylacsis gwrth-D.

(5) Dylid ystyried RAADP yn endid ar wahân a'i weinyddu er gwaethaf, ac yn ychwanegol at, unrhyw imiwnoglobwlin gwrth-D a allai fod wedi'i roi am ddigwyddiad sensiteiddio posibl (BCSH 2014).

Safon BG 22

Rhaid bod pob bwrdd iechyd wedi rhoi protocol ar waith ar gyfer gofal proffylacsis gwrth-D ar ôl y geni ac i reoli'r achosion o fenywod sy'n Rhesws D-negatif.

Targed 100%.

(1) Dylai pob gwasanaeth mamolaeth fod wedi rhoi trefn ar waith ar gyfer cynnig a rhoi proffylacsis gwrth-D yn y cyfnod cyn geni.

(2) Dylai'r bwrdd iechyd fod wedi rhoi proses ar waith er mwyn sicrhau nad yw menyw sydd wedi'i sensiteiddio i wrth-D yn cael proffylactig gwrth-D yn anfwriadol.

Safon BG 23

Dylai byrddau iechyd fod wedi rhoi protocol priodol ar waith ar gyfer cynnig triniaethau cyn geni penodol i fenyw ar ôl digwyddiad a allai fod wedi'i sensiteiddio.[4]

Targed 100%

(1) Dylid cynnig proffylacsis gwrth-D i'r fenyw (250iu os nad yw wedi cyrraedd wythnos 20^{+0} o'r beichiogrwydd, a 500iu os yw wedi mynd heibio i wythnos 20^{+0}). Os bydd y fenyw'n derbyn y cynnig, dylid ei roi cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad sensiteiddio ac yn bendant o fewn 72 awr i'r digwyddiad.

(2) Dylid cynnig prawf sgrinio Kleihauer i fenyw feichiog ar ôl digwyddiad a allai fod wedi'i sensiteiddio ar ôl wythnos 20^{+0} o'r beichiogrwydd neu ar ôl y geni. Pan ddaw canlyniad y prawf Kleihauer i law, efallai bydd angen dosys ychwanegol o broffylacsis gwrth-D ond dylid gweithredu ar sail cyngor y labordy. Nid yw rhoi proffylacsis gwrth-D arferol yn effeithio ar y drefn hon.

(3) 72 awr ar ôl y cyfan o'r dosys o imiwnoglobwlin (Ig) gwrth-D (48 awr os cafodd yr Ig gwrth-D ei chwistrellu i mewn i wythïen) dylid cymryd sampl arall o waed y fam ar gyfer ail brawf sgrinio os bydd gwaedlif y fam a'r ffetws yn 4ml neu'n uwch na hynny. Pwrpas yr ail brawf yw gwirio bod celloedd y ffetws wedi clirio'n llwyr (BCSH 2014).

5.9 Canlyniadau Positif ar gyfer Gwrthgyrff

Safon BG 24

Os bydd y labordy'n canfod gwrthgyrff, dylai eu henwi a'u meintoli lle bynnag y mae hynny'n briodol er mwyn asesu pa mor debygol yw HDFN.

Targed 100%

(1) Mae nifer fawr o wrthgyrff yn gallu achosi HDFN. Os bydd y labordy'n canfod gwrthgyrff arwyddocaol dylai roi gwybod i'r obstetregydd ymgynghorol ac i'r cydlynydd sgrinio cyn geni neu ei ddirprwy.

(2) Cyn cyfeirio'r fam at adran meddygaeth y ffetws, dylai labordy cyfeirio wneud profion eraill er mwyn cadarnhau'r sefyllfa.

(3) Pan fydd achos newydd o wrthgyrff gwrth-D yn dod i'r amlwg, dylai labordy trallwysiadau gwaed yr ysbyty sy'n cyfeirio'r achos roi gwybod am yr achos i SHOT (Peryglon Difrifol Trallwyso Gwaed) (SHOT 2017).

Safon BG 25

Dylid trefnu i'r fenyw ddod yn ôl i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi'r canlyniad positif i'r prawf gwrthgyrff iddi.

Targed 100%

(1) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(2) Bydd y gwaith o reoli'r beichiogrwydd yn dibynnu ar yr arwyddocâd clinigol a thitr y gwrthgyrff a ddaeth i'r amlwg.

(3) Lle y gwneir cais gan labordy, dylid cynnig prawf i dad biolegol y babi a dylid trefnu hyn yn ystod yr ymweliad hwn.

Safon BG 26

Dylai menywod beichiog sydd ag alo-wrthgyrff annodweddiadol yn eu celloedd coch sy'n arwyddocaol yn glinigol gael cyfle i gael eu cyfeirio at adran feddygaeth y ffetws.

Targed 100%

(1) Dylai'r drefn hon gynnwys:
- pob menyw a gafodd feichiogrwydd lle'r oedd HDN wedi effeithio ar y plentyn
- pob achos o wrth-K (beth bynnag yw lefel y titr, a lle mae sampl y tad wedi'i gadarnhau'n K+ ar gyfer y beichiogrwydd hwn)
- pob achos o wrthgyrff sy'n arwyddocaol yn glinigol a lle mae'r titr yn 32 neu'n uwch 9gan gynnwys gwrth-E, -e, Fya, Fyb, Jka, Jkb, S, s, M)
- pob achos o wrth-D lle mae'r meintoli'n fwy na 4iu/ml
- pob achos o wrth-c lle mae'r meintoli'n fwy na 7.5iu/ml.

5.10 Cynllun Gofal

Safon BG 27

Fel ymateb i statws RhD-negatif a statws gwrthgyrff y fenyw, rhaid ysgrifennu cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Os caiff menywod eu nodi'n Rh D negatif, dylai hyn gynnwys camau gweithredu arfaethedig emwn perthynas â proffylacsis gwth-D.

(2) Dylid cadw llygad manwl ar fenywyd sydd â gwrthgyrff sy'n glinigol arwyddocaol (h.y.y gwrthgyrff a drafodir ym BG26, protocol 1) am dystiolaeth o HDFN. Dylid cynnal prawf gwrthglobwlin uniongyrchol (DAT) ar sampl gwaed o'r llinyn bogail, a dylid esur crynodiadau haemoglobin a biliruwbin (BSH 2016).

5.11 Gofal Ôl-enedigol

Safon BG 28

Rhwng hanner awr a dwy awr ar ôl geni babi, mae gofyn cymryd sampl o waed pob menyw feichiog sy'n RhD negatif. (Mae'r un peth yn ofynnol yn achos menywod lle nad oes cofnod o grŵp Rhesws eu gwaed.) Mae gofyn cymryd sampl o'r gwaed o'r llinyn bogail hefyd.

Targed 100%

(1) Mae angen sampl gwaed o'r llinyn bogai er mwyn profi grŵp gwaed y ffetws. Mae ngen sampl o waed y fam er mwyn asesu gwaedlif ffetysol-famol ymysg menywod RhD negatif sydd wedi rhoi genedigaeth i fabi RhD positif er mwyn asesu a oes angen proffylacsis gwrth-D ychwanegol ar y fam.

(2) Os gwnaed cais am brawf gwrthglobwlin uniongyrchol (DAT) oherwydd gwrthgyrff yng gnwaed y cam, dylid anfo sampl gwaed o'r llinyn bogail, ar gyfer crynodiadau haemoglobin a sampl gwythiennol ar gyfer crynodiadau bilirubin i'r labordy (BSH 2016).

Safon BG 29

Os yw'r babi'n RhD positif, dylai'r gwasanaeth mamolaeth gynnig proffylacsis gwrth-D ar ôl y geni i fenywod sy'n RhD-negatif ac sydd heb eu sensiteiddio. Os bydd y fam yn derbyn y cynnig, dylai gael y proffylacsis o fewn 72 awr i'r geni (BCSH 2014) a dylid cofnodi hynny yn y cofnod mae'r bwrdd iechyd yn ei gymeradwyo.

Targed 100%

(1) Efallai bydd angen dosys ychwanegol o broffylacsis gwrth-D, ond rhaid gweithredu ar sail cyngor y labordy ar ôl gwneud prawf sgrinio Kleihauer.

6.0 Sgrinio Cyn Geni am Anhwylder y Grymangelloedd a Thalasaemia

Datganiad polisi

Dylid cynnig prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia i bob menyw feichiog sydd â risg uwch o gael babi y mae anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn effeithio arno (WHC 2003b (127); NICE 2021).

Anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia

Mae anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia'n ddau fath o anhwylder etifeddol ar yr haemoglobin yn y gwaed. Dim ond rhai o'r anhwylderau sy'n arwyddocaol yn glinigol. Mae'r siawns o fod yn gludydd yn uwch ymhlith y rhai y mae eu cyndeidiau wedi dod yn bennaf, ond nid yn unig, o Affrica, y Caribî, y Dwyrain Canol, gwledydd Môr y Canoldir, De Asia a De-ddwyrain Asia. Bydd y bobl â'r mathau mwyaf difrifol o'r anhwylderau'n dibynnu ar ofal yr ysbyty am weddill eu hoes.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Adnabod y menywod hynny sydd â siawns uwch o gael babi y mae anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol (yn ôl y diffiniad yn holiadur Sgrinio Cyn Geni Cymru ar darddiad y teulu) yn effeithio arno. Ar ôl adnabod y menywod bydd yn bosibl gwneud prawf sgrinio mewn labordy a chynnig profion mewnwthiol iddyn nhw os oes angen. Bydd y rhain yn rhoi cyfle i'r fenyw i ddewis o ran atgenhedlu.

Efallai fod manteision eraill o ran iechyd y fenyw feichiog os daw'n amlwg bod anhwylder y crymangelloedd arni.

Y Canlyniad a Ragwelir

Bydd menywod sydd â siawns uwch o gael plentyn y mae anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn effeithio arno'n gallu gwneud dewisiadau o ran atgenhedlu.

6.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon SCT 1

Rhaid cyfeirio'r fenyw at lenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni.

(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.

(3) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. mewn print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.

(4) Dylai'r fydwraig gofnodi'r fformat y rhoddir gwybodaeth i'r fenyw.

Safon SCT 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd cyn cydsynio ar gyfer y prawf a rhaid gwneud cofnod o'r drafodaeth yng Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Pan fo gan y fenyw angen iaith neu gyfathrebu wwahanol, dylai'r fydwraig sicrhau bod y gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, e.e. copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, neu wasanaeth dehongli cymeradwy.

(2) Dylai'r fydwraig esbonio wrth y fenyw hefyd beth yw'r manteision posibl i'w hiechyd ar ôl cael gwybod bod anhwylder y crymangelloedd arni a chychwyn proses o reoli'r anhwylder yn briodol.

(3) Dylid esbonio hefyd y manteision iechyd i'r fenyw os canfyddir bod ganddi anhwylder y crymangelloedd, a bod yr anhwylder yn cael ei reoli'n briodol.

6.2 Y cwestiwn sgrinio

Safon SCT 3

Rhaid gofyn cwestiwn Sgrinio Cyn Geni Cymru am darddiad ei theulu (Sgrinio Cyn Geni Cymru FOQ) o safbwynt anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia i'r fenyw ym mhob beichiogrwydd a chyn bod 10^{+6} wythnos lawn o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio (os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn hynny). Rhaid cofnodi'r ymatebion i FOQ Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y sawl sy'n gofyn y cwestiwn.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig ofyn y cwestiwn sgrinio er mwyn asesu a oes angen cynnig rhagor o brofion mewn labordy (HPLC) am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia.

(2) Dylid cynnig rhagor o brofion mewn labrody (HPLC) i'r fenyw am anwylder y crymangelloedd a thalassaemia os bydd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol (FOQ Sgrinio Cyn Geni Cmru):
- os oes gan y fenyw neu dad biolegol y babi hanes teuluol o anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia
- os bydd teulu'r fenyw neu'r tad biolegol yn hanu o unrhyw le y tu allan ir DU neu iwerddon, waeth sawl cenhedlaeth yn ôl
- os nad yw cefndir teuluol y fenyw neu'r tad biolegol yn hysbys, e.e. os ydynt wedi'u mabwysiadu

(3) Os bydd canlyniad y fenyw yn rhoi ateb negyddol i'r holl gwetsynau uchod gall y fydwraig ddweud wrthi mai siawns isel sydd ganddi o gael babi ag anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol.

(4) Dylid hysbysu'r fenyw os yw'r prawf sgrinio yn dangos ei bod yn cario genyn crymangelloedd neu thalasaemia neu bod ganddi anhwylder haemoglobin, y bydd angen sgsrinio'r tad biolegol ar mwyn sicrhau'r asesiad risg mwyaf manwl gywir.

Safon SCT 4

Os bydd y fenyw yn rhoi ateb negyddol i'r holl gwestiynau yn FOQ Sgrinio Cyn Geni Cymru mae'n rhaid cynnig FBC a phrofion eraill iddi ar gyfer thalasaemia os yw'r prawf cyfrif gwaed llawn yn awgrymu bod thalasaemia o bosibl ar fenyw (h.y. haemoglobin cell gymedrig (MCH) sy'n is na 27pg), rhaid cynnig prawf sgrinio am thalasaemia iddi. Rhaid cofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

6.2.1 Menywod sydd Eisoes Wedi Cael Diagnosis o Anhwylder yr Haemoglobin, neu sy'n Gludydd

Safon SCT 5

Os yw'r fenyw'n sôn ei bod hi eisoes wedi cael diagnosis o anhwylder ar yr haemoglobin, neu os yw'r fenyw'n gludydd, rhaid cynnig ail brawf sgrinio iddi a rhaid cynnwys y wybodaeth berthnasol ar y cais. [g]

Targed 100%

(1) Os yw'r fenyw'n gwybod ei bod yn gludydd genyn anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia neu fod anhwylder ar ei haemoglobin, dylid ei chynghori bod gofyn i'r tad biolegol gael prawf sgrinio er mwyn gwneud yr asesiad mwyaf cywir o'r risg i'r beichiogrwydd.

(2) Os yw'r tad biolegol eisoes wedi cael prawf sgrinio, fe ddylai gael cyfle i gael ail brawf sgrinio a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol am ganlyniad y prawf blaenorol ar y cais**Error! Bookmark not defined.**.

(3) Os yw'r fenyw a thad biolegol y babi ill dau'n gludyddwyr genyn anhwylder y crymangelloedd, thalasaemia neu anhwylder ar yr haemoglobin, mae risg y gallai'r babi etifeddu anhwylder arwyddocaol a dylai'r fydwraig gynnig profion mewnwthiol.

(4) Os yw'r fenyw'n derbyn y cynnig o brofion mewnwthiol, dylid cynnig apwyntiad brys iddi gyda Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru er mwyn trefnu apwyntiad brys gydag uned meddygaeth y ffetws.

(5) Os nad yw'r tad biolegol wedi cael prawf sgrinio ac mae'n rhoi ei ganiatâd, rhaid trefnu i'r gwasanaethau mamolaeth gymryd sampl o waed y tad biolegol, yn ddelrydol yr un pryd ag y bydd y fenyw yn cael ei sgrinio, neu o fewn tri diwrnod gwaith o'r fenyw'n cael ei sgrinio.

Safon SCT 6

Os yw'n glir bod anhwylderau'r haemoglobin ar y fenyw, rhaid ei chyfeirio i gael gofal haematoleg/obstetrig ar y cyd o fewn chwe wythnos i'r dyddiad mae'r canlyniad yn cael ei gadarnhau.

Targed 100%

[g] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

6.3 Rhoi caniatâd

Safon SCT 7

Mae caniatâd llafar deallus y fenyw'n ofynnol cyn gwneud y profion hyn, a rhaid cofnodi ei henderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os bydd gan y fenyw hanes teuluol o anhwylder y crymangelloedd, thalasaemia, neu unrhyw haemoglobinopathi neu hydrops fetalis, dylid cofnodi hyn ar adran manylion clinigol y cais[g].

(2) Os bydd y fenyw'n gwrthod ateb cwestiwn Sgrinio Cyn Geni Cymru am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia, dylid cofnodi 'wedi gwrthod ateb y cwestiwn sgrinio' yn ei Chofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(3) Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia, dylai'r fydwraig wneud yn siŵr ei bod wedi seilio'i phenderfyniad ar y wybodaeth gywir mae wedi'i chael.

(4) Os bydd y fenyw wedi rhoi ateb negyddol i bob cwestiwn yn FOQ Sgrinio Cyn Geni Cymru mae'n rhaid gofyn iddi a yw'n cydsynio i gael FBC (sy'n cynnwys amcangyfrif o'r haemogobin cymedrig mewn cell (MCH)) a phrofion pellach am thalasaemia. Bydd hyn yn cael ei wneud os yw'r cyfrif gwaed llawn yn dangos bod thalasaemia ar y fenyw o bosibl (h.y. MCH sy'n is na 27pg).

(5) Os yw'r fenyw yn fam faeth neu os yw'r beichiogrwydd wedi deillio o wy gan roddwr, dylid cynnig prawf sgrinio i'r fenyw er mwyn sicrhau ei bod yn cael y gofal mamolaeth gorau.

(6) Os yw'r fenyw wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn mae'n debygol y bydd y canlyniadau'n yn adlewyrchu'r rhoddwr mêr esgyrn ac na fyddant yn cynrychioli'n gywir statws genetig y babi. Yn yr achosion hyn dylid profi tad biolegol y babi i sicrhau nad yw hwn yn feichiogrwydd risg uchel.

6.4 Cais am Brawf

Safon SCT 8

Rhaid ysgrifennu 'Sgrinio Cyn geni' ar ffurflen y cais i'r labordy, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu nodi ei fod dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

(1) Yn achos mam fath, dylai'r fam faeth gael ei phrofi (er mwyn sicrhau'r gofal mamolaeth gorau). Dylid cofnodi ei manylion demograffig a'r ffaith bod hwn yn feichiogrwydd drwy fam faeth ar y cais.[h] Rhai cysylltu â'r clinig ffrwythlondeb perthnasol er mwyn cael canlyniadau haemoglobinopathi y ddau riant biolegol a rhaid cofnodi'r wybodaeth hon hefyd ar y cais.[h]

(2) Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o wy gan roddwr, dylid sgrinio'r fenyw er mwyn darparu'r gofal mamolaeth gorau. Dylid cofnodi ei manyliion demograffig, a'r

[h] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

ffaith bod hwn yn wy gan roddwr, ar y cerdyn cais. Dylid profi tad biolegol y babi ac os caiff ganlyniad positif, dylid cysylltu â'r clinig ffrwythlondeb i gael canlyniadau haemmoglobinopathi y fam fiolegol.

(3) Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o sberm gan roddwr, dylid profi'r fam a'i manylion demograffig hi dylid eu cofnodi ar y cerdyn cais. Os caiff ganlyniad positif ar gyfer y prawf sgrinio dylid cysylltu â'r clinig ffrwythlondeb i gael canlyniadau haemoglobinopathi y tad biolegol.

(4) Os bydd mam y babi wedi cael trawsblaniad mêr esgsyrn, dylid profi tad biolegol y babi. Dylid cofnodi ei fanylion demograffig ar y cais[i] a dylai'r cais gynnwys manylio y fam a'r ffaith ei bod wedi cael trawsblaniad mêr esgyrn. Os bydd sampl y tad yn bositif, dylid gofyn am gyngor arbenigol gan Wasnaeth Genomeg Feddygol Cymru.

Safon SCT 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd sy'n gofyn am y prawf lenwi cerdyn y cais, gan ei lofnodi wedyn.[j]

Targed 100%

(1) Rhaid i gais electronig alluogi llwybr archwilio clir i nodi'r sawl sy'n gwneud y cais.

Safon SCT 10

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd gofynnol ar gais y labordy, gan gynnwys 'sticer' cerdyn cais Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer anhwylder y crymangeolloedd a thalasaemia pan fydd ceisiadau ar ffurf copi caled.

Targed 100%

(1) Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'ng wneud cais am y prawf ofn am un prawf yn unig:
- prawf cyfrif gwaed llawn yn unig (gan wrthod y prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia) **neu**
- fod prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia'n ofynnol ar sail yr atebion i gwestiwn Sgrinio Cyn Geni Cymru **neu**
- brawf cyfrif gwaed llawn a phrawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia os oes angen y rhain ar ôl canlyniad isel i MCH.

(2) Er mwyn i'r labordy ddehongli'r canlyniad, dylid cynnwys y wlad y mae'r fenyw a'r tad biolegol yn hanu ohoni yn y cais.[i]

[i] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

[j] Drwy lofnodi cerdyn y cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf fynd yn ei flaen.

6.5 Trefn y Prawf

Safon SCT 11

Rhaid i'r sampl gael ei gymryd cyn wythnos 12^{+6} o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno.

Targed 95%

(1) Os bydd y broses sgrinio (gan gynnwys sgrinio tad biolegol y babi os oes angen) yn cael ei gwneud mewn da bryd, yn unol â safonau SCT10, SCT25 ac SCT29, efallai byddai'n well gan fenyw sy'n awyddus i gael profion mewnwthiol i gael prawf CVS (samplu filysau corionig) yn lle amniosentesis.[5]

(2) Dylai menywod sy'n mynychu apwyntiad gofal cyn geni ar ôl wythnos 13^{+0} o'r beichiogrwydd gael y prawf sgrinio hwn ar y cyfle cyntaf.

Safon SCT 12

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl gofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

(1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid i'r drafodaeth a'r prawf gwaed gael eu gwneud yn y fath le fel bod modd gwarantu preifatrwydd y fenyw.

(2) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw i ddweud ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad a rhaid i'r rhain fod yr un fath yn union â'r wybodaeth ar y cais a'r sampl.

6.6 Gwasanaethau Labordy

Safon SCT 13

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol yn unol â dulliau Gwasanaeth Achredu'r DU, a rhaid iddo fod yn gweithio i gyrraedd safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyn geni am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia.

Targed 100%

Safon SCT 14

Rhaid i'r prawf sgrinio y mae'r labordy'n ei ddefnyddio ddilyn canllawiau'r GIG (Rhaglen Sgrinio'r GIG ar gyfer Anhwylder y Crymangelloedd a Thalassaemia 2021) ac algorithm ASW ar gyfer ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn isel.

Targed 100%

(1) Ni ddylai'r labordy wneud prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia os nad yw'r wybodaeth ar 'sticer' cerdyn cais Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia wedi'i gwblhau ar y cais.[k]

[k] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

(2) Dylai'r prawf am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia gael ei gynnal drwy ddefnyddio cromatograffi hylif effeithiol iawn (HPLC) neu ddulliau eraill a gymeradwywyd gan UKNSC (NHS 2017) yn dilyn cyfrif gwaed llawn (FBC). Os bydd y dadansoddiad yn dangos bod annormaledd, dylid gwneud profion dilynol addas neu gyfeirio'r achos at labordy cyfeirio er mwyn adnabod yr annormaledd yn benodol, yn unol â chanllawiau ac algorithm NSC.

Safon SCT 15

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 95%

Safon SCT 16

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid iddi gyrraedd y labordy hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 95%

Safon SCT 17

Rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn pum diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

(1) Yn achos pob sampl sy'n cyrraedd y labordy, dylai fod trefn ar waith er mwyn sicrhau bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Pan fydd y labordy'n cyhoeddi cais am fwy o brofion (gan gynnwys profion ar dad biolegol y babi), dylai fod wedi rhoi trefn ar waith sy'n sicrhau bod yr ail sampl yn dod i law a bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi.

(2) Os oes problem gyda chais a bod angen rhagor o wybodaeth, dylid gofn am hyn gan ddefnyddio blwch ebost generig perthnasol y bwrdd iechyd.[l]

6.7 Trin y Canlyniadau

Safon SCT 18

Os nad y labordy lleol oedd yn gwneud y profion ar y sampl, rhaid i'r canlynia fod ar gael i'r labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adroddiad terfynol gael ei awdurdodi gan y labordy a wnaeth profon.

Targed 95%

Safon SCT 19

Rhaid i'r canlyniad fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd yr adroddiad ei ryddhau gan, neu i'r, labrody lleol.

Targed 95%

[l] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

(1) Dylai'r canlyniadau gael eu hanfon i'r tîm clinigol sy'n gofalu am y fenyw yn ystod ei beichiogrwydd. Ni ddylai labordai roi'r canlyniad fel arfer i weithiwr proffesiynol sy'n holi dros y ffôn, oni bai fod arwydd glir o angen clinigol sy'n effeithio ar unwaith ar y gwaith o reoli'r gofal.

Safon SCT 20

Os bydd haemoglobin cymedrig y gell (MCH) yn is na 27pg ar ganlyniad y prawf cyfrif gwaed llawn ac mae'r fenyw wedi gwrthod prawf sgrinio, dylid cynnig ail brawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia iddi pan fydd canlyniadau'r prawf cyfrif gwaed llawn yn cael eu hesbonio. Rhaid cofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os bydd y fenyw'n derbyn prawf sgrinio, dylai'r fydwraig gymryd y sampl a nodi bod y prawf yn un 'Cyfrif gwaed llawn a phrawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia'. Dylai'r fydwraig nodi ar y cais bod y 'MCH cychwynnol yn llai na 27pg'[l]

Safon SCT 21

Rhaid bod gan y gwasanaeth mamolaeth broses ysgrifenedig ddi-feth wedi cael ei chytuno er mwyn adnabod a mynd ar drywydd canlyniadau sydd heb gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth.

Targed 100%

Safon SCT 22

Rhaid bod proses ysgrifenedig ddiogel ddi-feth wedi cael ei chytuno a'i rhoi ar waith i adnabod a mynd ar drywydd achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu fwy o wybodaeth.

Targed 100%

Safon SCT 23

Os nad oes unrhyw broblem yn dod i'r amlwg, dylai'r gwasanaeth mamolaeth roi'r canlyniadau i'r fenyw yn ystod yr ymweliad yn wythnos 16 o'r beichiogrwydd. Rhaid i'r canlyniadau gael eu cofnodi ar Gofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os nad oes unrhyw rai o'r canlyniadau hyn ar gael, dylid dilyn y llwybr lleol dan sylw yn Safon SCT 21.

(2) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamoaleth Cymru Gyfan.

(3) Dylid cofnodi hefyd unrhyw gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r canlyniad.

(4) Dylid hysbysu'r fenyw bod y siawns y bydd hi'n cael plentyn a fydd wedi'i effeithio gan anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn isel iawn.

Safon SCT 24

Os cafodd y sampl ei gymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd dylid rhoi'r canlyniadau o fewn 3 wythnos. Rhaid cofnodi'r canlyniadau ar Gofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y caiff y fenyw ei hadolygu gan weithiwr iechyd proffesiynol.

Targed 100%

(1) Dylid creu cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniad gyda'r fenyw a'i gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(2) Dylid cofnodi hefyd unrhyw gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r canlyniad.

6.7.1 Canlyniad Positif i Brawf Sgrinio'r Fam am Anhwylder y Crymangelloedd neu Thalasaemia

Safon SCT 25

Rhaid i'r labordy fynd ati o fewn un diwrnod gwaith i roi gwybod i'r cydlynydd sgrinio cyn geni (neu'r dirprwy) am ganlyniad positif i'r prawf o fewn un diwrnod gwaith i'r adroddiad terfynol gael ei awdurdodi gan y labordy.

Targed 100%

(1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad at flwch ebost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un dinwrod i'r adroddiad gael ei awdurdodi.

Safon SCT 26

Rhaid rhoi'r canlyniad i'r fenyw o fewn tri diwrnod gwaith i'r dyddiad y bydd y canlyniad ar gael.

Targed 95%

(1) Dylid gwneud trefniadau i'r fenyw feichiog ddod yn ei hôl i'r clinig cyn geni er mwyn rhoi ei chanlyniad iddi.

(2) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(3) Os yw'n briodol, dylid gofyn i dad biolegol y babi ddod i'r clinig cyn geni gyda'r fenyw.

(4) Mewn achosion lle mae'r fenyw'n gludydd genyn anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia neu fod ganddi anhwylder ar yr haemoglobin, dylai gael gwybodaeth[m] ysgrifenedig a llafar am ei diagnosis. Dylai gweithiwr proffesiynol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ddweud wrthi fod y siawns fod ei babi wedi etifeddu anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol yn dibynnu ar y posibilrwydd fod tad biolegol y babi hefyd yn gludydd genyn anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia.

[m] Mae gwybodaeth cyn geni i fenywod ar haemoglobinopathïau penodol ar gael gan Sgrinio Cyn Geni Cymru drwy'r labordy, Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan neu gydlynwyr sgrinio

Safon SCT 27

Os oes anhwylder yr haemoglobin ar y fenyw, rhaid ei chyfeirio i gael gofal haematoleg/ obstetrig ar y cyd a'i hadolygu o fewn chwe wythnos.

Targed 100%

Safon SCT 28

Os yw'r fenyw'n awyddus i gael gwybod am lefel y risg i'r babi, rhaid i'r gwasanaethau mamolaeth ofyn am ganiatâd y fenyw cyn cynnig prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia i dad biolegol y babi. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y cofnodion mamolaeth Cymru gyfan.

Targed 100%

(1) Os yw'r fenyw'n gwybod bod anhwylder yr haemogloblin arni, dylid dweud wrthi fod sgrinio tad biolegol y babi'n ofynnol cyn gallu rhoi'r asesiad mwyaf cywir o'r risg i'r beichiogrwydd.

(2) Os yw tad biolegol y babi eisoes wedi cael prawf sgrinio, dylai gael cyfle i gael ail brawf sgrinio a dylid cynnwys y wybodaeth berthnasol am ganlyniadau'r prawf blaenorol ar y cais.[n]

Safon SCT 29

Os nad yw tad biolegol y babi ar gael neu os yw'n gwrthod prawf, neu os nad yw'r fenyw'n rhoi ei chaniatâd i'r staff gysylltu â'r tad, rhaid cynnig asesiad o'r risg. Rhaid i haematolegydd y bwrdd iechyd neu'r Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru wneud y prawf o fewn tri diwrnod gwaith, er mwyn cynghori'r gwasanaeth mamolaeth am lefel y risg i'r babi. Rhaid seilio'r asesiad ar ethnigrwydd y fenyw a'r tad biolegol fel ei gilydd.

Targed 100%.

(1) Dylid cynnig gwneud prawf am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia ar y babi newydd-anedig yn unol â Safon SCT 35.

Safon SCT 30

Os yw tad biolegol y babi'n rhoi ei ganiatâd, rhaid gwneud trefniadau i'r gwasanaeth mamolaeth gymryd y sampl cyn gynted â phosibl a chyn pen tri diwrnod gwaith.

Targed 100%

(1) Dylai'r cydlynydd sgrinio cyn geni neu'r cynghorydd ar anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia gydlynu'r ddau ganlyniad a rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r labordy allu sicrhau bod canlyniad prawf y tad biolegol ar gael i gael ei ystyried ar yr un adeg â chanlyniad prawf y fenyw.

(2) Dylai'r sampl gael ei nodi i gael sylw 'brys' a dylid rhybuddio'r labordy fod y sampl ar ei ffordd.

[n] Gall y cais fod naill ai ar ffurf copi caled neu electronig

(3) Os bydd tad biolegol y babi'n cael prawf sgrinio ac mae'r canlyniad yn dangos ei fod yn gludydd genyn anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia neu fod anhwylder yr haemoglobin arno, bydd lefel y risg i'r babi yn dibynnu ar y rhyngweithio posibl rhwng amrywiadau penodol yr haemoglobin yng ngwaed y rhieni.

(4) Os bydd tad biolegol y babi'n cael prawf sgrinio ac mae'r canlyniad yn dangos nad yw'n gludydd genyn anhwylder y crymangelloedd na thalasaemia, gall weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi cael ei hyfforddi'n briodol ddweud wrth y fenyw fod y siawns yn isel iawn yn y beichiogrwydd hwn y gallai'r babi fod wedi'i effeithio gan anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia difrifol ac nad yw profion mewnwthiol yn cael eu hargymell.

(5) Dylid dweud wrth y fenyw hefyd y bydd angen asesu'r risg i unrhyw feichiogrwydd dilynol ac ôl iddi feichiogi neu cyn gynted ag y bydd hi'n gwybod am y beichiogrwydd os oes partner gwahanol ganddi erbyn hynny. Bydd yn bosibl gwneud yr asesiad o'r risg mewn canolfan ar gyfer pobl ag anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia neu drwy feddyg teulu'r fenyw.

Safon SCT 31

Os yw mam a thad biolegol y babi fel ei gilydd yn gludwyr genyn anhwylder y crymangelloedd neu thalasaemia neu os oes anhwylder yr haemoglobin ar y ddau, dylai'r ddau gael eu cyfeirio at Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad bydd y gwasanaeth mamolaeth yn cael y canlyniad.

Targed 100%

(1) Bydd y Gwasanaeth Genomeg yn penderfynu ar lefel y risg i'r babi.

(2) Lle bynnag y bydd hynny'n briodol, bydd Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru yn cynnig profion mewnwthiol cyn geni i'r fenyw.

(3) Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf mewnwthiol yn y cyfnod cyn geni, dylid cynnig profion am anhwylder y crymangelleodd a thalasaemia i'r babi newydd-anedig yn unol â Safon SCT 35.

Safon SCT 32

Pan fydd y fenyw'n derbyn y cynnig o brawf diagnostig cyn y geni, rhaid i'r prawf fod ar gael cyn gynted â phosibl ac o fewn pum diwrnod gwaith os yw'r fenyw wedi cyrraedd y cam yn ei beichiogrwydd sy'n briodol ar gyfer y prawf mewnwthiol mae wedi'i ddewis.

Targed 100%

(1) Er mwyn hwyluso'r broses o ddehongli'r canlyniadau ar gyfer gwneud haemoglobinopathi, rhaid anfon gyda'r sampl mewnwthiol o'r prawf CVS neu'r amniosentesis sampl 10ml o waed y fam mewn potel EDTA a dynnwyd yr un diwrnod â'r weithred.

(2) Mae sampl o waed tad biolegol y babi'n ofynnol hefyd, os yw'r tad ar gael.

(3) Os oes gweithred amniosentesis i gael ei gwneud, bydd y labordy angen 20ml o'r hylif amniotig.

6.7.2 Gofal Ôl-enedigol

Safon SCT 33

Os daeth yn amlwg bod siawns uchel gan y babi o etifeddu anhwylder y crymangelleodd neu fath arall o anhwylder arwyddocaol ar yr haemoglobin, rhaid bod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r babi gael adolygiad gan bediatregydd o fewn 24 awr i'r geni.

Targed 100%

(1) Bydd hyn yn cynnwys:

- achosion lle mae'r fam yn gludydd neu fod anhwylder arni, ond lle nad oes canlyniad ar gyfer tad biolegol y babi neu;
- lle mae mam a thad biolegol y babi ill dau yn gludwyr neu bod anhwylder ar haemoglobin y ddau; neu
- lle nad oes canlyniad prawf sgrinio ar gael ar gyfer y fam a bod ei theulu hi neu deulu'r tad biolegol yn hanu o rywle y tu allan i'r DU ac Iwerddon neu;
- lle nad oes canlyniad prawf sgrinioa r gael ar gyfer mam y babi a bod ei chfyrif gwaed llawn yndnagos MCH sy'n llai na 27pg beth bynnag fo cendir y teulu neu lle nad yw wedi'i phrofi fel rhan o'r llwybr sgrinio cyn geni.

Safon SCT 34

Rhaid cynnig i fabi newydd-anedig gael profion os oes siawns uchel ganddo o etifeddu anhwylder y crymangelloedd neu fath arall o anhwylder arwyddocaol ar yr haemoglobin, neu er mwyn cadarnhau prawf diagnostig am anhwylder y crymangelleodd a thalasaemia a gafodd ei wneud cyn y geni.

Targed 100%

(1) Rhaid bod pob bwrdd iechyd wedi rhoi polisi ar waith ar gyfer penderfynu pa fabanod newydd-anedig a ddylai gael cynnig o brawf am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia, a rhaid bod llwybr gofal wedi'i greu ar gyfer rheoli'r babanod hyn.

(2) Nid yw gwaed y llinyn yn addas ar gyfer y prawf hwn, ac mae gofyn cymryd sampl 0.3-1ml o waed gan ei rhoi mewn potel EDTA pediatrig.

(3) Dylai'r prawf gwaed hwn gael ei wneud cyn prawf smotyn gwaed y babi, ac yn ogystal â'r prawf hwnnw.

(4) Ni ddylai'r fam a'r babi sy'n barod i gael eu trosglwyddo i ofal cymunedol gael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ganlyniadau'r profion hyn.

7.0 Sgrinio Cyn geni am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Datganiad polisi

Dylid cynnig prawf sgrinio cyn geni am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i bob menyw feichiog er mwyn nodi menywod y gall fod gan eu babi un o'r syndromau hyn (NICE 2008; WHC 2003b (127)).

Syndrom Down

Syndrom Down yw'r cyflwr mwyaf cyffredin ar y cromosomau. Annormaledd sy'n golygu bod deunydd genetig ychwanegol yn bresennol ym mhâr 21 o'r cromosomau sy'n achosi'r cyflwr hwn. Mae'n digwydd ar y cyfan tua unwaith ym mhob 415 beichiogrwydd yng Nghymru. Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn.

Syndrom Edwards

Mae Syndrom Edwards yn cael ei achosi gan bresenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 18 o'r cromosomau. Mae'r cyflwr hwn yn digwydd mewn tua un ym mhob 1656 beichiogrwydd yng Nghymru. Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn.

Syndrom Patau

Mae Syndrom Patau yn cael ei achosi gan bresenoldeb deunydd genetig ychwanegol sy'n gysylltiedig â phâr 13 o'r cromosomau. Mae'r cyflwr hwn yn digwydd mewn tuag un o bob 4201 beichiogrwydd yng Nghymru. Mae nifer yr achosion ohono'n cynyddu wrth i'r fam fynd yn hŷn. Mae syndrom Patau yn cyfyngu ar fywyd.

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Os oes gan y babi syndrom Down, syndrom Edward neu syndrom Patau, gall y fenyw seilio'i phenderfyniad ynglŷn â pharhad y beichiogrwydd ar wybodaeth. Os bydd y beichiogrwydd yn mynd yn ei flaen, dylai'r fam gael cyfle i adnabod unrhyw broblemau ychwanegol yng nghorff y babi, er enghraifft, cyflyrau ar y galon, a dylai gael cyngor a chymorth addas o ran gofal.

Y Canlyniadau a Ragwelir

Bydd menywod beichiog â babi sydd â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau yn gorfod gwneud dewisiadau o ran atgenhedlu.

Yr Opsiynau o ran Prawf Sgrinio

Mae'r prawf sgrinio sydd ar gael ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn golygu defnyddio mesuriadau uwchsain o'r ffetws a phrawf gwaed sy'n chwilio am farcwyr biocemegol er mwyn cyfrannu at y broses o gyfrifo lefel y siawns y gallai naill ai syndrom Down neu syndromau Edwards/Patau effeithio ar y beichiogrwydd. Mae'r prawf cyfun hwn yn defnyddio mesuriad uwchsain i asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fam, ynghyd â mesuriad o gasgliad hylif ger gwddf y ffetws (prawf tryleuder y gwegil neu NT) a chanlyniadau'r marcwyr biocemegol i roi canlyniad siawns i'r fenyw ar gyfer syndrom Down a syndrom Edwards/Patau yn ystod beichiogrwydd sengl a beichiogrwydd efeilliad a hynny'n gynnar yn y beichiogrwydd).

Gall menywod â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid ddefnyddio'r canlyniad hwn i benderfynu a ydynt yn dymuno derbyn neu wrthod y cynnig o brawf sginio pellach a elwir yn brawf cyn geni anfewnwthiol (NIPT), sy'n brawf sginio mwy cywir, neu fel arall, brawf mewnwthiol (CVS neu amniosentesis) er mwyn galluogi prawf mewnwthiol.

Os bydd hi'n rhy hwyr i fenyw gael ei sgrinio yn ystod y tri mi cyntaf neu os nad oes modd mmessru tryleuder y gwegil, y prawf sgrinio sy'n cael ei argymell yn ystod yr ail gyfnod o dri mis yw'r 'prawf pedrwbl'. Mae'r prawf hwn yn defnyddio mesuriad uwchsain i asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fam, ynghyd â chanlyniadau'r marcwyr biocemegol i roi canlyniad siawns i'r fenyw ar gyfer syndrom Down yn unig yn ystod beichiogrwydd sengl hyd at 18^{+0} wythnos o'r beichiogrwydd.

(1) Dim ond pan mae'r mesuriad CRL (o'r corun i'r pen ôl) rhwng 45.0mm ac 84.0mm (rhwng tua 11^{+2} wythnos a dau ddiwrnod, ac 14^{+1} wythnos a diwrnod) y mae'n bosibl gwneud y prawf cyfun yn ystod tri mis cyntaf y beichiogrwydd mewn beichiogrwydd sengl a gefeilliaid. Bydd hyn yn rhoi canlyniad ar gyfer syndrom Down ac ar gyfer syndromau Edwards/Patau.

(2) Dim ond ar samplau a gafodd eu cymryd rhwng 15^{+0} wythnos a thri diwrnod o'r beichiogrwydd, a 18^{+0} wythnos yn union y gall labordy biocemeg Caerdydd wneud prawf yr ail gyfnod o dri mis (y prawf pedrwbl). Dim ond mewn beichiogrwydd sengl y gellir cynnal y prawf hwn a bydd ond yn rhoi canlyniad ar gyfer syndrom Down.

(3) Yn dilyn canlyniad siawns uwch o'r profion uchod, mae'n bosibl i fenywod â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid:
- barhau heb gael unrhyw brofion eraill
- dewis cael prawf sgrinio arall, mwy manwl gywir, o'r enw prawf NIIPT (os yw canlyniad y prawf NIPT yn dangos siawns uwch bydd angen prawf mewnwtihol os bydd y fenyw yn dymuno cael diagnosis pendant) neu
- dewis prawf mewnwthiol.

7.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon DEP 1

Rhaid cyfeirio'r fenyw at lenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni

(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.

(3) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. mewn print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.

(4) Dylid cynghori'r fenyw i wylio clip ffilm Sgrinio Cyn Geni Cymru sy'n darparu gwybodaeth am sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau cyn y drafodaeth lafar â'r fydwraig.

(5) Dylai'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir gwybodaeth i'r fenyw, ac a yw'r fenyw wedi gwylio clip ffilm Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon DEP 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau cyn gofyn iddi wneud penderfyniad personol ar sail gwybodaeth ynghylch a yw am gael y prawf a rhaid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Pan fo gan y fenyw angen iaith neu gyfathrebu gwahanol, dylai'r fydwraig sicrhau bod y gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, e.e. copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, neu wasanaeth dehonglwyr cymeradwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

(2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y prawf sgrinio hwn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael dewis personol gwybodus.

(3) Dylai'r fydwraig esbonio wrth y fenyw hefyd fod syndrom Down yn gyflwr genetig sy'n effeithio ar rywun am weddill ei oes ac y bydd gan rai pobl â syndrom Down heriau iechyd ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae safon bywydau rhai pobl sydd â syndrom Down yn gallu bod yn dda. Mae rhai pobl â'r cyflwr yn gallu byw'n eithaf annibynnol tra bod angen gofal llawn amser ar bobl eraill.

(4) Mae'n rhaid i'r fydwraig esbonio i'r fenyw y bydd pobl â syndrom Edwards a syndrom Patau yn dioddef oedi gwybyddol ac oedi o ran eu datblygiad ynghyd ag amrediad o anawsterau iechyd, rhai ohonynt yn ddifrifol iawn. Gallant gael problemau gyda'r galon, anawsterau gyda llyncu a bwyta, ffitiau ac anawsterau

anadlu gan gynnwys apnoea. Mae syndrom Edwards a syndrom Patau yn cyfyngu ar fywyd.

(5) Rhaid dweud wrth y fenyw os bydd canlyniad ei phrawf cyfun neu brawf pedrwbl yn ei rhoi yn y categori 'siawns uwch', bydd yn cael yr opsiwn i gael y prawf NPT neu brofion mewnwthiol.

(6) Mae'n rhaid hysbysu'r fenyw, os bydd y prawf NIPT yn dangos siawns isel, ni chynigir unrhyw brofion pellach iddi ond os yw'r NIPT yn dangos siawns uwch, cynigir prawf mewnwthiol iddi.

(7) Dylid esbonio'r risg sy'n gysylltiedig â'r profion mewnwthiol cyn geni o golli'r plentyn.

(8) Os oes syndrom Down, syndorm Edwards neu syndrom Patau ar aelod o deulu'r fenyw, dylid holi a yw'r fenyw'n gwybod pa fath o gyflwr sydd arno. Bydd tueddiad yn y teulu o drawsleoliad yn y cromosomau'n cynyddu'r risg o etifeddu syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau. Os nad yw'n glir neu os oes mwy nag un aelod o'r teulu sydd â'r cyflwr, dylid cynnig atgyfeirio i Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan. Efallai y bydd Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru yn cynnig profion caryoteip neu NIPT i'r rhieni, yn dibynnu ar hanes y teulu.

Mae NIPT yn cael ei gynnig gan y GIG yng Nghymru ar gais Genomeg Glinigol Cyn Geni os yw'r canlynol yn wir:

Mae gan y fenyw blentyn neu feichiogrwydd blaenorol gyda syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau

Mae'r naill neu'r llall o'r rhieni yn gludydd trawsleoliad Roberstonaidd sy'n cynnwys cromosomau 13 neu 21

Dylid cynnig atgyfeirio'r menywod hyn i'r Gwasanaeth Genomeg Clinigol wrth feddwl am feichiogrwydd arall, neu cyn gynted â phosibl yn ystod y beichiogrwydd, i drafod eu hopsiynau sgrinio.

Dylid gwneud yr atgyfeiriad gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio safonol Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan.

7.2 Cynnig prawf sgrinio

Safon DEP 3

Rhaid cynnig prawf sgrinio cyn geni am syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau i bob menyw â beichiogrwydd sengl neu efeilliaid cyn diwedd wythnos 10^{+6} o'r beichiogrwydd, os bydd y fenyw'n dod i'r clinig cyn yr wythnos honno. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Dylid cynnig prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i fenywod. Os yw'r fenyw o fewn paramedrau'r cyfnod cario ar gyfer prawf cyfun, dylid dweud wrth y fenyw y bydd y sonograffydd yn rhoi gwybod am hynny yn ystod yr apwyntiad dyddio yn gynnar yn ei beichiogrwydd. Os bydd y fenyw'r tu allan i'r paramedrau ar gyfer prawf cyfun (mae'r mesuriad o'r corun i'r pen ôl [CRL] yn fwy na 84.0mm ar ddiwrnod y sgan) mewn beichiogrwydd sengl, bydd hi'n cael cyfle i gael prawf pedrwbl i brofi am syndrom Down yn unig. Bydd y sefyllfa'r un fath os nad yw'n bosibl gwneud mesuriad(au) o gorun y babi i'w ben ôl, neu mesuriad o dryleuder ei wegil.

(2) Yn achos menywod sydd wedi cael babi â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau gael cynnig atgyfeirio i'r Gwasanaeth Genomeg Cymru Gyfan oherwydd gallai opsiynau gwahanol fod ar gael. Dylai'r fydwraig gymunedol/clinig cyn geni lenwi'r ffurflen atgyfeirio hon cyn gynted â phosibl i alluogi cwnsela, sgan cynnar ar gyfer cyfnod beichiogrwydd ac os mai NIPT yw'r prawf o ddewis, gellir ei gynnal ar ôl tua 10 wythnos o feichiogrwydd. ANC a Genomeg i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod yr apwyntiad prawf sgrinio ANC, lle y bo'n bosibl, yn cael ei drefnu ar adeg pan fo'r canlyniad NIPT yn cael ei adrodd i negyddu'r angen i'r fenyw gael cynnig sgrinio cyfunol yn ddiangen.

(3) Dylai menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid drafod gyda'r gweithiwr proffesiynol a enwebwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer sgrinio pan fydd rhywun yn disgwyl gefeilliaid cyn anfon sampl gwaed ar gyfer y prawf cyfun.

(4) Mae'n bosibl cynnig y prawf sgrinio cyfun i fenyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid, ond dim ond os yw'r mesuriad tryleuder y gwegil wedi'i gynnal. Bydd cywirdeb y prawf sgrinio yn lleihau yn yr achos hwn a dylid hysbysu'r fenyw o hyn cyn iddi roi ei chaniatâd ar gyfer y prawf sgrinio.

(5) Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu gwybodaeth am gynnig sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac NIPT pan fydd ail goden feichiogrwydd.

Safon DEP 4

Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd lwybr i fenywod sy'n rhoi caniatâd ar gyfer y prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a'u bod yn cael gwybod wedi hynny bod ganddynt feichiogrwydd efeilliaid yn ystod eu sgan dyddio yn gynnar yn eu beichiogrwydd.

Targed 100%

(1) Os bydd menyw yn caniatáu i'r prawf sgrinio gael ei gynnal ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a'i bod yn cael gwybod wedi hynny ei bod yn disgwyl gefeilliaid yn ystod y sgan ar ddechrau ei beichiogrwydd, bydd gan y bwrdd iechyd lwybr ar gyfer:

- Trefnu apwyntiad gyda'r gweithiwr a enwebwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio menyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid
- Cymryd y mesuriadau o gorun y babi i'w ben ôl cyn 14^{+1} wythnos ac 1 diwrnod a
- Casglu sampl gwaed ar gyfer sgrinio cyn 14^{+1} wythnos ac 1 diwrnod.

(2) Dylai'r broses gwnsela cyn cynnal prawf am efeilliaid gynnwys gwybodaeth am:

- a yw'r efeilliaid yn monochorionig neu'n dichorionig oherwydd bydd hyn yn effeithio ar ganlyniad prawf sgrinio
- os mai dim ond un mesuriad o gorun y babi i'w ben ôl a gasglwyd, y bydd y canlyniad yn llai cywir na phe byddai'r ddau efaill yn cael eu mesur.
- os na cheir y naill fesuriad o gorun y babi i'w ben ôl, ni fydd y prawf pedrwbl yn cael ei gynnal os bydd rhywun yn feichiog gyda gefeilliaid.
- pan fydd gan yr efeilliaid frych unigol mae yna bosibilrwydd y bydd un efaill ag un o'r cyflyrau y sgrinir amdanynt ac na fydd gan un efaill unrhyw rai o'r cyflyrau y sgrinir amdanynt.
- Os yw canlyniad y prawf cyfunol yn siawns uwch, yna dyma'r opsiynau:
  - Dim rhagor o brofion
  - NIPT
  - Gweithdrefn fewnwthiol
- mae'r siawns o gamesgoriad yn sgil prawf mewnwthiol ymysg menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid bron yn dyblu o gymharu â beichiogrwydd sengl.
- mae angen cynnal gweithdrefnau mewnwthiol mewn canolfan lle bydd terfyniad dewisol yn cael ei gynnal os bydd y fenyw'n penderfynu hynny.
- mae cynnal terfyniad dewisol ar un efaill mewn beichiogrwydd yn gymhleth ac mae'n cyflwyno siawns o gamesgoriad a morbidrwydd i'r efaill arall.
- ni chynigir prawf sgrinio ar gyfer tripledi neu feichiogrwydd lluosog uwch.

7.3 Rhoi Caniatâd

Safon DEP 5

Mae caniatâd llafar deallus y fenyw'n ofynnol cyn gwneud y profion hyn, a rhaid cofnodi ei phenderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Cyn cychwyn y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, dylai'r sonograffydd ofyn a yw'r fenyw yn:

- deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo.
- a oes angen rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio arni.
- yn rhoi ei chydsyniad llafar i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y cydsyniodd iddo:
    - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar os yw'r fenyw wedi gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, neu
    - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar gan gynnwys mesur tryloywder y gwegil a chymryd sampl gwaed y fam os yw'r fenyw yn cydsynio i sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau,

(2) Os nad yw'r fenyw yn deall neu os yw wedi newid ei meddwl am y prawf sgrinio neu os yw am gael rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio:

- Dylai'r sonograffydd atgyfeirio'r fenyw yn ôl i'r fydwraig yn y clinig cyn geni i drafod ei phenderfyniad a sicrhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth gywir i seilio ei phenderfyniad arni cyn bod y sgan beichiogrwydd cynnar yn cael ei gynnal.

(3) Dylai'r fydwraig gofnodi unrhyw drafodaethau pellach a newidiadau o ran penderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

7.4 Cais am Brawf

Safon DEP 6

Pan fydd menyw wedi derbyn y cynnig o brawf am syndromau Down, Edwards a Patau rhaid cofnodi ar gerdyn y cais am sgan uwchsain hefyd ei bod wedi rhoi ei chaniatâd.

Targed 100%

(1) Os bydd y fenyw'n dod yn brydlon yn ei beichiogrwydd i'r clinig cyn geni, dylid trefnu'r sgan cynnar oddeutu wythnos 12 o'r cyfnod cario.

Safon DEP 7

Rhaid ysgrifennu 'sgrinio cyn geni' ar y cerdyn cais i'r labordy am brawf am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu ei nodi fel achos sydd dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon DEP 8

Rhaid llenwi pob un o'r meysydd sy'n ofynnol am brawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau wrth lenwi cerdyn cais.

Targed 100%

(1) Rhaid bod sgan uwchsain wedi cael ei wneud i gadarnhau ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw, a rhaid cynnwys y mesuriadau sy'n ofynnol ar gerdyn y cais i'r labordy. Yn achos y prawf cyfun, rhaid cynnwys y mesuriad o gorun y babi i'w ben-ôl (CRL) a mesuriad o dryleuder y gwegil (NT), a rhaid rhoi naill ai mesuriad CRL neu fesuriad o gylchedd y pen (HC) yn achos y prawf pedrwbl.

(2) Os yw'r fenyw wedi cael triniaeth ffrwythloni in-vitro (IVF), rhaid rhoi'r wybodaeth honno i'r labordy. Os yw'r beichiogrwydd yn deillio o wy rhodd, rhaid cynnwys oed y rhoddwr hefyd.

(3) Rhaid cynnwys pwysau cywir fenyw hefyd, a gorau oll os yw ei phwysau'n cael eu cofnodi ar yr un diwrnod â'r dyddiad y cymerwyd y sampl ond ni ddylai beth bynnag fod dros wythnos cyn y dyddiad y cymerir y sampl.

(4) Dylid cofnodi tarddiad teulu'r fenyw (y genhedlaeth 1af a'r 2il genhedlaeth), hanes o ddiabetes a therapi inswlin ar ochr teulu'r fam a ph'un a yw'n ysmygu ai peidio ar gerdyn y cais gan y bydd y wybodaeth honno'n effeithio ar y canlyniad.

(5) O ran menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid, dylid cofnodi a yw'r beichiogrwydd yn un monochroionig, dichorinig neu'n anhysbys oherwydd bydd hyn yn cael ei addasu ar gyfer y cyfrifiad siawns.

(6) Dim ond os mai un mesuriad tryleuder y gwegil yn unig sydd wedi'i fesur y gellir cynnig y prawf cyfun i fenywod sy'n disgwyl gefeilliaid. Dylid nodi hyn ar y cerdyn gwneud cais.

(7) Yn achos y prawf cyfun, dylid cofnodi rhif DQASS y sonograffydd sy'n mesur tryleuder y gwegil (prawf NT) ar y cerdyn cais am brawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Safon DEP 9

Rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gofyn am y prawf lenwi a llofnodi'r cerdyn cais.[o]

Targed 100%

(1) Rhaid i gais electronig fod yn dangos llwybr archwilio clir sy'n enwi'r sawl a wnaeth y cais.

[o] Drwy lofnodi'r cerdyn cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf fynd yn ei flaen.

7.5 Trefn y Prawf Gwaed

Safon DEP 10

Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl gofnodi hynny yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad

Targed 100%

(1) Rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Rhaid i'r drafodaeth a'r prawf gwaed gael eu gwneud yn y fath le fel bod modd gwarantu preifatrwydd y fenyw.

(2) Rhaid i'r person sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw i ddweud ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad a rhaid i'r rhain fod yr un fath yn union â'r wybodaeth ar y cerdyn cais a'r sampl.

(3) Dim ond pan mae'r mesuriad CRL (o'r corun i'r pen ôl) rhwng 45mm ac 84mm (rhwng tua 11^{+2} wythnos a dau ddiwrnod, ac 14^{+1} wythnos a diwrnod) y mae'n bosibl gwneud y prawf cyfun yn ystod tri mis cyntaf y beichiogrwydd.

(4) O ran menywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid, mae'n rhaid i'r mesuriad CRL (o'r corun i'r pen ôl) fod rhwng 45.0mm a 84.0mm (tua 11^{+2} wythnos a 2 ddiwrnod ac 14^{+1} wythnos ac 1 diwrnod), er mwyn gallu cynnal y prawf cyfun.

(5) Dim ond ar samplau a gafodd eu cymryd rhwng wythnos 15^{+0} ac wythnos 18^{+0} o feichiogrwydd sengl y gall labordy biocemeg Caerdydd wneud prawf yr ail gyfnod tri mis (y prawf pedrwbl). Os caiff y sampl ei gymryd rhwng wythnos 15^{+0} ac wythnos 15^{+2} neu wythnos 17^{+5} a 18^{+0} ffoniwch y labordy i sicrhau y bydd y sampl yn cael ei dderbyn.

(6) Yn achos samplau sy'n cael eu prosesu yn labordy biocemeg Caerdydd, mae gofyn tynnu 3ml o waed o wythïen gan ei roi mewn tiwb rhannu serwm (SST). Os oes mwy nag un sampl o waed yn cael ei gymryd ar yr un pryd, rhaid cymryd sampl ar gyfer y prawf am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn gyntaf gan fod posibilrwydd i'r EDTA o gynwysyddion gwaed eraill lygru'r sampl ac effeithio ar y canlyniad.

7.6 Gwasanaethau Labordai

Safon DEP 11

Rhaid bod y labordy wedi'i achredu'n briodol yn unol â dulliau Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, a rhaid iddo fod yn gweithio i gyrraedd safon ISO 15189 ar gyfer profion sgrinio cyfuno a phedrwbl cyn geni.

Targed 100%

Safon DEP 12

Rhaid i'r labordy gyflwyno data sgrinio i DQASS (y gwasanaeth cymorth ar sicrhau ansawdd wrth sgrinio am syndrom Down), a hynny o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Targed 100%

Safon DEP 13

Rhaid i uwch-aelod penodol o staff y labordy sydd ar lefel ymgynghorydd (naill ai gwyddonydd clinigol neu batholegydd cemegol) ac sydd wedi cael profiad perthnasol ym maes sgrinio, dderbyn cyfrifoldeb cyffredinol dros bob agwedd ar waith sgrinio'r labordy am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Targed 100%

Safon DEP 14

Rhaid i'r labordy gymryd rhan mewn archwiliad o'r gwasanaeth sgrinio a rhaid iddo roi gwybodaeth yn ôl y galw i Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Targed 100%

Safon DEP 15

Rhaid i gyfraddau datgelu'r rhaglenni sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a chyfraddau ei chanlyniadau positif anghywir gael eu monitro. Rhaid bod y prawf pedrwbl yn gallu cyflawni cyfradd ddatgelu o 80% fel isafswm ar gyfradd canlyniadau positif o 4%, a rhaid bod y prawf cyfun yn cyflawni cyfradd ddatgelu o 80% ar gyfradd canlyniadau positif o 3%.

Targed 100%

Safon DEP 16

Rhaid i'r sampl gyrraedd y labordy lleol o fewn un diwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 95%

(1) Dylai'r gwaith o baratoi a chludo'r sampl ddilyn y trefniadau gweithredu safonol mae labordy Caerdydd yn eu hargymell.

Safon DEP 17

Os bydd y sampl yn cael ei hanfon i labordy arall, rhaid iddi gyrraedd y labordy hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r adeg y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 100%

Safon DEP 18

Rhaid i'r labordy anelu at anfon y canlyniadau o fewn tri diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy.

Targed 95%

7.7 Trin y Canlyniadau

Safon DEP 19

Rhaid i ganlyniad prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau fod ar gael i'r gwasanaeth mamolaeth o fewn tri diwrnod gwaith i'r adeg y cyrhaeddodd y sampl y labordy sy'n gwneud y prawf.

Targed 95%

(1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad drwy e-bost i'r blwch e-bost generig perthnasol yn y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod gwaith o lunio'r adroddiad.

Safon DEP 20

Rhaid bod proses ysgrifenedig ddi-feth wedi cael ei chytuno a'i rhoi ar waith i adnabod a mynd ar ôl canlyniadau sydd heb gyrraedd y gwasanaeth mamolaeth o fewn tri diwrnod gwaith.

Targed 100%

(1) Os bydd y sampl yn cael ei gymryd ar yr adeg iawn ond nid yw'r labordy'n gallu rhoi canlyniad, dylai'r fenyw gael cyfle i drafod y dewisiadau amgen. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am y camgymeriad gwblhau adroddiad DATIX ac mae ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu prawf amgen i'r fenyw a thalu amdano. Os dewisir y prawf NIPT, i'w brosesu yn labordy Caerdydd, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynnal y sampl ffonio'r labordy i'w hysbysu y bydd sampl "preifat" yn cael ei anfon.

(2) Os mai NIPT yw'r prawf o ddewis a gyflawnir fel prawf sylfaenol, yna dylid rhoi gwybod i'r fenyw am gyflawni NIPT fel prawf sylfaenol. Mae hyn yn wahanol i gyflawni NIPT fel prawf amodol. Noder: Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru yn paratoi gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig NIPT fel prawf sgrinio sylfaenol. Dylai'r drafodaeth fod rhwng y fenyw a'r [p]gweithiwr iechyd proffesiynol sydd â sgiliau a gwybodaeth berthnasol

Safon DEP 21

Rhaid bod gan y gwasanaethau mamolaeth broses ysgrifenedig wedi cael ei chytuno i adnabod a mynd ar ôl achosion lle mae'r labordy wedi gofyn am sampl ychwanegol neu fwy o wybodaeth.

Targed 100%

[p] Gweithiwr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnig NIPT fel prawf sgrinio sylfaenol

Safon DEP 22

Dylai menywod gael eu hsybysu o ganlyniadau siawns is gan y gwasanaeth mamolaeth yn ystod ei hymweliad â'r clinig cyn geni yn ystod wythnos 16 a rhaid cofnodi'r canlyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Os yw'n ganlyniad siawns is, dylid hysbysu'r fenyw mai siawns is sydd ganddi o gael babi â syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrrom Patau ac nad argymhellir ei bod hi'n cael mwy o brofion.Gellir rhoi canlyniad y prawf sgrinio serwm (sy'n cael ei gyfleu fel siawns o un o bob XXX ar gyfer syndrom Down a siawns o 1 o bob xxx ar gyfer syndormau Edwards/Patau) i'r fenyw os bydd hi'n gofyn am y wybodaeth hon.

(2) Rhaid rhoi cofnod wedi'i lofnodi yn nodi'r dyddiad y trafodwyd y canlyniadau gyda'r fenyw yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(3) Dylid cofnodi unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â'r canlyniad hefyd.

Safon DEP 23

Os yw'r sampl wedi'i gymryd ar gam diweddarach o'r beichiogrwydd dylid rhoi'r canlyniadau o fewn tair wythnos. Rhaid cofnodi'r canlyniadau yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn gwneud adolygiad o'r fenyw.

Targed 100%

7.7.1 Canlyniad Siawns Uwch o syndrom Down, neu syndrom Edwards/syndrom Patau (siawns rhwng 1:2 ac 1:150)

Safon DEP 24

Yn achos menyw sydd wedi cael canlyniad siawns uwch yn dlyn y prawf sgrinio cyfun neu bedrwbl, rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth ddweud wrthi am y canlyniad o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad y cafodd y sampl ei gymryd.

Targed 90%

(1) Yn achos menyw sy'n perthyn i'r grŵp siawns uwch, dylid rhoi gwybod iddi am hynny drwy lythyr neu drwy ei ffonio (gan ddilyn y trefniadau lleol a/neu ddewisiadau'r fenyw). Dylid cynnig apwyntiad i'r fenyw i drafod y canlyniad yn unol â safon DEP 26.

(2) Ni ddylid rhoi'r canlyniad i'r fenyw yn ystod y penwythnos neu ar brynhawn dydd Gwener oni bai fod ganddi ffordd o gysylltu â gweithiwr iechyd proffesiynol a chanddo'r sgiliau a'r wybodaeth berthnasol.

Safon DEP 25

Rhaid trefnu apwyntiad o fewn 24 awr i'r adeg yr oedd y fenyw wedi cael y canlyniad iddi drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgrinio cyn geni neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.
Targed 100%

(1) Dylid cynnig apwyntiad wyneb-yn-wyneb i dafod y canlyniadau hyn.

(2) Os oes angen gwasanaethau dehongli, dylid eu trefnu.

(3) Pan fydd y canlyniad siawns uwch yn gysylltiedig â mesuriad tryleuder y gwegil o 3.5mm ac uwch, dylid cynnig prawf mewnwthiol. Os bydd y fenyw'n gwrthod prawf mewnwthiol gellir cynnig NIPT ond dylid hysbysu'r fenyw mai dim ond canlyniad ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau fydd yr NIPT yn ei ddarparu, ac y bydd y prawf mewnwthiol yn cynnig prawf cyfres CGH sy'n darparu mwy o wybodaeth am gyflyrau genetig.

(4) Dylai'r gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth gywir a chyfoes am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau i'r plentyn yn y tymor byr a'r tymor hir.

(5) Dylid hysbysu'r fenyw bod ganddi ddewis o brawf NIPT neu CVS/amniosentesis neu dim profion pellach ac y bydd yn derbyn cefnogaeth beth bynnag fydd ei phenderfyniad.

(6) Ni ellir cynnig NIPT:
- os bu 2il goden neu ffetws (beichiogrwydd gefaill sydd wedi neu sydd yn diflannu) ar unrhyw adeg yn ystod y beichiogrwydd hwn
- os bu malaenedd mamol
- os oes gan y fenyw newidiadau cromosomaidd sy'n cynnwys cromosomau 13, 18 a 21
- os yw'r fenyw wedi cael trallwysiad gwaed yn y pedwar mis diwethaf
- os yw'r fenyw wedi cael trawsblaniad.

(7) Dylid hysbysu'r fenyw os bydd canlyniad y prawf NIPT yn dangos siawn isel, ni fydd yn cael cynnig rhagor o brofion ond os bydd canlyniad y prawf NIPT yn siawns uchel, bydd yn cael cynnig prawf mewnwthiol.

(8) Dylai menyw sy'n feichiog gyda gefeilliaid sy'n cael canlyniad sgrinio cyfun siawns uwch gael eu hatgyfeirio at y gweithiwr iechyd proffesiynol a enwebwyd gan y Bwrdd Iechyd i drafod opsiynau ar gyfer NIPT neu brofion mewnwthiol i fenywod sy'n feichiog gyda gefeilliaid.
- Os bydd menyw yn gofyn am brawf mewnwthiol, dylid trefnu apwyntiad mewn uned lle gellir cynnal terfyniad o feichiogrwydd, os bydd y canlyniad yn dewis baban wedi'i effeithio a bod y fenyw'n dewis peidio parhau â'r beichiogrwydd.

(9) Ym mhob achos, dylid rhoi copi i'r fenyw o lyfryn Sgrinio Cyn Geni Cymru 'Gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig profion pellach ar gyfer cyflyrau chromosomaidd a amheuir' yn ystod yr ymweliad hwn.[q] Mae'n lenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am y Gymdeithas Syndrom Down, Support Organisation for Trisomy 13 and Trisomy 18 (SOFT UK) ac i'r elusen *Antenatal Results and Choices* (ARC).

[q] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod ffurf copïau caled ac mewn fformat digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

7.8 NIPT

7.8.1 Caniatâd ar gyfer NIPT

Safon DEP 26

Mae angen caniatâd llafar gwybodus y fenyw ar gyfer NIPT ac mae'n rhaid cofnodi hyn yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan

Targed 100%

Cyn sicrhau caniatâd, mae'n rhaid:

(1) Hysbysu'r fenyw o ddiben, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision yr NIPT

(2) Hysbysu'r fenyw os bydd canlyniad yr NIPT yn un siawns isel yna ni chynigir profion pellach iddi ond os yw'r NIPT yn dangos siawns uchel, cynigir prawf mewnwthiol iddi

(3) Hysbysu'r fenyw na chynhelir prawf NIPT yn dilyn canlyniad sgrinio siawns uwch ar ôl 20^{+0} wythnos a 0 diwrnod beichiogrwydd.

7.8.2 Gwneud Cais am Brawf

Safon DEP 27

Mae'n rhaid cwblhau pob maes gorfodol ar gyfer cais labordy am brawf sgrinio NIPT.

Targed 100%

(1) Os bydd prawf cyfunol neu bedrwbl wedi'i ddarparu o unrhyw le gwahanol i labordy Biocemeg Caerdydd, mae'n rhaid cynnwys copi o'r adroddiad labordy gyda'r cerdyn cais hwn.

Safon DEP 28

Mae'n rhaid i'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gwneud cais am y prawf gwblhau a llofnodi'r cerdyn gais.

Targed 100%

7.8.3 Gweithdrefn Prawf Gwaed NIPT

Safon DEP 29

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl wneud cofnod wedi'i lofnodi a'i ddyddio o'r sampl sy'n cael ei gymryd yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Mae'n rhaid parchu preifatrwydd y fenyw. Mae'n rhaid cynnal y drafodaeth a'r prawf gwaed mewn lleoliad lle gellir sicrhau preifatrwydd y fenyw.

(2) Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cymryd y sampl ofyn i'r fenyw ddatgan ei henw, ei dyddiad geni a'i chyfeiriad, ac mae'n rhaid i'r rhain gyfateb yn llwyr â'r wybodaeth ar y cerdyn cais a'r sampl.

(3) Mae'n rhaid i'r sampl NIPT gynnwys o leiaf 10ml o waed. Mae'n rhaid ei gasglu mewn tiwb sefydlogi celloedd arbenigol (Streck). Os na lwyddir i lenwi'r botel gyntaf, gellir defnyddio un arall ac anfon y ddwy i'r labordy gyda'i gilydd. Ar ôl casglu'r sampl, mae'n rhaid eu gwrthdroi 8-10 gwaith er mwyn cynnal sefydlogrwydd y gwaed.

(4) Dylai'r person sy'n cymryd y sampl anfon neges e-bost i Labordy Genomeg Cymru Gyfan i roi gwybod iddynt bod y sampl ar ei ffordd i'r labordy.

7.8.4 Trin Samplau

Safon DEP 30

Mae'n rhaid i'r sampl gael ei dderbyn gan Labordy Genomeg Cymru Gyfan o fewn pum diwrnod i gymryd y sampl.

Targed 100%

(1) Dylai'r gwaith o baratoi a chludo'r sampl ddilyn y Trefniadau Gweithredu Safonol a argymhellir gan Labordy Genomeg Cymru Gyfan.

(2) Ni ddylid rhoi'r sampl NIPT yn yr oergell neu'r rhewgell. Ni ddylai'r sampl gael ei allgyrchu.

(3) Dylid anfon y sampl a'r cerdyn cais wedi'i gwblhau at Labrody Genomeg Cymru Gyfan ar y diwrnod y caiff y sampl ei gymryd os yn bosibl. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd y prawf yn aflwyddiannus oherwydd bod DNA y ffetws wedi dadelfennu yn y sampl.

(4) Os caiff samplau eu cludo yn uniongyrchol o wasanaethau mamolaeth i Labrody Genomeg Cymru Gyfan dylent gyflawni gofynion cyfarwyddiadau pacio P6450 y Cenhedloedd Unedig.

7.8.5 Gwasanaethau Labordy

Safon DEP 31

Mae'n rhaid i'r labordy fod wedi'i achredu'n briodol yn unol â Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, ac yn cydymffurfio â safon 15189 ISO ar gyfer profion sgrinio NIPT cyn geni.

Targed 100%

Safon DEP 32

Mae'n rhaid bod uwch aelod o staff dynodedig y labordy, ar lefel meddyg ymgynghorol, sydd â phrofiad perthnasol o sgrinio, sy'n bennaf gyfrifol am holl agweddau gwasanaeth sgrinio NIPT y labordy.

Targed 100%

Safon DEP 33

Mae'n rhaid i'r labordy gymryd rhan mewn archwiliad o'r gwasanaeth sgrinio a darparu gwybodaeth, yn ôl yr angen, i Sgrinio Cyn Geni Cymru ac i CARIS.
Targed 100%

Safon DEP 34

Mae'n rhaid i Labordy Genomeg Cymru Gyfan geisio cyflawni amser cwblhau o ddeg diwrnod calendr o'r amser y derbynnir y sampl yn y labordy i gyflwyno'r canlyniadau i'r Bwrdd Iechyd.
Targed 100%

(1) Rhaid i'r labordy anfon y canlyniad at flwch e-bost generig perthnasol y bwrdd iechyd o fewn un diwrnod calendr o lunio'r adroddiad.

7.8.6 Trin Canlyniadau

Safon DEP 35

Mae'n rhaid sicrhau bod proses ddifethiant ysgrifenedig, gytunedig ar waith i nodi ac olrhain canlyniadau nad yw'r gwasanaeth mamolaeth yn eu derbyn.
Targed 100%

(1) Dylai'r cydlynydd sgrinio cyn geni, neu eu dirprwy, gydlynu'r broses o ddelio â chanlyniadau wrth iddynt gael eu derbyn drwy e-bost.

Safon DEP 36

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth mamolaeth gael proses ysgrifenedig a chytunedig i nodi ac olrhain achosion pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol ar y labordy.
Targed 100%

7.8.7 Canlyniadau Siawns Isel NIPT

Safon DEP 37

Mae angen i'r gwasanaeth mamolaeth hysbysu menywod sydd wedi cael canlyniadau NIPT siawns isel ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau o fewn un diwrnod gwaith ar ôl i'r gwasanaethau mamolaeth dderbyn y canlyniad.
Targed 100%

(1) Dylid hysbysu menywod bod canlyniad NIPT siawns isel ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd gan y babi'r cylfyrau y sgrinir amdanynt.

(2) Dylid hysbysu'r fenyw na chynigir unrhyw brofion pellach.

Safon DEP 38

Mae'n rhaid cofnodi'r canlyniad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y tro nesaf y bydd y fenyw'n derbyn adolygiad gan weithiwr iechyd proffesiynol.
Targed 100%

7.8.8 Canlyniadau Siawns Uchel o NIPT neu Ddim Canlyniad

Safon DEP 39

Mae angen i'r gwasanaeth mamolaeth hysbysu menywod â chanlyniadau NIPT siawns uchel ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwasanaethau mamolaeth dderbyn y canlyniad.
Targed 90%

(1) Dylid hysbysu menywod dros y ffôn (neu drwy ddull o'i dewis) bod ganddi ganlyniad siawns uchel.

(2) Ni ddylid rhoi'r canlyniad fel arfer ar benwythnos neu brynhawn Gwener oni fydd gan y fenyw fynediad at weithwyr iechyd proffesiynol a all drafod y canlyniad a rhoi gwybodaeth gywir iddi am CVS ac amniosentesis.

(3) Bydd tua 2% o fenywod na fyddant yn cael canlyniad o'r prawf NIPT ac mae'r rhain ychydig yn fwy tebygol o fod â babi sydd ag un o'r cyflyrau y sgrinir amdanynt. Rhaid bod gan y bwrdd iechyd broses ar waith iu sicrhau bod menywod nad ydynt wedi cael canlyniad yn cael cynnig prawf mewnwthiol.

Safon DEP 40

Mae'n rhaid gwneud apwyntiad i'r fenyw drafod y canlyniad gyda'r cydlynydd sgrinio cyn geni, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth addas o fewn 24 awr ar ôl rhoi'r canlyniad.
Targed 100%

(1) Dylid cynnig apwyntiad wyneb yn wyneb er mwyn trafod y canlyniadau hyn.

(2) Dylid trefnu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen.

(3) Dylid hysbysu'r fenyw nad yw canlyniad siawns uwch yn brawf diagnostig a dylid cynnig cadarnhad o ganlyniad amniosentesis.

(4) Dylai'r gweithiwr iechyd proffesiynol roi gwybodath gywir a chyfoes am y syndrom y cafwyd canlyniad siawns uchel ar ei gyfer.

(5) Ym mhob achos, dylid rhoi copi i'r fenyw o lyfryn Sgrinio Cyn Geni Cymru 'Gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig profion pellach ar gyfer cyflyrau chromosomaidd a amheuir' yn ystod yr ymweliad hwn.[r] Mae'n lenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am y Gymdeithas Syndrom Down, Support Organisation for Trisomy 13 and Trisomy 18 (SOFT UK) ac i'r elusen *Antenatal Results and Choices* (ARC).

Safon DEP 41

[r] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod gan ASW ar ffurf copïau caled ac mewn fformat digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

Mae'n rhaid cynnig prawf mewnwthiol i bob menyw sydd â chanlyniad sgrinio siawns uchel yn dilyn NIPT.

Targed 100%

(1) Mae angen i'r drafodaeth gynnwys gwybodaeth am:
- gweithdrefnau mewnwthiol
- y risg o gam-esgor sy'n gysylltiedig â phrawf mewnwthiol
- (QF – PCR a'r wybodaeth y bydd y canlyniad yn ei darparu
- unrhyw wybodaeth arall y bydd y fenyw yn gofyn amdani, i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus o ran profion mewnwthiol cyn geni.
- lle mae'r canlyniad o feichiogrwydd gefeilliaid:
    - sydd wedi arwain at frych unigol mae posibilrwydd y gallai un efaill fod ag un o'r cyflyrau y sgrinir amdanynt ac efallai na fydd gan un efaill unrhyw rai o'r cyflyrau y sgrinir amdanynt
    - mae'r risg o gamesgoriad yn sgil prawf mewnwthiol mewn beichiogrwydd gefeilliaid bron yn ddwbl beichiogrwydd sengl.
    - mae angen cynnal gweithdrefnau ymwthiol mewn canolfan lle y cyflawnir y terfyniad dewisol os mai dyma ddewis y fenyw
    - mae cynnal terfyniad dewisol ar un efaill mewn beichiogrwydd yn gymhleth ac mae'n cyflwyno risg o gamesgoriad a morbidrwydd i'r efaill arall

(2) Dylai'r fydwraig drafod hefyd y dewisiadau beichiogrwydd yn dilyn prawf mewnwthiol os yw'r canlyniad yn dangos bod gan y babi un o'r cyflyrau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys parhau â'r beichiogrwydd neu derfynu'r beichiogrwydd. Dylid cynnig cefnogaeth i fenywod beth bynnag yw eu dewis.

(3) Dylid trafod terfynu beichiogrwydd. Os yw'r beichiogrwydd yn fwy na 21^{+6}, dylid cynnwys ffetysladdiad yn y drafodaeth hon (RCOG 2011).

(4) Dylid cynnig cefnogaeth i fenywod beth bynnag yw eu dewis.

(5) Dylid sicrhau bod gan y fenyw amser digonol i deimlo'n gyfforddus ynglŷn â gwneud penderfyniad (o leiaf 24 awr fel arfer) p'un a yw'n derbyn neu'n gwrthod prawf mewnwthiol cyn geni ai peidio.

(6) Ym mhob achos, dylid rhoi copi i'r fenyw o lyfryn Sgrinio Cyn Geni Cymru 'Gwybodaeth i fenywod sy'n cael cynnig profion pellach ar gyfer cyflyrau chromosomaidd a amheuir' yn ystod yr ymweliad hwn.[s] Mae'n lenyddiaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am y Gymdeithas Syndrom Down, Support Organisation for Trisomy 13 and Trisomy 18 (SOFT UK) ac i'r elusen Antenatal Results and Choices (ARC).

Safon DEP 42

Mae'n rhaid gwneud cofnod cyfoes, wedi'i ddyddio a'i lofnodi yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ac a weithredwyd mewn ymateb i'r canlyniad NIPT siawns uchel.

Targed 100%

(1) Pan fydd y fenyw yn penderfynu parhau â'r beichiogrwydd ar ôl canlyniad NIPT siawns uchel, dylid cynnig cyfle iddi gyfrannu at y broses o gynllunio ei gofal yn

[s] Mae gwybodaeth ysgrifenedig i fenywod gan ASW ar ffurf copïau caled ac mewn fformatau digidol ar icc.gig.cymru/sgrinio-cyn-geni

ystod y beichiogrwydd, a allai gynnwys cael cynnig arbenigeddau perthnasol E.e. Pediatregwyr, sefydliadau cymorth gwirfoddol.

7.9 Profion Mewnwthiol

Safon DEP 43

Pan fydd prawf mewnwthiol yn cael ei dderbyn mae'n rhaid ei gynnig cyn gynted â phosibl ac o fewn 5 diwrnod gwaith os yw'r fenyw wedi cyrraedd y cyfnod cario ar gyfer ei dewis.

Targed 100%

Safon DEP 44

Mae'n rhaid gwneud cofnod cyfoes, wedi'i ddyddio a'i lofnodi yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ac a weithredwyd ar gyfer menyw â siawns uchel o gael babi gyda syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau.

Targed 100%

(1) Pan fydd y fenyw yn penderfynu parhau â'r beichiogrwydd ar ôl diagnosis o syndrom Down, syndrom Edwards neu syndrom Patau, dylid cynnig cyfle i'r fenyw gyfrannu at y broses o gynllunio ei gofal yn y beichiogrwydd, a allai gynnwys arbenigeddau perthnasol e.e. Pediatregwyr, Bydwragedd arbenigol bwydo ar y fron, sefydliadau gwirfoddol ac yn y blaen.

8.0 Sgrinio Uwchsain yn ystod Beichiogrwydd

Datganiad polisi

Dylid cynnig i bob menyw sy'n byw yng Nghymru sgan uwchsain cynnar cyn bod 13 wythnos a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio (WHC 2003b; NICE 2021) a sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng 18 wythnos a 0 diwrnod ac 20 wythnos a 6 diwrnod o'r beichiogrwydd (RCOG 2000; NICE 2021).

Sgan cynnar yn ystod beichiogrwydd

Rhesymeg y prawf sgrinio

Mae'r sgan uwchsain cynnar yn cael ei gynnig er mwyn asesu a yw'r beichiogrwydd yn hyfyw, ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw ac a oes mwy nag un ffetws (nifer y ffetysau, p'un a yw'r brych yn cael ei rannu ac edrychiad y goden). Efallai fod dod o hyd i rai mathau o anomaleddau difrifol yn y ffetws yn bosibl wrth wneud y sgan cynnar, ond nid dyna yw ei brif bwrpas. Bydd angen gwneud mesuriadau er mwyn asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw cyn gwneud prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau a rhaid gwneud mesuriad ychwanegol os nad yw'r beichiogrwydd wedi cyrraedd 14 wythnos ac 1 diwrnod (mesuriad CRL [hyd y ffetws o'i gorun i'w ben ôl] uchaf o 84mm). Mae defnyddio sgan uwchsain i asesu ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw'n lleihau'r angen i ysgogi'r esgor ar ôl terfyn y cyfnod cario (NICE 2008). Pan fydd prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ar gael yn ystod y tri mis cyntaf o'r beichiogrwydd, bydd y fenyw'n cael canlyniad cynharach i'r prawf sgrinio.

Y Canlyniad a Ragwelir

Cadarnhau bod y beichiogrwydd yn hyfyw, cyfrifo'n gywir ym mha gam o'r cyfnod cario y mae'r fenyw ac adnabod p'un a oes mwy nag un ffetws yno er mwyn hwyluso'r gwaith o reoli'r beichiogrwydd a'r rhaglenni sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.

Sgan uwchsain anomaledd y ffetws

Rhesymeg y Prawf Sgrinio

Pwrpas y sgan uwchsain anomaledd y ffetws yw darganfod unrhyw anomaleddau arwyddocaol yng nghorff y babi sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y fam neu'r babi a lle mae ymyrraeth effeithiol ar gael ar ei gyfer a bod cyfiawnhad dros ei ddefnyddio yn ystod wythnos 18^{+0} neu wythnos 20^{+6} o'r beichiogrwydd.

Yn achos rhai cyflyrau, mae triniaeth ataliol ar gael naill ai yn ystod y cyfnod cyn y geni neu ar ôl y geni, a bydd y driniaeth yn gwella iechyd y babi. Yn achos cyflyrau eraill, nid oes triniaeth ataliol ar gael er bod modd adnabod y cyflwr yn ystod y sgan uwchsain. Gall menywod benderfynu ar sail gwybodaeth p'un a ydyn nhw'n awyddus i weld y beichiogrwydd yn parhau (*Choices*, Ymddiriedolaeth GIG Felindre 2002).

Y Canlyniadau a Ragwelir

Datgelu annormaleddau arwyddocaol yng nghorff y babi er mwyn hwyluso mathau priodol o ymyrraeth yn ôl y galw.

8.1 Safonau Cyffredinol ar gyfer Sganiau Cynnar a Sganiau Anomaledd y Ffetws yn ystod Beichiogrwydd

8.1.1 Gwybodaeth Cyn Cael Prawf

Safon US 1

Rhaid cyfeirio'r fenyw at lenyddiaeth 'Profion Sgrinio Cynenedigol' ASW sydd ar gael ar wefan ASW.

Targed 100%

(1) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod yn cael gwybodaeth lafar a digidol am y profion sgrinio cyn geni

(2) Dylai'r fydwraig sicrhau bod menywod nad ydynt yn gallu cael mynediad at y fersiwn ddigidol o lenyddiaeth Profion Sgrinio Cyn Geni ASW yn cael copi caled.

(3) Lle mae gan fenywod angen iaith neu gyfathrebu gwahanol dylai'r fydwraig sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat cywir h.y. mewn print bras, hawdd ei ddeall, Braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain.

(4) Dylai'r fydwraig gofnodi ym mha fformat y rhoddir y wybodaeth i'r fenyw.

Safon US 2

Rhaid i'r fydwraig gael trafodaeth lafar gyda'r fenyw am yr heintiau yn ystod beichiogrwydd cyn cydsynio ar gyfer y prawf a rhaid gwneud cofnod o'r drafodaeth yng Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Pan fo gan y fenyw angen iaith neu gyfathrebu wwahanol, dylai'r fydwraig sicrhau bod y gwybodaeth gywir yn cael ei darparu mewn fformat sy'n hygyrch. Dylai hyn fod ar ffurf ddigidol yn bennaf, ond ar ôl asesu anghenion y fenyw, e.e. copi caled, Iaith Arwyddion Prydain, neu wasanaeth dehonglwyr cymeradwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd gwybodus.

(2) Rhaid i'r fydwraig esbonio pwrpas, goblygiadau, cyfyngiadau a manteision y sgan uwchsain hwn i'r fenyw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael caniatâd ar sail gwybodaeth.

(3) Pan fydd menyw'n awyddus i gael sgan dyddio beichiogrwydd cynnar neu sgan anomaledd y ffetws ond nid yw'n awyddus i gael gwybod am unrhyw annormaleddau sy'n dod i'r amlwg, dylid dweud wrthi y bydd gwybodaeth yn cael ei rhoi am yr holl ddarganfyddiadau sydd i'w gweld ar y sgan.

(4) Pan fydd prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ar gael yn ystod tri mis cyntaf beichiogrwydd, dylid hefyd gyflawni'r safonau a'r protocolau sydd wedi'u rhestru yn adran saith.

8.1.2 Cynnig Sganiau Uwchsain

Safon US 3

Rhaid cynnig sgan uwchsain cynnar i bob menyw pan fydd tua 12 wythnos o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio a chyn wythnos 14^{+1} o'r beichiogrwydd. Rhaid cynnig sgan uwchsain anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18^{+0} ac wythnos 20^{+6} o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn y cam hwnnw yn y cyfnod cario. Rhaid cofnodi'r cynnig yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

Targed 100%

(1) Dylai menyw sy'n dod i gael gofal cyn geni'n hwyrach yn y beichiogrwydd gael cyfle i gael y math o sgan uwchsain sy'n briodol i'r cam yn y cyfnod cario mae'r fydwraig yn tybio ei bod hi wedi'i gyrraedd ar y pryd.

8.1.3 Rhoi Caniatâd

Safon US 4

Mae caniatâd llafar deallus y fenyw'n ofynnol cyn gwneud y sganiau uwchsain hyn, a rhaid cofnodi ei chaniatâd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan .

Targed 100%

(1) Cyn cychwyn y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar, dylai'r sonograffydd ofyn a yw'r fenyw yn:

- deall y prawf sgrinio y mae wedi cydsynio iddo.
- a oes angen rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio arni.
- yn rhoi ei chydsyniad llafar i fwrw ymlaen â'r prawf sgrinio y cydsyniodd iddo:
    - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar os yw'r fenyw wedi gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, neu
    - y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar gan gynnwys mesur tryloywder y gwegil a chymryd sampl gwaed y fam os yw'r fenyw yn cydsynio i sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau,

(2) Os nad yw'r fenyw yn deall neu os yw wedi newid ei meddwl am y prawf sgrinio neu os yw am gael rhagor o wybodaeth am y prawf sgrinio:

- Dylai'r sonograffydd atgyfeirio'r fenyw yn ôl i'r fydwraig yn y clinig cyn geni i drafod ei phenderfyniad

(3) Dylai'r fydwraig gofnodi unrhyw drafodaethau pellach a newidiadau o ran penderfyniad yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

8.1.4 Cais am Brawf

Safon US 5

Rhaid ysgrifennu 'sgrinio cyn geni' ar y cerdyn cais i'r labordy am sgan uwchsain, a rhaid hefyd ysgrifennu enw'r clinigydd arweiniol neu ei nodi fel achos sydd dan arweiniad obstetregydd os nad yw enw'r obstetregydd ar gael ar y pryd.

Targed 100%

Safon US 6

Rhaid cynnwys ar y cerdyn cais am sgan uwchsain neu yn y cais electronig y wybodaeth ddemograffig gywir a'r wybodaeth glinigol berthnasol.

Targed 100%

(1) Dylai ceisiadau am sgan gynnwys gwybodaeth am unrhyw faterion obstetrig, meddygol a chymdeithasol a allai effeithio ar les y ffetws gan gynnwys:
- unrhyw feichiogrwydd blaenorol lle'r oedd annormaleddau, er enghraifft, namau ar y tiwb niwral ac anomaleddau ar y galon
- unrhyw hanes sydd yn y teulu o annormaleddau cynhenid
- p'un a oes diabetes ar y fam
- epilepsi (ac enw'r feddyginiaeth os yw'r fam yn ei chymryd)
- lefel uchel o BMI (mynegai màs y corff)
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

(2) Dylai cerdyn y cais am sgan ddangos p'un a yw'r fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i'r canlynol:
- sgan cynnar yn ystod beichiogrwydd
- prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, a
- sgan anomaledd y ffetws.

Safon US 7

Rhaid i'r gweithiwr iechyd sy'n gofyn am y prawf lenwi'r cerdyn cais, gan ei lofnodi wedyn.[t]

Targed 100%

(1) Rhaid i gais electronig fod yn dangos llwybr archwilio clir sy'n enwi'r sawl a wnaeth y cais.

[t] Drwy lofnodi'r cerdyn cais i'r labordy neu'r cais yn gofyn am sgan uwchsain, mae'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn cadarnhau bod y fenyw wedi cael gwybodaeth lafar a digidol (neu fformat priodol arall) am bwrpas y prawf neu'r sgan, a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd deallus i'r prawf fynd yn ei flaen.

8.1.5 Gwasanaethau uwchsain

Safon US 8

Dim ond sonograffydd sydd wedi cael ei hyfforddi'n briodol neu sonograffydd sydd dan hyfforddiant a dan oruchwyliaeth sonograffydd arall, a ddylai wneud sganiau uwchsain ar gyfer profion sgrinio cyn geni.[6]

Targed 100%

(1) Rhaid i sonograffwyr sy'n cyfrannu at waith sgrinio cyn geni fod wedi'u cofrestru ar hyn o bryd gyda'u cyrff proffesiynol, er enghraifft, Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal) neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

(2) Rhaid i'r rhai nad ydynt yn gallu cael eu cofrestru gyda chorff proffesiynol/eu rheoleiddio gan gorff proffesiynol (h.y. y rhai sydd wedi cwblhau rhaglen uwchsain mynediad uniongyrchol mewn addysg uwch) gael eu henwi ar gofrestr llywodraethu'r bwrdd iechyd a chael arweinydd llywodraeth penodedig ar gyfer sganiau uwchsain.[7]

Safon US 9

I gymryd rhan mewn sgrinio 'cyfun' rhaid bod y sonograffydd wedi llwyddo mewn asesiad yng Nghymru. Rhaid bod sonograffwyr wedi'u cofrestru gyda DQASS a rhaid iddyn nhw fod yn cymryd rhan mewn asesiadau cyson gan arweinydd eu bwrdd iechyd ar brofion tryleuder y gwegil neu gydlynydd uwchsain Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Targed 100%

(1) Rhaid i bob sonograffydd, fel isafswm, gyrraedd safon foddhaol mewn asesiad ddwywaith y flwyddyn o dair set o leiaf o bâr o ddelweddau hyd o'r corun i'r pen ôl (CRL) a thryleuder y gwegil (NT) gyda'u harweinydd ar brofion NT.

(2) Rhaid i bob sonograffydd lenwi'r Adnodd Sgrinio Tri Mis Cyntaf i Sonograffwyr yn flynyddol ac adnodd e-ddysgu Sgrinio Cyn Geni Cymru ar brofion am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau bob dwy flynedd a rhaid i arweinydd NT y Bwrdd Iechyd wirio a yw'n cydymffurfio â'r gofynion.

(3) Rhaid i'r adroddiad bob chwe mis i'r DQASS ddangos p'un a yw sonograffydd wedi cyrraedd statws baner werdd neu ambr cyn y gall y sonograffydd barhau i wneud y profion sgrinio cyfunol.

(4) Os oes gan sonograffydd lai na 25 o barau o fesuriadau yn yr adroddiad chwe misol i DQASS (baner wen), gall y sonograffydd barhau i wneud profion sgrinio cyfunol. Ond os bydd y sonograffydd hwnnw'n cyflawni llai na 25 o barau o fesuriadau yn y cyfnod dilynol o chwe mis, ystyrir bod statws baner y sonograffydd yn goch a rhaid iddo gael ei ailasesu a bydd rhaid i'r arweinydd ar brofion tryleuder y gwegil roi cynllun gweithredu ar waith ar ei gyfer.

(5) Rhaid cynnwys enw a rhif cofrestru DQASS y sonograffydd sy'n gwneud y mesuriad(au) tryleuder y gwegil ar yr adroddiad ar y sgan uwchsain. Rhaid rhoi rhif DQASS y sonograffydd ar y cerdyn cais am brawf gwaed.

Safon US 10

Os yw'r adroddiad i DQASS yn dangos bod statws baner y sonograffydd yn goch, dim ond dan oruchwyliaeth y gall y sonograffydd hwnnw wneud profion sgrinio uwchsain cyfun tan fydd wedi cael ei ailasesu. Rhaid i arweinydd y bwrdd iechyd ar brofion tryleuder y gwegil fynd ati ar y cyd â chydlynydd Sgrinio Cyn Geni Cymru ar uwchsain i roi cynllun gweithredu ar waith ar ei gyfer.

Targed 100%

Safon US 11

Rhaid bod yr holl offer bydd y gwasanaethau mamolaeth yn eu defnyddio'n cyrraedd safon sy'n cydymffurfio â manyleb peiriannau Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Targed 100%

Safon US 12

Rhaid cofnodi canfyddiadau llawn y sgan uwchsain ar y modiwl adroddiadau sganiau uwchsain a rhaid i'r delweddau gael eu cadw yn system cadw delweddau electronig y bwrdd iechyd[8].

Targed 100%

(1) Dylid defnyddio'r modiwl adroddiadau RadIS2 neu fath arall o fodiwl adroddiadau electronig mae'r bwrdd iechyd wedi'i gymeradwyo ar gyfer radioleg er mwyn creu adroddiadau ar bob sgan uwchsain cynnar a sgan uwchsain anomaledd y ffetws.

(2) Dylid creu adroddiad clir a chryno ar y sgan uwchsain a dylai'r unigolyn sy'n gwneud yr archwiliad uwchsain awdurdodi'r adroddiad fel rhan annatod o'r archwiliad.

(3) Mae'r adroddiad ar y sgan yn ddogfen gyfreithiol ac yn rhan o'r cofnodion meddygol. Dylid cadw ar ffurf electronig yr adroddiad ei hun a'r delweddau a/neu'r ddolen sine sy'n cyd-fynd â'r adroddiad ac sy'n ofynnol er mwyn cofnodi'r sgan.

(4) Dylid cofnodi manylion adnabod digonol, sy'n cynnwys y dyddiad a'r amser, ar bob un o'r delweddau sy'n berthnasol i'r fenyw.

8.1.6 Trefn y Prawf

Safon US 13

Rhaid gwneud y sgan uwchsain cynnar rhwng wythnos 11^{+2} o'r beichiogrwydd (CRL o 45.0mm) ac 14^{+1} wythnos (CRL o 84.0mm). Rhaid gwneud y sgan anomaledd y ffetws rhwng wythnos 18^{+0} o'r beichiogrwydd ac wythnos 20^{+6} (os bydd y fenyw yn cyflwyno cyn yr adeg honno).

Targed 100%

(1) Rhaid parchu anghenion y fenyw o ran preifatrwydd. Rhaid i'r drafodaeth a'r sgan uwchsain gael eu gwneud mewn ystafell lle mae modd gwarantu preifatrwydd y fenyw.

(2) Dylai'r sonograffydd gadarnhau manylion personol y fenyw, a sicrhau ei bod yn ymwybodol o bwrpas y sgan uwchsain a'i bod wedi rhoi ei chaniatâd iddo gael ei wneud.

8.1.7 Trin y Canlyniadau

Safon US 14

Os bydd darganfyddiadau sgan cynnar neu sgan anomaledd y ffetws yn edrych yn normal, rhaid i'r sonograffydd dweud hynny wrth y fenyw a rhoi taflen wybodaeth berthnasol Sgrinio Cyn Geni Cymru iddi er mwyn esbonio darganfyddiadau a chanlyniadau'r sgan uwchsain.

Targed 100%

(1) Mae gwahanol daflenni ar gael sy'n cyd-fynd â'r canlyniad llafar. Mae tair taflen ar gyfer y sgan cynnar ac un daflen ar gyfer sganiau uwchsain anomaledd y ffetws.

Safon US 15

Rhaid cynnwys cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan yn nodi bod y sgan uwchsain wedi cael ei wneud a rhaid cofnodi'r canlyniad hefyd.

Targed 100%

(1) Rhaid argraffu copi o'r adroddiad ar y sgan gan ei gynnwys yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw ar yr adeg mae'r sgan yn cael ei wneud.

8.2 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sganiau Cynnar yn ystod Beichiogrwydd

8.2.1 Trefn y Prawf

Safon US 16

Rhaid i'r sgan gael ei drefnu a'i wneud rhwng wythnos 11^{+2} ac wythnos 14^{+2} o'r beichiogrwydd, yn ddelfrydol yn ystod wythnos 12 (os bydd y fenyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn iddi gyrraedd wythnos 12 o'i beichiogrwydd).

Targed 100%

(1) Dylai'r sgan cynnar gael ei wneud o'r tu allan i'r abdomen.

(2) Os yw'r CRL yn is llai na 45.0mm dylid cynnig apwyntiad am sgan arall.

(3) Os yw'r arwyddion yn dangos bod sgan trawsweiniol (TV) yn briodol, dylid dilyn canllawiau a llwybrau lleol, gan gynnwys y rheini ar ddadheintio mewnchwilyddion. Rhaid i'r rhain gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ac argymhellion cynhyrchwyr y mewnchwilyddion (NWSSP 2014).

Safon US 17

Rhaid defnyddio mesuriad o hyd y babi o'r corun i'r pen ôl (CRL) o hyd at 84.0mm i gyfrifo'r cam yn y beichiogrwydd. Mewn achosion lle mae'r mesuriad CRL yn fwy na 84.0mm, rhaid defnyddio mesuriad o gylchedd y pen (HC) i gyfrifo'r cam yn y beichiogrwydd (Loughna 2009).

Targed 95%

(1) Os nad yw'n bosibl cael mesuriad CRL sy'n ddigonol ac mae'r mesuriad HC yn fwy na 88.0mm, dylid defnyddio'r mesuriad HC i gyfrifo dyddiadau'r beichiogrwydd (Loughna 2009).

Safon US 18

(1) Rhaid bod gan y bwrdd iechyd ganllawiau ar ddelio â beichiogrwydd nad yw'n hyfyw a rhaid dilyn y polisi hwnnw yn achos unrhyw feichiogrwydd anhyfyw sy'n dod i'r amlwg yn ystod y sgan uwchsain cynnar (NICE 2019).

(2) Os yw'r fenyw wedi gofyn am brawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac na chafwyd mesuriadau tryleuder y gwegil neu os yw'r CRL yn fwy nag 84.00mm, mae'n rhaid cynnig prawf sgrinio yr ail gyfnod o dri mis iddi (prawf pedrwbl) ar gyfer syndrom Down yn unig. Nid yw'r prawf pedrwbl ar gael ar gyfer syndrom Edwards a syndrom Patau a dim ond mewn beichiogrwydd sengl y mae ar gael. Ni chynigir apwyntiad ar gyfer sgan arall er mwyn cael mesuriad cywir o dryleuder y gwegil. Mae'n rhaid bod llwybr lleol sy'n cynnig apwyntiadau'r prawf pedrwbl i fenywod.

Safon US 19

Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd lwybr i fenywod sy'n rhoi eu canitad i gael prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac sydd yna'n cael eu hysbysu bod ganddynt feichiogrwydd efeilliaid yn ystod eu sgan dyddio yn gynnar yn eu beichiogrwydd.

Targed 100%

(1) Dylai menywod, y gwyddir eu bod yn disgwyl efeilliaid cyn eu sgan yn gynnar yn eu beichiogrwydd, fod wedi derbyn gwasanaeth cwnsela arbennig ar gyfer sgrinio os ydyn yn feichiog gyda gefeilliaid a'u bod wedi caniatáu i'r prawf sgrinio hwnnw gael ei gynnal cyn eu sgan. Dylai'r sonograffydd gadarnhau bod y fenyw wedi rhoi ei chaniatâd.

(2) Os bydd menyw yn caniatáu i gael prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac sydd yna'n cael eu hysbysu eu bod yn feichiog gyda gefeilliaid yn ystod eu sgan dyddio yn gynnar yn eu beichiogrwydd, bydd gan y bwrdd iechyd lwybr ar gyfer:
- trefnu apwyntiad gyda'r gweithiwr iechyd a enwebwyd gan y bwrdd iechyd ar gyfer sgrinio rhywun sy'n feichiog gyda gefeilliaid.
- gwneud y mesuriadau tryleuder y gwegil cyn wythnos 14^{+1}
- casglu'r sampl gwaed ar gyfer sgrinio cyn wythnos 14^{+1}.

(3) Nid yw'r prawf pedrwbl ar gael ar gyfer y rhai sy'n disgwyl gefeilliaid.

(4) Os yw'r fenyw wedi gofyn am brawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau ac ni chafwyd unrhyw fesuriadau tryleuder y gwegil neu os yw'r CRL yn fwy na 84.00mm, mae'n rhaid hysbysu'r fenyw na ellir cynnig prawf sgrinio.

(5) Os mai dim ond un mesuriad tryleuder ei wegil a gafwyd, gellir cynnig prawf sgrinio cyfun ond bydd y canlyniad yn llai cywir.

(6) Os yw'r CRL o dan 45.0mm dylid cynnig apwyntiad sgan pellach.

(7) Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu gwybodaeth am gynnig prawf sgrinio cytunol ac NIPT pan fydd ail goden feichiogrwydd.

8.2.3 Sganiau Cynnar Annormal yn ystod Beichiogrwydd

Safon US 20

Os bydd y beichiogrwydd yn mynd yn ei flaen ac mae annormaledd yn dod i'r amlwg, rhaid i'r sonograffydd drefnu cyfle i fydwraig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol neu obstetregydd i drafod y darganfyddiadau gyda'r fenyw o fewn 24 awr.

Targed 100%

(1) Pan ddaw annormaledd i'r amlwg neu pan amheuir bod annormaledd, dylai'r sonograffydd ddweud wrth y fenyw yn llafar yn y lle cyntaf am y posibilrwydd o broblem. Rhaid i'r sonograffydd roi adroddiad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw yn ystod yr apwyntiad hwn.

(2) Dylai'r fydwraig neu obstetregydd sydd wedi'u hyffordi'n briodol roi gwybodaeth lafar i'r fenyw, a dylid cofnodi'r drafodaeth yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(3) Pan nad oes gwasanaethau priodol ar gael yn lleol, rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw mewn adran meddygaeth y ffetws/ cardioleg y ffetws o fewn cyfnod priodol ar gyfer y cyflwr a ganfuwyd.

(4) Pan nad yw'r fenyw wedi rhoi ei chaniatâd i gael prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau, nid yw'r asesiad neu'r mesuriad o dryleuder y gwegil (NT) yn rhan o sgan cynnar y beichiogrwydd. Os bydd y sonograffydd yn gweld yn ystod y sgan fod y gwegil yn fwy o bosibl, dylid cymryd mesuriad ohono a'i gynnwys yn yr adroddiad.

(5) Os oes hygroma codennog yn bresennol neu os yw'r mesuriad o dryleuder y gwegil yn 3.5mm neu'n fwy na hynny, dylid hysbysu'r fenwy a (gyda'i chaniatâd) ei chyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i roi mwy o wybodaeth iddi ac i reoli'r achos. Dylid anfon y ddelwedd electronig gyda'r ohebiaeth atgyfeirio.

(6) Os yw tryleuder y gwegil yn mesur 3.5mm neu fwy, dylid cwblhau prawf sgrinio am syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau os yw'r fenyw wedi rhoi ei chaniatâd.

(7) Dan amgylchiadau lle nad oes ffetws byw wedi'i weld wrth wneud sgan uwchsain cynnar, dylid dilyn canllawiau'r Bwrdd Iechyd lleol ar gyfer delio â beichiogrwydd nad yw'n hyfyw.

(8) Mewn achosion lle mae amheuaeth o anomaledd cynhenid, dylid defnyddio'r modiwl adroddiadau RadIS2 i anfon adroddiad at y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Cyfrifoldeb y sonograffydd yw sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon at CARIS. Os nad yw'r modiwl adroddiadau RadIS2 ar gael, dylid llenwi 'cerdyn hysbysu CARIS' yn rhoi gwybod am yr amheuaeth o anomaledd cynhenid, gan anfon y cerdyn at gydlynydd neu swyddfa CARIS.[9]

(9) Nid oes angen gofyn am ganiatâd penodol y fenyw cyn anfon adroddiad at CARIS. Mae gwybodaeth am bwrpas CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod hawl i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani ym mhecyn 'Profion Sgrinoi Cyn Geni' Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon US 21

Fel ymateb i unrhyw ddarganfyddiadau annormal, rhaid ysgrifennu cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

8.3 Safonau a Phrotocolau Penodol ar gyfer Sganiau Uwchsain Anomaledd y Ffetws

8.3.1 Trefn y prawf

Safon US 22

Rhaid mynd ati rhwng wythnos 18^{+0} ac wythnos 20^{+6} o'r beichiogrwydd i gynnig sgan uwchsain anomaledd y ffetws ac i drefnu apwyntiad ar ei gyfer os bydd menyw'n dod i gael gofal cyn geni cyn iddi gyrraedd y cam hwn yn ei beichiogrwydd.

Targed 100%

(1) Dylid cynnig y sgan uwchsain sy'n briodol i'r cam yn y cyfnod cario mae'r fenyw wedi'i gyrraedd, os yw'r fenyw'n dod i gael ei gofal cyn geni'n hwyrach yn y beichiogrwydd. Mae'n bosibl defnyddio modiwl adrodd ar sgan anomaledd rheolaidd RadIS2 ar gyfer y sganiau hyn gyda'r ddealltwriaeth ei bod yn bosibl na fydd yr amcangyfrif o fesuriadau arferol yn gywir yn hwyrach yn y beichiogrwydd.

Safon US 23

Rhaid cyflawni'r safon isaf ar gyfer creu adroddiad ar sgan uwchsain anomaledd y ffetws sy'n digwydd rhwng wythnos 18^{+0} ac wythnos 20^{+6} diwrnod o'r beichiogrwydd, yn unol â'r disgrifiad yn rhestr wirio safonol Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer sgriniau uwchsain anomaledd y ffetws yng Nghymru gyfan, Ebrill 2018.[10]

Targed 100%

(1) Mewn achosion lle nad yw'r archwiliad cyntaf gystal ag y gallai fod neu fod y rhestr wirio'n anghyflawn ac mae'r sonograffydd yn amau bod anomaledd posibl ar y ffetws, dylid gofyn cyn gynted â phosibl am ail farn.

(2) Os nad oes modd cwblhau'r rhestr wirion safonol ar gyfer sgan, dylid cynnig un sgan uwchsain arall i'r fenyw. Dylid dweud wrthi fod nifer o bethau weithiau'n golygu nad yw'r sonograffydd yn gallu cwblhau'r rhestr wirio. Ymhlith y rhesymau pam nad yw efallai'n bosibl cwblhau'r rhestr wirio mae ystyriaethau fel gordewdra neu lefel BMI y fam, ffibroidau yn y groth, creithiau ar yr abdomen a/neu ystyriaethau o safbwynt y ffetws fel safle nad yw gystal ag y gallai fod.

(3) Dylai'r ail archwiliad gael ei wneud cyn wythnos 22^{+6} o'r beichiogrwydd.

(4) Mewn achosion lle nad yw'n bosibl i'r sonograffydd gwblhau'r rhestr wirio safonol ar gyfer yr ail sgan, dylai'r sonograffydd hysbysu'r fenyw pam ac ni ddylid cynnig sgan arall iddi.

(5) Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar sganiau anomaledd y ffetws a oedd yn anghyflawn ar gael o Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon US 24

Rhaid cyfeirio'r canfyddiadau uwchsain penodol a ganlyn i gael eu hasesu ymhellach yn unol â llwybrau arsylwi uwchsain Sgrinio Cyn Geni Cymru 2018:
- fentrigwlomegali
- coluddyn ecogenig
- ymlediad y pelfis arennol.

Targed 100%

8.3.2 Sganiau Annormal o Anomaledd y Ffetws

Safon US 25

Pan fydd anomaledd ar y ffetws wedi dod i'r amlwg, rhaid i'r sonograffydd drefnu cyfle i fydwraig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol neu obstetregydd i drafod y darganfyddiadau gyda'r fenyw o fewn 24 awr.

Targed 100%

(1) Pan ddaw anomaledd i'r amlwg neu pan amheuir bod annomaledd wedi'i ganfod, dylai'r sonograffydd ddweud wrth y fenyw yn llafar yn y lle cyntaf am y posibilrwydd o broblem. Rhaid i'r sonograffydd roi adroddiad yng Nghofnod Mamolaeth Cymru Gyfan y fenyw yn ystod yr apwyntiad hwn.

(2) Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar achosion o asgwrn y forddwyd sy'n fyr.

(3) Yna dylai'r fydwraig neu'r obstetregydd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol roi gwybodaeth lafar i'r fenyw, a dylid cofnodi'r ffaith fod y drafodaeth wedi digwydd yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan.

(4) Mae cyngor ar wneud archwiliadau serolegol ar serwm y fam i'w gael yn y ddogfen ar heintiau yn ystod beichiogrwydd.

(5) Pan nad oes gwasanaethau priodol ar gael yn lleol, rhaid cynnig apwyntiad i'r fenyw mewn adran meddygaeth y ffetws/cardioleg y ffetws o fewn cyfnod sy'n briodol ar gyfer y cyflwr a ganfuwyd.

(6) Mewn achosion lle mae amheuaeth o anomaledd cynhenid, dylid defnyddio'r modiwl adroddiadau RadIS2 i anfon adroddiad at y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS). Cyfrifoldeb y sonograffydd yw sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon at CARIS. Os nad yw'r modiwl adroddiadau RadIS2 ar gael, dylid llenwi 'cerdyn hysbysu CARIS' yn rhoi gwybod am yr amheuaeth o anomaledd cynhenid, gan anfon y cerdyn at gydlynydd neu swyddfa CARIS.

(7) Nid oes angen gofyn am ganiatâd penodol y fenyw cyn anfon adroddiad at CARIS. Mae gwybodaeth am bwrpas CARIS ac am hawl y fenyw i wrthod hawl i CARIS ddefnyddio gwybodaeth amdani ym mhecyn 'Profion Sgrinio Cyn Geni' Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Safon US 26

Yn achos amheuaeth o anomaledd ar galon y ffetws, rhaid i'r fenyw gael ei hadolygu gan gardiolegydd y ffetws o fewn tri diwrnod gwaith.

Targed 90%

Safon US 27

Fel ymateb i unrhyw ddarganfyddiadau annormal, rhaid ysgrifennu cofnod yn y Cofnod Mamolaeth Cymru Gyfan o'r camau gweithredu a gafodd eu cymryd a'r rhai y mae bwriad i'w cymryd, gan lofnodi'r cofnod ac ysgrifennu'r dyddiad.

Targed 100%

Cyfeiriadau

British Association for Sexual Health and HIV (BASHH) (2015) UK National Guidelines on the Management of Syphilis 2015. International Journal of STD & AIDS. (Accessed 19/2/19)

British HIV Association (BHIVA) (2018) British HIV Association guidelines for the management of HIV in pregnancy and postpartum (2019 interim update). www.bhiva.org/pregnancy-guidelines (Accessed on 19/2/19).

British Society for Haematology (BSH), (2016). Guideline for Blood Grouping and Antibody Testing in Pregnancy. Available from: onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/tme.12299 (Accessed on 18/2/19).

British Committee for Standards in Haematology (BCSH) (2016) Guidelines for the Estimation of Fetomaternal Haemorrhage Available from:

British Committee for Standards in Haematology (BCSH) (2014) BCSH guideline for the use of anti-D immunoglobulin for the prevention of haemolytic disease of the fetus and newborn Available from: onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/tme.12091/pdf (Accessed on 09/02/19).

Department of Health (2017) Immunisation Against Infectious Diseases – Hepatitis B: 'The Green Book', Chapter 18. Available from: www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book#the-green-book (Accessed 19/2/19).

Loughna (2009) cited in Chudleigh, T, Loughna, P, et al. (2011) A Practical Solution to Combining Dating and Screening for Down's Syndrome. Available from: journals.sagepub.com/doi/abs/10.1258/ult.2011.011028 (Accessed 09/03/19).

National Assembly for Wales (2000) Antenatal Screening to Reduce Mother to Baby Transmission of HIV. Cardiff: National Assembly for Wales.

National Study of HIV in Pregnancy and Childhood (NSHPC) (2018) UCL, Great Ormond Street Institute of Child Health, London. Available from: www.ucl.ac.uk/nshpc/. (Accessed 19/2/19).

NHS Sickle Cell and Thalassaemia Screening Programme (2021) Sickle Cell and Thalassaemia Handbook for Laboratories. Available from: https://www.gov.uk/government/publications/sct-screening-handbook-for-antenatal-laboratories (Accessed on 27/5/2022).

NHS Wales Shared Services Partnership (NWSSP), (2014) Decontamination of Flexible Endoscopes. Part C: Operational Management. Available from: www.nwssp.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1178/WHTM%2001-06%20Part%20C.pdf. (Accessed on 19/2/19).

NICE (2008) CG62. Antenatal Care: Routine Care for the Healthy Pregnant Woman. London: RCOG Press.

NICE (2021) NG201. Antenatal Care: Available from: www.nice.org.uk/guidance/ng201 (Accessed 27/05/2022).

NICE (2019) NG116 Ectopic Pregnancy and Miscarriage: Diagnosis and Initial Management. Available from: https://www.nice.org.uk/guidance/ng126 (Accessed on 27/5/2022).

NSHPC (2018) National Surveillance of HIV in Pregnancy and Childbirth NSHPC 2018 England

NSC (2016) The UK NSC recommendation on Fetal Anomaly screening in pregnancy legacyscreening.phe.org.uk/fetal anomalies London: UK NSC

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2021) Amniocentesis and Chorionic Villus Sampling (Green-top Guideline No. 8). Available from: Amniocentesis and Chorionic Villus Sampling (Green-top Guideline No. 8) | RCOG

Royal College of Obstetricians and Gynaecologists (2011) The Care of Women Requesting Induced Abortion Summary. Evidence-based Clinical Guideline number 17. Page 19. London: RCOG Press.

Serious Hazards of Transfusion (SHOT) (2017) Annual SHOT Report 2017. Available from: www.shotuk.org/wp-content/uploads/myimages/SHOT-Report-2017-WEB-Final-v4-25-9-18.pdf. (Accessed on 19/2/19).

Welsh Health Circular (1998) Number 36. Screening of Pregnant Women for Hepatitis B and Immunisation of Babies at Risk. Cardiff: Welsh Office.

Welsh Health Circular (2003b) Number 127. Annual Priorities and Planning Guidance for the Service and Financial Framework 2004-05. Cardiff: Welsh Assembly Government.

Welsh Health Circular (2017) 022 Change of vaccine for the routine primary infant immunisation Cardiff: Welsh Government

Welsh Language Standards (No7) Regulations 2018 Standard 38 Welsh Assembly Government

Ôl-nodiadau

[1] Cyn gynted â phosibl ar ôl y geni ac ar ôl gofyn am ganiatâd y rhieni, argymhellir brechu babanod cyfnod llawn yn unol â statws hepatitis B y fam a'r argymhellion yn y Llyfr Gwyrdd (2013a).

[2] Dylid rhoi brechlyn hepatitis B i fabanod cyfnod llawn sy'n pwyso dros 1500g pan mae'r fam yn HbsAG positif a gwrth-HBe bositif a lle mae lefel HBV DNA y fam yn < 1x106IU/ml mewn sampl a dynnwyd cyn y geni. Bydd angen brechlyn hepatitis B a HBIG fel ei gilydd ar bob babi arall.

[3] Bydd y babi angen dosys ychwanegol o frechlyn hepatitis B pan fydd yn fis, deufis, tri mis, pedwar mis a 12 mis oed. Dylid gwneud prawf gwaed pan fydd y babi'n 12 mis oed i wirio lefel ei imiwnedd.

[4] Digwyddiadau a allai sensiteiddio yn ystod beichiogrwydd:

- amniosentesis, biopsi o'r filysau corionig a cordocentesis
- gwaedlif antepartwm/gwaedu o'r groth (PV) yn ystod beichiogrwydd
- troad ceffalig ar y tu allan
- trawma i abdomen (rhywbeth siarp/heb fin, agored/caeedig)
- beichiogrwydd ectopig
- gwagio beichiogrwydd môl
- marwolaeth babi yn y groth a babi marw-anedig
- ymyraethau therapiwtig i mewn yn y groth (*in-utero*) (trallwysiadau, llawfeddygaeth, mewnosod siyntau, laser)
- erthyliad naturiol neu fygythiad o erthyliad naturiol
- terfynu beichiogrwydd am resymau therapiwtig
- genedigaeth – normal, gydag offer neu doriad Cesaraidd
- adfer celloedd yn ystod llawdriniaeth

[5] Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl yn y beichiogrwydd i gynnig prawf sgrinio am anhwylder y crymangelloedd a thalasaemia i'r fenyw er mwyn i samplu filysau corionig (CVS) fod yn un o'r dewisiadau sydd ar gael iddi os bydd profion mewnwthiol yn cael eu cynnig. Er bod modd gwneud prawf CVS pan fydd wythnos 13 o'r beichiogrwydd wedi mynd heibio (RCOG 2010), mae CVS yn cael ei wneud fel arfer rhwng wythnos 11^{+0} ac wythnos 13^{+6}.

[6] Mae 'sonograffydd' yn weithiwr iechyd proffesiynol sydd wedi cymhwyso ym maes uwchsain ac sy'n gwneud archwiliadau uwchsain. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefn reoleiddio ar gyfer rheoli'r gwaith o wneud sganiau uwchsain ym maes obstetreg ond rhaid i unrhyw sonograffydd sy'n gwneud sganiau uwchsain ym maes obstetreg yng Nghymru fod wedi ennill diploma perthnasol o gymhwyster uwchsain meddygol ym maes obstetreg, neu dystysgrif ôl-radd neu ddiploma mewn delweddu uwchsain meddygol sydd wedi'i achredu ar sail achosion. Gan roi sylw i argymhellion y cyrff proffesiynol perthnasol, dylai'r byrddau iechyd gytuno pa rai o'u gweithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r gallu a'r sgiliau i wneud sganiau uwchsain cynnar a sganiau anomaledd y ffetws.

[7] Yn sgil cyflwyno'r rhaglenni uwchsain mynediad uniongyrchol mewn addysg uwch, bydd rhai sonograffwyr yn cael cymhwyster achrededig ond ni fydd modd iddynt gofrestru gyda chorff rheoleiddio e.e. HCPC. O ystyried argymhellion cyrff proffesiynol perthnasol, dylai Byrddau Iechyd gytuno pa weithwyr iechyd proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r cymwyseddau i gynnal sganiau uwchsain yn ystod beichiogrwydd cynnar ac ar gyfer anomaledd y ffetws.

[8] Delweddau i'w storio ar gyfer sgan anomaledd y ffetws:
Cytunodd y sonograffwyr Arweiniol Obstetrig ar y gyfres ganlynol o ddelweddau fel isafswm gofynnol ar gyfer storio, ac i ddarparu asesiad o ansawdd o'r archwiliad.

Mesur cylch y pen, trwyn, gwefusau a gên, hyd asgwrn y forddwyd, delwedd o bedair siambr y galon, rhan ardraws yr arennau yn yr abdomen, delwedd tracea tair pibell gyda lliw, rhan hydredol canol i gynnwys yr os mewnol, yr asgwrn cefn saethol. Dylai unrhyw annormaledd neu fesuriadau eraill a gynhwysir yn yr adroddiad gynnwys delwedd i ategu'r canfyddiad.

[9] Mae Adran 60 yn ategu gwaith CARIS. Mae Adran 60 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 yn darparu'r pŵer i sicrhau y gellir defnyddio gwybodaeth sy'n gallu datgelu hunaniaeth claf i gefnogi gweithgaredd hanfodol y GIG heb ganiatâ cleifion. Dim ond er mwyn hwyluso gwaith meddygol sydd er budd y claf unigol neu'r cyhoedd yn gyffredinol y gall y pŵer gael ei ddefnyddio, pan nad yw'n ymarferol i ofyn am ganiatâd y claf a lle na fyddai data dienw'n ddigon i'r pwrpas dan sylw.

[10] O achos cyfyngiadau'r prawf, dim ond cyfran o annormaleddau yn natblygiad corff y babi y gall sganiau uwchsain anomaledd y ffetws eu canfod. Mae'n bwysig nodi nad yw 'sgan anomaledd cyflawn o'r ffetws' yn golygu o anghenraid fod pob rhan o gorff y babi wedi datblygu'n normal ac nad oes unrhyw annormaleddau yno. Unig ystyr y term yw bod y sgan wedi cael ei gwblhau i'r safon sy'n ofynnol.